Cofrestrfa Tir
Adroddiad Blynyddol
a Chyfrifon 2006/7

# Ein cwsmeriaid, ein pobl, ein dyfodol

# Darllenwyr yr adroddiad hwn

Mae Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir), a sefydlwyd yn 1862, yn adran o'r llywodraeth yn ei rhinwedd ei hun, yn asiantaeth weithredol ac yn gronfa fasnachu ac nid yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol iddi sicrhau bod ei hincwm o ffioedd yn cwmpasu ei holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'i phrif fusnes, a'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n llawer llai. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau ar wahân ond mae'r cyfrifon yn cael eu rhoi ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn ei chyfanrwydd.

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor yw'r gweinidog sy'n gyfrifol am y Gofrestrfa Tir. Hwn yw adroddiad ffurfiol y Prif Gofrestrydd Tir i'r gweinidog ar berfformiad y Gofrestrfa Tir yn erbyn pob un o'r amcanion a'r targedau perfformiad allweddol a bennwyd gan y gweinidog ar gyfer 2006/7.

Mae copïau o'r adroddiad ar gael i:

— staff y Gofrestrfa Tir
— siopau llyfrau'r Llyfrfa i'w gwerthu i'r cyhoedd
— cyrff sy'n cynrychioli'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn gyson
— y sefydliadau hynny sydd â diddordeb proffesiynol neu ymarferol arbennig mewn trawsgludo neu agweddau eraill ar waith y Gofrestrfa Tir
— academyddion yn y maes
— y wasg genedlaethol a phroffesiynol
— adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth, gan gynnwys Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet
— cofrestrfeydd tir dramor
— y Cenhedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a Banc y Byd
— yr unigolion hynny mewn sefydliadau sydd â diddordeb proffesiynol mewn rheolaeth y sector cyhoeddus.

I ddarllenwyr yr adroddiad hwn nad ydynt yn gyfarwydd â thermau'r Gofrestrfa Tir, mae rhestr termau wedi cael ei darparu yn Atodiad 8. Gallwch weld yr adroddiad hwn ar-lein ar ein gwefan yn www.cofrestrfatir.gov.uk.

Os hoffech gael yr adroddiad blynyddol a chyfrifon hwn mewn fformat gwahanol, gan gynnwys tâp sain, Braille neu brint bras, cysylltwch ag Ian MacEachern drwy ffôn: 020 7166 4496 neu e-bost: ian.maceachern@landregistry.gsi.gov.uk

# Cofrestrfa Tir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2006/7

Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr ar waith y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn 2006/7.

Adroddiad wedi'i baratoi yn unol ag adran 101 Deddf Cofrestru Tir 2002, a chyfrifon wedi'u paratoi yn unol ag Adran 4(6) Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, Cronfa Fasnachu Cofrestrfa Tir EM fel ar 31 Mawrth 2007, ynghyd ag Adroddiad y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 18 Gorffennaf 2007.

HC764 Llundain: Y Llyfrfa

RHAGORIAETH MEWN GWASANAETHAU CWSMERIAID
BUDDSODDWR MEWN POBL

© Hawlfraint y Goron 2007
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio unrhyw Arfau Brenhinol a logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a dylid nodi teitl y ddogfen.
Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am yr hawlfraint yn y ddogfen hon at yr
Is-adran Drwyddedu, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ.
Ffacs: 01603 723000 neu e-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Pigion 2006/7** | **4** |
| **Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr** | **8** |
| **Cyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir** | **10** |
| Amdanom ni | 12 |
| Ein cenhadaeth, gweledigaeth ac amcanion strategol | 13 |
| Ein dangosyddion perfformiad allweddol | 14 |
| Ein perfformiad yn erbyn ein targedau perfformiad allweddol 2006/7 | 15 |
| Ein perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2006/7 | 16 |
| Gwaith a dderbyniwyd ac a gwblhawyd | 17 |
| Bodlonrwydd cwsmeriaid cyffredinol | 18 |
| Effeithlonrwydd | 18 |
| Cyflymder | 20 |
| Cywirdeb | 21 |
| Safonau gwasanaeth | 21 |
| **Ein sefydliad** | **22** |
| **Ein gwasanaethau** | **29** |
| **Ein cwsmeriaid** | **35** |
| **Ein pobl** | **42** |
| **Ein technoleg** | **48** |
| **Ein dyfodol** | **53** |
| **Cyfrifon 2006/7** | **54** |
| **Atodiadau** | **88** |
| 1 Targedau perfformiad allweddol a chanlyniadau ers 2001 | 89 |
| 2 Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd 2005/6 a 2006/7 | 91 |
| 3 Datganiad o safonau gwasanaeth | 92 |
| 4 Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2007/8 | 95 |
| 5 Targedau perfformiad allweddol a pherfformiad busnes ehangach wedi'u hesbonio | 96 |
| 6 Datganiad recriwtio | 100 |
| 7 Manylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd y Gofrestrfa Tir | 101 |
| 8 Rhestr termau | 103 |
| 9 Strwythur llywodraethu corfforaethol y Gofrestrfa Tir 2006/7 | 106 |
| 10 Polisi rheoli risg y Gofrestrfa Tir | 108 |

# Pigion 2006/7

## Y pris cywir

Lansiwyd Mynegai Prisiau Tai'r Gofrestrfa Tir ym mis Hydref. Mae ei ddull 'cymharu tebyg â'i debyg' o gyfrifo newidiadau mewn prisiau, gan ddefnyddio cronfa ddata unigryw'r Gofrestrfa Tir o bob trafodiad eiddo yng Nghymru a Lloegr, yn golygu bod y Mynegai Prisiau Tai yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn amserol. Mae'r mynegai a'i ganfyddiadau wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau.

| | |
|---|---|
| Mynegai | 206.2 |
| Pris cyfartalog | £169,569 |
| Newid misol | 1.3% |
| Newid blynyddol | 6.3% |

## Cadw pawb yn hapus

Mae canran y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn neu'n fodlon â'n hamrywiaeth lawn o wasanaethau yn 98.6 y cant, sy'n ganran eithriadol, gyda 49.8 y cant yn rhoi eu hunain yn y categori bodlon iawn.

## Ystyriol o blant

Agorwyd Meithrinfa Ddydd Westbridge yn Swyddfa Caerlŷr gan weinidog yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar y pryd, y Farwnes Ashton o Upholland ym mis Hydref. Mae meithrinfeydd ar y safle yn naw o swyddfeydd y Gofrestrfa Tir ac mae darparwyr allanol yn cynnig llefydd meithrinfa mewn naw swyddfa arall. Mae llefydd meithrinfa ar y safle ac a brynwyd i mewn yn cael eu cymorthdalu gan y Gofrestrfa Tir ar gyfradd o 33 y cant o'r gost.



Rhai o blant y feithrinfa yn rhoi blodau i'r gweinidog

## Dwylo diogel

Cyrhaeddwyd carreg filltir yn natblygiad e-drawsgludo pan roddodd y Gofrestrfa Tir y contract ar gyfer sicrhau diogelwch y system electronig i IBM.  Ar ddiwedd mis Mawrth cyrhaeddwyd carreg filltir arall pan lansiwyd y prototeip o'r Gadwyn Matrics, sy'n cynnig modd i drawsgludwyr a phrynwyr a gwerthwyr cartrefi gyrchu gwybodaeth am eu cadwyni eiddo ar-lein.  Mae'r prototeip yn cael ei brofi mewn tair ardal yn Lloegr.




Y Dirprwy Brif Weithredwr Ted Beardsall yn rhoi pin ar bapur gyda Jan Gower o IBM

## Bywyd a gwaith

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cael ei chanmol am nifer o'i harferion cyflogaeth.  Yn ddiweddar mae Systemau Gwybodaeth wedi cael eu cynnwys yng nghanllaw newydd Top IT Employers in the UK a derbyniwyd nod barcud Cyflogwr Cymeradwy Platinwm ar gyfer Datblygu Hyfforddeion gan Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig.

## Diolch, weinidog

Cafodd Vera Baird QC, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Materion Cyfansoddiadol, gyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y Gofrestrfa Tir ym mis Ionawr.  Roedd Ms Baird wedi cymryd yr awenau oddi wrth y Farwnes Ashton.  Ym mis Mawrth aeth Ms Baird i Brif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir i gwrdd â'r Prif Gofrestrydd Tir Peter Collis a staff eraill. "Mae'r Gofrestrfa Tir yn sefydliad mor ddeinamig," dywedodd Ms Baird, AS Redcar.  "Rwy'n hoffi'r ffordd y mae'r e-wasanaethau newydd yn grymuso busnesau a dinasyddion yn eu deliadau â thir ac eiddo." Enw newydd yr Adran Materion Cyfansoddiadol yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.



Ms Baird (chwith) yn dysgu am wasanaethau'r Gofrestrfa Tir

# Pigion 2006/7 parhad

## Iechyd da

Dechreuodd gyfres o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd ar draws y sefydliad yn yr haf gyda'r ffocws ar galonnau iach. Roedd y Prif Gofrestrydd Tir Peter Collis wedi arwain taith gerdded gyflym o gwmpas Lincoln's Inn Fields a chynhaliwyd digwyddiadau tebyg mewn swyddfeydd lleol.



Peter Collis yn arwain y cerddwyr

## Mynd yn wyrdd

Roedd archwiliad allanol wedi ailgadarnhau tystysgrif ISO 14001 y Gofrestrfa Tir ym mis Chwefror, sy'n dangos ein bod yn bodloni safonau rhyngwladol ar gyfer defnyddio ynni, gwaredu gwastraff ac ymwybyddiaeth amgylcheddol cyffredinol. Yn dilyn ymgyrch ar draws y sefydliad i gwtogi'r defnydd o adnoddau, daethom yn ail yng nghategori aml-safle Gwobrau Glanhau Carbon.

## Cofrestrwch yma

Mae'r Gofrestrfa Tir yn annog perchnogion tir digofrestredig i gofrestru eu heiddo yn wirfoddol a manteisio ar ddisgownt o 25 y cant ar y ffi. Roedd rhwydweithio swyddfa leol ac ymgyrch ranbarthol yn y cyfryngau wedi ein helpu i gyrraedd ein dangosydd perfformiad allweddol sef ychwanegu 700,000 hectar i gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae cofrestriadau diweddar wedi cynnwys Dugiaethau Cernyw a Chaerhirfryn, Ystad Blenheim, Amgueddfa Prydain a'r Comisiwn Coedwigaeth.



## Tic i gydraddoldeb

Roedd adolygiad gan y Ganolfan Byd Gwaith wedi ailgadarnhau dyfarnu'r symbol anabledd Tic Dwbl i'r Gofrestrfa Tir, gan ddangos ein hymrwymiad i recriwtio, cadw, hyfforddi a datblygu gyrfa staff anabl. Hefyd, rydym wedi creu cynllun cydraddoldeb anabledd i ychwanegu at ein cynllun cydraddoldeb hiliol mwy hirsefydledig.



## Dan ei sang

Derbyniwyd y nifer mwyaf erioed o geisiadau, sef 34,448,431 yn ystod y flwyddyn. Roedd ychydig dros hanner ohonynt yn geisiadau safonol i newid cofnod ar y Gofrestr Elusennau neu greu un newydd. Roedd y gweddill yn geisiadau gwasanaeth cychwynnol am wybodaeth. Roedd ceisiadau cychwynnol yn arbennig o uchel, gyda chyfanswm o 14,660,341 sy'n 9.4 y cant yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

## Anrhydedd mawr

Cydnabuwyd bron 40 blynedd o wasanaeth i'r Gofrestrfa Tir pan dderbyniodd Gordon Vickers OBE gan y Frenhines ym Mhalas Buckingham ym mis Tachwedd. Roedd Gordon wedi ymddeol o'n Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth y llynedd. Roedd wedi cymryd rhan mewn nifer o'n prosiectau TG allweddol, gan gynnwys datblygu gwefan y Gofrestr Tir Ar-lein a pharatoi ar gyfer cyflwyno e-drawsgludo.



Gordon Vickers yn cwrdd â'r Frenhines (Credyd: BCA Films)

# Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

Bu hon yn flwyddyn gyffrous i'r Gofrestrfa Tir, nid lleiaf oherwydd ein bod wedi cyhoeddi ein Glasbrint. Mae'r weledigaeth ynddo yn disgrifio sut y bydd y Gofrestrfa Tir yn edrych erbyn canol y degawd nesaf, pan ddisgwylir y bydd gennym Gofrestr Tir gynhwysfawr ar gyfer Cymru a Lloegr ac e-drawsgludo fydd y dull sefydledig ar gyfer trosglwyddo a morgeisio eiddo.

Wrth wraidd ein Glasbrint yw Cofrestrfa Tir sy'n canolbwyntio mwy byth ar anghenion ei chwsmeriaid, gan deilwra ei gwasanaethau i'w gofynion arbennig. Yn 2006/7 cymerwyd camau sylweddol i'r cyfeiriad hwn drwy ddatblygu a marchnata ystod o wasanaethau masnachol a lansio ein Mynegai Prisiau Tai newydd. Mae hyn yn seiliedig ar ein cronfa ddata unigryw o bob trafodiad eiddo yng Nghymru a Lloegr, gan ddefnyddio dull 'cymharu tebyg â'i debyg' o gyfrifo newidiadau mewn prisiau sy'n gwneud y mynegai yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn amserol.

Yn 2007/8 byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhain a gwasanaethau newydd eraill a, lawn cyn bwysiced, byddwn yn gwneud mwy o ymdrech i ddod â nhw at sylw'r ystod enfawr o fusnesau ac unigolion y credwn y gallai fanteisio arnynt.

Ond rhaid i ni barhau i hoelio ein sylw pennaf ar ein busnes craidd. Yn dilyn tuedd y blynyddoedd diwethaf, roedd ein llwyth gwaith wedi parhau i gynyddu gan 5.88 y cant o'i gymharu â 2005/6. Ymdriniwyd â'r gwaith hwn yn gyflym, yn gywir ac yn effeithlon.

Prif gyflawniad oedd cynyddu'r Gofrestr Tir i gwmpasu 59 y cant o Gymru a Lloegr, o'i gymharu â 48 y cant dim ond dwy flynedd yn ôl. Cyflawnwyd hyn drwy dargedu tirfeddianwyr mwy a'u darbwyllo am fanteision cofrestru eu hystadau yn wirfoddol. Roedd hyn wedi cynnig modd i ni ragori ar ein targed carreg filltir o 700,000 hectar. Yn 2007/8 anelwn at gofrestru 550,000 hectar arall.

Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn parhau i gyrraedd y lefelau uchaf. Mae canran y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn neu'n fodlon â'n hystod lawn o wasanaethau yn 98.6 y cant, sy'n ganran eithriadol, gyda 49.8 y cant yn rhoi eu hunain yn y categori bodlon iawn.

Mae ein rhaglen trawsgludo electronig wedi symud ymlaen i lansio'r prototeip o'r gwasanaeth Cadwyn Matrics ym Mawrth 2007, gan gwrdd â'r targed perfformiad allweddol e-drawsgludo ar gyfer 2006/7. Byddwn yn parhau i dreialu ein prototeip arloesol a gwerthuso ymateb trawsgludwyr, rhoddwyr benthyg, gwerthwyr tai a'r cyhoedd.

Yn llai amlwg, ond heb fod yn llai arwyddocaol, byddwn yn gweithredu system gadarn ar gyfer atodi llofnodion electronig i ddogfennau, a fydd yn arwain

y ffordd at gyflwyno ceisiadau electronig gyda gweithredoedd wedi'u hatodi iddynt, megis morgeisi a throsglwyddiadau eiddo. Hefyd, byddwn yn dadansoddi ymatebion i'n hymgynghoriad cyntaf ar y ddeddfwriaeth eilaidd ddrafft, sy'n angenrheidiol cyn y gellir cyflwyno e-drawsgludo. Byddwn yn cymryd camau pellach gyda'n rhaglen e-drawsgludo yn 2007/8.

Ni fyddem yn gallu cyflawni hyn oll heb ein gweithlu ymroddedig a dawnus. Mae'n rhaid i ni eu cefnogi er mwyn iddynt allu parhau i roi o'u gorau. Eleni mae'r cymorth hwn wedi cynnwys, ymhlith nifer o bethau eraill, becyn hyfforddiant amrywiaeth cynhwysfawr a pharhau â'n rhaglen Arweinwyr y Dyfodol. Rydym yn cyflwyno mesur perfformiad busnes ehangach newydd ar gyfer 2007/8 a fydd yn mesur nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi y person.

Roedd rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau anodd yn 2006/7. Mae gwelliannau parhaus mewn effeithlonrwydd yn golygu bod ein gweithlu yn ddwy ran o dair o'r hyn yr oedd yn ei anterth, ond nid yw ein rhwydwaith swyddfa wedi newid. Roedd rhaid i ni fynd i'r afael â hyn, ac felly cynigiwyd uno pum pâr o'n swyddfeydd a chau dwy swyddfa arall. Nid oedd hyn yn hawdd i sefydliad oedd heb gau unrhyw swyddfeydd sylweddol ers iddo gael ei sefydlu yn 1862. Ond, pwysleisiwyd y byddem yn gwneud popeth a allem i helpu staff a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynigion hyn a byddem yn ceisio galluogi cynifer â phosibl i aros gyda ni drwy drosglwyddo i swyddfa arall.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen ein hadroddiad blynyddol ar ei wedd newydd. Rydym yn hynod falch o'r gwasanaeth a ddarparwn a byddwn yn ceisio gwneud hyd yn oed yn well yn 2007/8. Byddwn yn wynebu sialensiau lefel y gweithgarwch yn y farchnad dai; ffyniant y farchnad ail-forgeisio; twf parhaus ym maint y Gofrestr Tir; a'r defnydd cynyddol sy'n cael ei wneud gan gwsmeriaid o'r wybodaeth ar y gofrestr gan ei bod cymaint yn fwy hygyrch erbyn hyn, yn ogystal â bwrw ymlaen ag e-drawsgludo a rhaglenni datblygu eraill.

Ein nod, wrth i bob blwyddyn fynd heibio, yw bod gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir yn gwella'n barhaus ac mae ein sefydliad yn un y gall cwsmeriaid, staff a phartneriaid busnes ymfalchïo mwy ynddo. Gobeithio, ar ôl darllen yr adroddiad hwn, byddwch yn rhannu ein teimlad o falchder.



Peter Collis CB HonRICS CCMI
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

Gorffennaf 2007

# Cyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir



**Peter Collis CB HonsRICS CCMI**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr



**Ted Beardsall CBE**
Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Datblygu Busnes



**Joe Timothy**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir



**Andy Howarth**
Cyfarwyddwr Gweithrediadau



**Mike Cutt**
Cyfarwyddwr Anweithredol



**David Rigney**
Cyfarwyddwr Anweithredol



**Heather Foster**
Cyfarwyddwr Cyllid



**Linda Daniels**
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol



**John Wright**
Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth

# Amdanom ni

Cenhadaeth y Gofrestrfa Tir yw darparu'r gwasanaeth gorau yn y byd ar gyfer gwarantu perchnogaeth tir a hwyluso trafodion eiddo.

Wrth geisio cyflawni'r genhadaeth hon, prif amcanion y Gofrestrfa Tir yw:

- cynnal a datblygu system cofrestru tir sefydlog ac effeithiol yng Nghymru a Lloegr fel y conglfaen ar gyfer creu buddion mewn tir a symudiad rhydd y buddion hynny
- ar ran y Goron, gwarantu teitl i ystadau cofrestredig a buddion mewn tir yng Nghymru a Lloegr
- darparu mynediad rhwydd i'r wybodaeth ddiweddaraf a gwarantedig am dir, gan sicrhau deliadau hyderus mewn eiddo a gwarant teitl
- darparu gwasanaeth Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol.

Crëwyd y Gofrestrfa Tir fel adran ar wahân o'r llywodraeth yn 1862 ac fe'i gwnaethpwyd yn asiantaeth weithredol ar 2 Gorffennaf 1990 ac yn gronfa fasnachu ar 1 Ebrill 1993. Y Prif Gofrestrydd Tir yw Pennaeth yr Adran, Swyddog Cyfrifyddu llawn a Phrif Weithredwr yr asiantaeth weithredol. Mae'n ddeiliad swydd statudol ac yn gyfrifol am weinyddu'r holl fusnes o gofrestru tir yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu trwy 24 swyddfa a leolir ar hyd a lled Cymru a Lloegr, Prif Swyddfa yn Llundain, a swyddfeydd yn Plymouth sy'n gartref i'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol a'n Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth. Mae manylion cyswllt swyddfeydd y Gofrestrfa Tir i'w gweld yn Atodiad 7.

Mae'r Gofrestr Tir, sy'n cynnwys mwy nag 21 miliwn o deitlau, wedi bod ar gael i'r cyhoedd ei gweld ers Rhagfyr 1990.

# Ein cenhadaeth, gweledigaeth ac amcanion strategol

## Ein cenhadaeth

Darparu'r gwasanaeth gorau yn y byd ar gyfer gwarantu perchnogaeth tir a hwyluso trafodion eiddo.

## Ein gweledigaeth

Gwneud trafodion eiddo yn haws i bawb.

## Ein hamcanion strategol

Mae ein cynllun strategol yn ceisio datblygu neu wella gwasanaethau sy'n bod yn ogystal â chyflwyno gwasanaethau newydd, gyda'r nod pennaf o wneud trafodion eiddo yn haws i bawb.

Rydym wedi nodi pedwar maes allweddol i'w datblygu: gwasanaeth cwsmeriaid, cofrestru tir, cyflwyno gwasanaeth electronig a busnes arall.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig gwelliannau o fewn pob un o'r meysydd hyn, rydym ni a'r gweinidogion wedi cytuno ar nifer o amcanion strategol tymor hir, sy'n cael eu cadarnhau bob blwyddyn.

**Gwasanaeth cwsmeriaid**

1 Parhau i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir i bob budd-ddeiliad.

**Cofrestru tir**

2 Cyflwyno deddfwriaeth eilaidd amserol ac effeithiol ar gyfer cofrestru tir.
3 Creu Cofrestr Tir gynhwysfawr ar gyfer Cymru a Lloegr.

**Darparu gwasanaeth electronig**

4 Cyflwyno system trawsgludo electronig ar gyfer cyflawni'r rhan fwyaf o drafodion eiddo.
5 Sicrhau bod modd i bawb gyrchu'r holl ddata cofrestru tir yn electronig.

**Busnes arall**

6 Datblygu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i weithwyr proffesiynol eiddo, y cyhoedd ac eraill.

Bob blwyddyn, byddwn yn cyflawni amcanion 1 a 2 drwy wella ein gwasanaethau yn barhaus a sicrhau bod ein deddfwriaeth yn gyfoes ac yn bodloni anghenion ein budd-ddeiliaid. Ein bwriad yw cyflawni amcan strategol 3 o fewn y degawd nesaf drwy ymroi bob blwyddyn i gofrestru targed heriol o hectarau ychwanegol o dir am y tro cyntaf. Cyflawnir amcanion strategol 4 a 6 yn raddol drwy gyflwyno gwasanaethau newydd a systemau cyflwyno gwasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ystod 2006/7, roedd y dogfennau y cyfeirir atynt yn y cofrestri teitl ar gael yn electronig i'r cyhoedd drwy'r Gofrestr Tir Ar-lein. Mae hyn yn cwblhau ein tasg o gyflawni amcan strategol 5.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu bob blwyddyn ar yr amcanion hyn, mae'r Gofrestrfa Tir yn cael targed perfformiad allweddol ar gyfer pob un o'n meysydd datblygu. Mae'r targedau ar gyfer 2006/7 a'n perfformiad yn eu herbyn i'w gweld yn y tabl ar dudalen 15 o dan yr adran *Meysydd datblygu strategol.*

# Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Yn ogystal â gosod y targedau perfformiad allweddol ar gyfer ein meysydd datblygu, bob blwyddyn bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor yn gosod nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) i'r Gofrestrfa Tir er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i gael gwasanaeth cofrestru tir ardderchog.

Mae cynnydd tuag at wireddu'r DPA hyn yn cael ei fonitro drwy'r flwyddyn gan system rheoli gwybodaeth gadarn, a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad mewn gwahanol fformatau yn rheolaidd.

Mae ein perfformiad yn erbyn y DPA a'r mesurau perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2006/07 i'w gweld yn y tabl canlynol. Fe welwch ein perfformiad yn erbyn DPA y blynyddoedd blaenorol yn Atodiad 1. Fe welwch ein DPA ar gyfer 2007/8 yn Atodiad 4. Mae'r DPA a ddangosir ar y dudalen gyferbyn yn cael eu hesbonio yn Atodiad 5.

# Ein perfformiad yn erbyn ein targedau perfformiad allweddol 2006/7

| | Targed 2006/7 | Cyflawnwyd |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| ***Cyflymder*** | | |
| Canran y ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol a broseswyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | 98 | 98 |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 18 diwrnod gwaith | 80 | 88.6 |
| ***Cywirdeb*** | | |
| Canran y cofrestriadau a broseswyd heb unrhyw gamgymeriadau | 98.5 | 98.8 |
| ***Bodlonrwydd cyffredinol*** [1] | | |
| Canran y cwsmeriaid sydd, at ei gilydd, yn fodlon iawn/bodlon â'r amrywiaeth lawn o wasanaethau a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir | Yn well na 95 | 98.6 |
| **Ariannol** | | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | 3.5 | 23.2 |
| **Effeithlonrwydd**[2] | | |
| Cost yr uned mewn termau arian parod[3] (termau real)[4] | £29.89 (£21.17) | £25.84 (£18.30) |
| **Meysydd datblygu strategol** | | |
| ***Gwasanaeth cwsmeriaid*** | | |
| Cyflwyno mynediad seiliedig ar ddelweddaeth i'r Gofrestr Tir Ar-lein | | Cyflawnwyd - Lleolwr Tir o'r Awyr wedi'i lansio Mehefin 2006 |
| ***Cofrestru tir*** | | |
| Ychwanegu 700,000 hectar pellach o dir i gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | | Cyflawnwyd[5] – 1 Chwefror 2007 – 780,554 ar ddiwedd y flwyddyn |
| ***Darparu gwasanaeth electronig*** | | |
| Cyflwyno prototeip o'r gwasanaeth Cadwyn Matrics i ddarparu tryloywder i gadwyni trawsgludo preswyl | | Cyflawnwyd – prototeip o'r Gadwyn Matrics wedi'i lansio 29 Mawrth 2007 |
| ***Busnes arall*** | | |
| Sefydlu Porth Cofrestrfa Tir fel cam cyntaf i weithredu rhyngwyneb cwsmeriaid integredig sengl ar gyfer holl wybodaeth a gwasanaethau electronig y Gofrestrfa Tir | | Cyflawnwyd – Mynediad Porth wedi'i sefydlu Hydref 2006 |

1 Canlyniad o arolwg bodlonrwydd chwarterol (Bhy Chwarter 4) ac arolwg cwsmeriaid 2006.
2 Y targed blwyddyn derfynol tuag at darged cost yr uned a gytunwyd gan y Trysorlys yw hwn ar gyfer 2006/7 sef £29.89 mewn termau arian parod (£21.17 mewn termau real). Targed wedi'i addasu ar gyfer costau pensiwn diwygiedig.
3 Yn seiliedig ar y datchwyddwr Cynnyrch Domestig Gros (CDG) a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar 21 Mawrth 2007 (blwyddyn sylfaen 1992/3).
4 Cost yr uned mewn termau real yn y flwyddyn sylfaen 1992/3 oedd £30.65.
5 Yn seiliedig ar stentiau teitl (gweler hefyd Nodyn 2 ar y dudalen nesaf).

# Ein perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2006/7

| | Cyflawnwyd 2005/6 | Cyflawnwyd 2006/7 |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| ***Cyflymder*** | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/bodlon â chyflymder gwasanaeth ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol[1] | 99.3 | 99.2 |
| Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/bodlon â chyflymder gwasanaeth cofrestriadau[1] | 98.6 | 98.3 |
| Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu: | | |
| cofrestriadau cyntaf | 11 | 13 |
| prydlesi gwaredol cyntaf | 16 | 20 |
| trosglwyddiadau o ran | 16 | 19 |
| deliadau â'r cyfan | 5 | 6 |
| copïau swyddogol | 3 | 3 |
| chwiliadau swyddogol | 1 | 1 |
| Canran yr ohebiaeth gyffredinol (llythyrau, ffacsys ac e-byst) yr ymatebwyd iddynt cyn pen pum niwrnod gwaith | 97 | 97 |
| ***Cywirdeb***[1] | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/bodlon â chywirdeb cofrestriadau | 97.9 | 98.2 |
| ***Bodlonrwydd cyffredinol***[1] | | |
| Canran y cwsmeriaid sydd, at ei gilydd, yn fodlon iawn â'r amrywiaeth lawn o wasanaethau a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir | 47.1 | 49.8 |
| **Ariannol** | | |
| Canran gostyngiad cronnus mewn ffioedd ers bod yn gronfa fasnachu (1993) | 53.7 | 47.0 |
| **Strategol** | | |
| Nifer y teitlau cofrestredig (miliynau) | 20.513 | 21.079 |
| Canran (arwynebedd) tir rhydd-ddaliad a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr[2] | 54.47 | 59.46 |
| Nifer y cofrestriadau: | | |
| cofrestriadau cyntaf | 309,609 | 304,391 |
| rhyddhadau | 2,502,318 | 2,605,620 |
| morgeisi | 2,627,999 | 2,723,530 |
| trosglwyddiadau am werth | 1,270,867 | 1,480,819 |
| prydlesi | 173,610 | 197,546 |

1 Canlyniadau o'r arolwg bodlonrwydd chwarterol (Bhy Chwarter 4) ac arolwg cwsmeriaid 2006.
2 Yn seiliedig ar fynegeion (gweler hefyd nodyn 5 ar y dudalen flaenorol).

**Gwaith a dderbyniwyd ac a gwblhawyd**
At ei gilydd, cynyddodd y gwaith a dderbyniwyd gan 5.88 y cant o'i gymharu â'r gwaith a dderbyniwyd yn 2005/6.


Derbyniwyd 34,448,431 o geisiadau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i dderbyn 14.691 miliwn o unedau ar gyfer 2006/7, o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn y gyllideb sef 13.084 miliwn.

Mae nifer y ceisiadau am wasanaethau cychwynnol a dderbyniwyd, sef 14,660,341, wedi bod yn arbennig o uchel ac wedi cynyddu 9.4 y cant o'i gymharu â cheisiadau'r flwyddyn flaenorol, sef 13,397,544.


Cwblhawyd 34,432,036 o geisiadau yn ystod y flwyddyn, sy'n 6.8 y cant yn fwy na'r hyn a gyflawnwyd yn 2005/6.

Mae manylion llawn ein llwyth gwaith yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn Atodiad 2.

## Ceisiadau a dderbyniwyd (mewn unedau)




## Gwaith a dderbyniwyd bob dydd yn 1996/7 a 2006/7



**Bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid**
Mae canlyniadau ein harolygon bodlonrwydd cwsmeriaid chwarterol a blynyddol yn dangos bod 98.6 y cant o gwsmeriaid yn fodlon iawn neu'n fodlon at ei gilydd â'r amrywiaeth lawn o'n gwasanaethau, yn erbyn ein DPA sef yn well na 95 y cant.

Rydym yn parhau i roi pwys mawr ar gynyddu lefel y cwsmeriaid bodlon iawn ac yn falch i gofnodi ein bod yn parhau i wneud cynnydd.  Mae ein harolygon cwsmeriaid yn dangos bod 49.8 y cant o gwsmeriaid o'r farn eu bod yn fodlon iawn â'r amrywiaeth lawn o'n gwasanaethau o'i gymharu â 47.1 y cant yn 2005/6.

Roedd yr arolwg cwsmeriaid blynyddol wedi nodi gwelliant mawr o ran bodlonrwydd â'n gwasanaeth Cofrestrfa Tir Uniongyrchol electronig.  Er mwyn gwella profiad cymorth cwsmeriaid y gwasanaeth hwn, gwnaethpwyd rhai newidiadau i brosesau ac i'r is-adeiledd i gyfeirio galwadau am gymorth perthnasol yn awtomatig i'n swyddfa yn Stevenage.  O ganlyniad roedd rhaid i gwsmeriaid aros llai o amser i'w galwadau gael eu hateb ac roedd nifer y galwadau cysylltiedig â chyfrinair a dderbyniwyd gan Ddesg Gwasanaeth System Gwybodaeth wedi lleihau.  Er gwaetha'r cynnydd yn y galwadau, roedd nifer y cwsmeriaid oedd yn fodlon iawn â'r gwasanaeth wedi cynyddu gan 10 pwynt canran i 53 y cant.

Gofynnwn i gwsmeriaid gymharu ni ag eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat y maent yn delio â nhw.  Y flwyddyn hon, dywedodd 33.3 y cant o'n cwsmeriaid ein bod yn llawer gwell na sefydliadau sector preifat.  Mae hyn yn welliant o 0.7 y cant ar ffigur 2005/6 sef 32.6 y cant.  Mae'r ffigur ar gyfer y rhai sy'n barnu bod y Gofrestrfa Tir yn llawer gwell na sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus wedi aros yn uchel, sef 45.3 y cant.

**Effeithlonrwydd**
Roeddem wedi cyrraedd ein targed cost yr uned arian parod, a'r ffigur ar ddiwedd y flwyddyn oedd £25.84 yn erbyn targed o £29.89.

Yr incwm ffioedd am y flwyddyn ariannol oedd £474.5 miliwn yn erbyn ffigur 2005/6 sef £395.4 miliwn. Y cyfanswm gwariant oedd £382.1 miliwn yn erbyn £364.7 miliwn ar gyfer 2005/6.

Roeddem wedi cyrraedd ein targed ar gyfer Enillion ar Gyfalaf Cyfartalog a Ddefnyddiwyd, sef 3.5 y cant gydag alldro o 23.2 y cant.  Talwyd difidend o £16.55 miliwn am y flwyddyn ariannol i'r Gronfa Gyfunol (£14.23 miliwn yn 2005/6).

## Sut mae ein cwsmeriaid yn teimlo ein bod yn cymharu â sefydliadau eraill?

| | Llawer gwell/ gwell 2006 | (2005) | Yr un fath 2006 | (2005) | Gwaeth/ llawer gwaeth 2006 | (2005) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyrff sector preifat | 77.6% | (78.5%) | 20.7% | (20.4%) | 1.7% | (1.0%) |
| Cyrff sector cyhoeddus eraill | 86% | (86.3%) | 13.1% | (13.4%) | 0.8% | (0.1%) |


(Ffynhonnell: Arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir 2005 a 2006)

## Beth yw bodlonrwydd cyffredinol ein cwsmeriaid â'r gwasanaeth a ddarperir gan swyddfeydd lleol y Gofrestrfa Tir a'r Adran Pridiannau Tir?


| | Bodlon iawn/ bodlon 2006 | (2005) | Anfodlon 2006 | (2005) | Anfodlon iawn 2006 | (2005) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddfa leol a ddefnyddir yn fwyaf aml | 98.8% | (99.4%) | 1.1% | (0.5%) | 0.2% | (0.1%) |
| Adran Pridiannau Tir | 99.3% | (99.4%) | 0.5% | (0.6%) | 0.1% | (0.0%) |

(Ffynhonnell: Arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir 2005 a 2006)


## Cost yr uned




## Difidend i'r Gronfa Gyfunol




## Enillion ar Gyfalaf Cyfartalog a Ddefnyddiwyd



## Beth yw barn ein cwsmeriaid am gyflymder gwasanaeth ac ansawdd gohebiaeth?

| Bodlon iawn/ bodlon | | Anfodlon | | Anfodlon iawn | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2006 | (2005) | 2006 | (2005) | 2006 | (2005) |
| 98.5% | (98.8%) | 1.4% | (1.1%) | 0.1% | (0.1%) |

(Ffynhonnell: Arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir 2005 a 2006)

## Bodlonrwydd cwsmeriaid - cyflymder a chywirdeb cofrestriadau

| | Bodlon iawn/ bodlon | | Anfodlon | | Anfodlon iawn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2006 | (2005) | 2006 | (2005) | 2006 | (2005) |
| Cyflymder gwasanaeth ar gyfer deliadau â'r cyfan | 98.7% | (99.6%) | 1.3% | (0.3%) | 0.1% | (0.0%) |
| Cyflymder gwasanaeth ar gyfer teitlau newydd | 95.2% | (97.8%) | 4.5% | (2.1%) | 0.4% | (0.1%) |
| Cywirdeb | 97.9% | (97.8%) | 1.8% | (2.0%) | 0.3% | (0.1%) |

(Ffynhonnell: Arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir 2005 a 2006)

**Cyflymder**
Rydym wedi cyflawni ein DPA, sef prosesu 80 y cant o'r holl gofrestriadau cyn pen 18 diwrnod gwaith, gydag 88.6 y cant wedi'u cwblhau o fewn y targed ac 85.3 y cant wedi'u cwblhau o fewn 15 diwrnod. Yn ystod 2005/6 (pan dderbyniwyd llai o waith), y canlyniadau oedd 89.5 y cant cyn pen 18 diwrnod ac 85.1 y cant cyn pen 15 diwrnod.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cyflwynwyd diwylliant lle mae deliadau â'r cyfan (lle nad oes angen unrhyw ddiwygiad i'r cynllun teitl) yn cael eu prosesu ar 'yr un diwrnod'. Bob dydd, byddwn yn cwblhau mwy na 60 y cant o geisiadau o'r fath ar y diwrnod y cânt eu derbyn. Roedd y rhai nad oedd modd i ni eu cwblhau fel arfer yn aros am gadarnhad gan roddwyr benthyg bod morgais wedi cael ei ryddhau. Hefyd, rydym wedi bod yn estyn y drefn hon i deitlau newydd. Bydd y broses hon yn cael ei chynorthwyo gan ddatblygiad e-drawsgludo.

Dangosodd ganlyniadau ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid fod 98.3 y cant o gwsmeriaid yn fodlon iawn neu'n fodlon â chyflymder gwasanaeth gwaith achos safonol ar gyfer 2006/7, ac roedd 99.2 y cant yn fodlon iawn neu'n fodlon â chyflymder gwasanaeth gwasanaethau cychwynnol.

**Cywirdeb**
Rydym hefyd wedi cyflawni ein DPA ar gyfer cywirdeb gwaith achos. Proseswyd 98.8 y cant o'r holl achosion heb unrhyw gamgymeriadau yn erbyn y targed o 98.5 y cant.

Mae canlyniadau ein harolygon bodlonrwydd cwsmeriaid chwarterol a blynyddol yn dangos bod 98.2 y cant o gwsmeriaid yn fodlon iawn neu'n fodlon â chywirdeb gwaith achos yn 2006/7, o'i gymharu â 97.9 y cant ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Roedd 45.3 y cant o gwsmeriaid yn fodlon iawn â chywirdeb cofrestriadau wedi'u cwblhau, cynnydd o 42.3 y cant ers y flwyddyn ddiwethaf.


**Safonau gwasanaeth**
Cyhoeddir ein targed safonau gwasanaeth, a'n cyraeddiadau yn erbyn y safonau bob blwyddyn yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon yn ogystal â chael eu harddangos yn ein canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr.

Hysbysebir pwyllgorau ymgynghorol ymarferyddion yn rheolaidd hefyd. Mae gwybodaeth am ein perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk ac yn ein cylchgrawn cwsmeriaid *Landnet*.

Mae ein Cynllun Strategol 10 Mlynedd a'n cynlluniau busnes blynyddol yn cynnwys manylion llawn am ein targedau perfformiad allweddol ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan. Mae'r cynlluniau busnes ar-lein hyn yn cael eu diweddaru'n gyson gyda manylion ein perfformiad cyfredol yn erbyn y targedau hyn.

Mae datganiad safonau gwasanaeth y Gofrestrfa Tir wedi'i nodi yn Atodiad 3.

Cywirdeb



# Ein sefydliad

Am y rhan fwyaf o'i hanes bu'r Gofrestrfa Tir yn ymroddedig i'r dasg hanfodol o brosesu cofrestriadau. Ond mae'r oes yn newid. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cofrestru o'r radd flaenaf ond rydym hefyd yn ceisio dyblu nifer y gwasanaethau a gynigiwn erbyn diwedd y degawd nesaf. O ganlyniad byddwn yn ehangu'n fawr y nifer a'r math o gwsmeriaid a wasanaethwn. Bydd rhaid i ni fod hyd yn oed yn fwy rhagweithiol, ystyriol o'r cwsmer ac anelu'n uwch.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dangos ein bod yn symud tuag at y math o sefydliad hyblyg, eang ei orwelion sydd gennym mewn golwg. Mae ein strwythur bwrdd newydd a chreu'r Grŵp Marchnata a Gwerthiannau o 1 Ebrill 2007 yn dyst i'n hymagwedd symlach a modern. Mae ein perfformiad amgylcheddol a'n haelodaeth o Fusnes yn y Gymuned yn dangos ein pryder dros ein heffaith ar y byd ehangach, ac mae ein Huned Ryngwladol yn parhau i gynnig ein harbenigedd i genhedloedd sy'n datblygu.

**Byrddau'r Gofrestrfa Tir**
O fis Ebrill 2006 mae'r Gofrestrfa Tir wedi gweithredu gyda dau fwrdd: Bwrdd y Gofrestrfa Tir, gan gynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol annibynnol, a'r Bwrdd Gweithredol, gyda'r un aelodaeth ond heb gynnwys y cyfarwyddwyr anweithredol. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn gyfrifol am gyfeiriad strategol, llywodraethu da a pherfformiad cyffredinol y Gofrestrfa Tir. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno'r cynllun busnes blynyddol ac yn gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd.

Mae'r byrddau hyn yn cael eu cynorthwyo gan nifer o is-fyrddau, sydd naill ai'n arolygu agweddau penodol ar weithrediadau'r Gofrestrfa Tir neu sy'n darparu sicrwydd. Yn arbennig:

— mae'r Bwrdd Risg Busnes yn sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu nodi a'u rheoli yn y Gofrestrfa Tir
— mae'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni yn berchen ar bortffolio rhaglenni'r Gofrestrfa Tir ar ran Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol ac yn darparu sicrwydd bod prosiectau yn cynnal cynlluniau busnes y Gofrestrfa Tir yn gywir
— mae'r Bwrdd Datblygu Busnes yn asesu hyfywedd masnachol prif fentrau busnes newydd. Mae'n ystyried eu goblygiadau cydymffurfio, ariannol, moesegol a chyfreithiol cyn awdurdodi datblygu pellach
— mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i Fwrdd y Gofrestrfa Tir ar risgiau allweddol a materion rheoli.

Mae siart sefydliadol sy'n dangos strwythur llywodraethu corfforaethol y Gofrestrfa Tir ynghyd â'i phwyllgorau a'u dibenion i'w gweld yn Atodiad 9.

**Archwilio**
Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol (RhAC). Cost y gwaith archwilio ar gyfer 2006/7 oedd £69k (2005/6: £68k). Mae'r gost ar gyfer gwasanaethau archwilio sy'n gysylltiedig â'r archwiliad statudol. Ni chafodd unrhyw wasanaethau eraill eu darparu ac ni wnaed unrhyw waith sicrwydd arall gan y RhAC yn ystod y flwyddyn.

Cyn belled ag y bo'r swyddog cyfrifyddu yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol ohoni. Mae'r swyddog cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau ag y dylai fod wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Gwaith y Pwyllgor Archwilio**
Roedd gweithgareddau'r pwyllgor yn 2006/7 yn cynnwys:

— argymell gwelliannau i weithdrefnau mewnol, megis diogelwch y gweinydd
— adolygu aelodaeth a sefydlu aelodau'r Pwyllgor Archwilio, gan gynnwys hyfforddiant penodol ar eu cyfrifoldebau
— arolygu datblygu rheoli risg yn y Gofrestrfa Tir, trwy'r Bwrdd Risg Busnes
— derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd gan Gadeirydd y Bwrdd Risg Busnes gan dynnu sylw at unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg ac adrodd ar weithgarwch y gofrestr risg strategol
— adroddiadau rheolaidd gan Archwilio Mewnol a meysydd eraill o'r busnes, megis contractau tendr sengl ac iechyd a diogelwch, er mwyn sicrhau bod y prosesau priodol yn cael eu dilyn
— cytuno a monitro cynlluniau ac adroddiadau Archwilio Mewnol a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i weithredu argymhellion Archwilio Mewnol
— cytuno ar strategaeth Archwilio Allanol a'i monitro, archwilio a llythyr rheoli
— paratoi trosolwg o ddarparwyr sicrwydd o fewn y sefydliad i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau i Fwrdd y Gofrestrfa Tir
— cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol a'r datganiad ar reolaeth fewnol ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, ymunodd John Wright, Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth, a David Cleasby, Rheolwr Ardal Swyddfa Portsmouth â'r pwyllgor, gan gymryd lle'r swyddogion gweithredol eraill. Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Archwilio Mewnol a'n harchwilwyr allanol yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor yn rheolaidd.

**Risgiau i'n busnes**
Blaenoriaeth gyntaf y Gofrestrfa Tir bob amser yw delio â'r gwaith y bydd ein cwsmeriaid yn ei anfon atom mor gyflym, gywir ac effeithlon ag y bo modd. Rydym yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan gwsmeriaid, ac mae'n rhaid i ni ymateb i'r gwaith y mae'r marchnadoedd eiddo a morgais yn ei gynhyrchu i ni. Ein profiad yn y blynyddoedd diwethaf yw gweld cynnydd graddol yn y gwaith a dderbyniwn.

Mae hyn yn adlewyrchu lefel y gweithgarwch yn y farchnad dai, ffyniant y farchnad ail-forgeisio, twf parhaus ym maint y Gofrestrfa Tir, a'r cynnydd mawr yn nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio'r wybodaeth ar y gofrestr gan ei bod cymaint yn fwy hygyrch erbyn hyn. Ni allwn ragweld yn fanwl gywir beth fydd yn digwydd yn y marchnadoedd hyn yn y flwyddyn i ddod, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ein hincwm a'n perfformiad, ac felly mae'n rhaid i ni gael cynlluniau lleddfu risgiau cadarn mewn lle i sicrhau bod gallu sefydliadol digonol gennym i ateb gofynion y marchnadoedd hyn ac ar yr un pryd cynnal ein safonau gwasanaeth cwsmeriaid uchel.

Hefyd, rhaid i ni fod yn barod ar gyfer effaith deddfwriaeth newydd ar ein gweithrediadau, megis cyflwyno pecynnau gwybodaeth am eiddo, a dulliau newydd ein hunain megis e-drawsgludo a datblygu gwasanaethau masnachol newydd.

Yn olaf, gyda systemau TG wrth wraidd ein gwasanaeth cwsmeriaid, mae argaeledd a dibynadwyedd systemau o'r fath yn hanfodol i'n busnes. Yn unol â hynny, mae cynlluniau parhad busnes cadarn a chynhwysfawr gennym mewn lle i leddfu'r effaith y byddai eu colli yn ei chael ar ein gweithrediadau, gan gynnwys rhaglen flynyddol o ymarferion sy'n bwriadu profi trefniadau ym mhob swyddfa'r Gofrestrfa Tir.

Mae ein polisi rheoli risg i'w weld yn Atodiad 10.

**Y Pwyllgor Rheolau**
Ailgyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor ar lunio rheolau newydd neu ddiwygiedig o dan y Ddeddf. Mae barnwr o'r Uchel Lys yn cadeirio'r pwyllgor ac mae ei aelodau yn cynnwys y Prif Gofrestrydd Tir, cynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol, rhoddwyr benthyg morgeisi ac arolygwyr tir ynghyd ac unigolyn wedi'i benodi ar sail ei brofiad ym maes materion defnyddwyr. Nid yw'r cadeirydd na'r aelodau yn cael eu talu am eu gwaith ar y pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd fel y bo angen i ystyried rheolau newydd neu ddiwygiedig.

Daeth cyfnod dau o'r aelodau i ben yn ystod y flwyddyn. Ailbenododd yr Arglwydd Brif Ustus farnwr yr Uchel Lys ac ailbenododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor gynrychiolydd materion defnyddwyr.

Yn dilyn cyhoeddi'r papur ymgynghori, e-drawsgludo - Deddfwriaeth eilaidd rhan 1 yn Chwefror 2007, cyfarfu aelodau'r Pwyllgor Rheolau i drafod y system arfaethedig o e-drawsgludo. Er nad yw cyngor a chymorth y Pwyllgor Rheolau yn ofynnol ar gyfer y rheolau drafft sy'n destun ymgynghoriad, cafodd aelodau'r pwyllgor eu cynnwys ymysg y rhai y teimlai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor y byddai'n briodol ymgynghori â nhw.

**Yr Uned Ryngwladol**
Mae'r Uned Ryngwladol yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'n rhwydwaith budd-ddeiliaid dramor, ein bod wedi ein cynrychioli ar fforymau rhyngwladol perthnasol a'n bod yn cyfrannu lle bo'n briodol at nodau strategol ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys darparu arbenigedd y DU i wledydd sy'n datblygu.

Yn ystod 2006/7 rydym wedi darparu cymorth, ymysg prosiectau eraill, i raglen Diogelwch, Cyfiawnder a Thwf Cyngor Prydain yn Nigeria, a noddwyd gan yr Adran Datblygiad Rhyngwladol (ADRh). Yn Rwanda rydym wedi cynorthwyo prosiect a noddwyd gan yr ADRh i helpu gweithredu cyfraith tir newydd ei deddfu ar gyfer cyfraith ac arferion cofrestru tir. Mewn partneriaeth â Chofrestri'r Alban, rydym wedi helpu'r Weriniaeth Slofac gyda phrosiect yr Undeb Ewropeaidd i wella effeithlonrwydd ei gwasanaethau cofrestru tir.

Hefyd rydym wedi:

- cynnal ein cysylltiadau cryf â Chomisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Gweithgor Ewrop ar Weinyddu Tir.  Mae ein Dirprwy Brif Weithredwr yn ein cynrychioli ar Fiwrô'r Gweithgor. Rhoddwyd arbenigedd cyfreithiol ar gyfer adolygiad gweinyddu tir cynhwysfawr yn Azerbaijan dan nawdd y Gweithgor
- parhau i fod yn aelodau gweithgar o Gymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop
- mynychu Fforwm Arweinyddiaeth Busnes IBM yn Rhufain i drafod dulliau newydd a'r sialensiau sy'n wynebu busnesau yn yr 21ain ganrif
- cymryd rhan mewn cyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Parhaol ar Stentiau ac Ewrograffeg yn Fienna, seminar rhyngwladol ar drosglwyddiadau eiddo real yng Nghyfraith Ewrop ym Madrid, Cyngres XXIII Ffederasiwn Rhyngwladol yr Arolygwyr Tir ym Munich a chyfarfod Cymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop ym Mrwsel.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr a groesawyd o dramor, gan ddarparu rhaglenni astudio pwrpasol i fodloni eu meysydd diddordeb arbennig, megis gwasanaeth cwsmeriaid neu e-drawsgludo.  Mae ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle i ni rannu profiad ac arbenigedd, a meithrin perthynas â chydweithwyr dramor sy'n gweithio yn yr un maes.

Y flwyddyn hon, rydym wedi croesawu ymweliadau astudio gan ein cymheiriaid a sefydliadau eraill ym Mwlgaria, Croatia, Ghana, Indonesia, Jamaica, Macedonia, Mongolia, Nigeria, Gwlad Pwyl, Ffederasiwn Rwsia, Sawdi Arabia, yr Alban, Sierra Leone, Singapore, De Korea a Gwlad Thai.

## Jon Llewellyn, Yr Uned Ryngwladol

Mae gweithio i Uned Ryngwladol y Gofrestrfa Tir yn golygu eich bod yn cael eich herio'n gyson i gyflwyno diwygiadau arwyddocaol ar lefel genedlaethol.  Yn 2006 bues yn gweithio yn Rwanda ar y Rhaglen Diwygio Tir Genedlaethol - fy nghenhadaeth oedd paratoi system cofrestru teitl gynhwysfawr a fyddai'n addas i'r wlad gyfan o dan Gyfraith Tir Organig Rwanda oedd newydd ei deddfu.

Es i ati i greu deddf cofrestru teitl gynhwysfawr a oedd yn ceisio gwarchod hawliau tir dinasyddion a hybu cyfle economaidd a thwf yn Rwanda.  Yna bues yn helpu'r llywodraeth i baratoi dogfen gais wedi'i chostio i'w chyflwyno i'r Cyfleuster Hinsawdd Buddsoddi ar gyfer Affrica oedd newydd ei ffurfio i gefnogi ei strategaeth diwygio busnes genedlaethol. Roedd y cais yn llwyddiannus, gan ddarparu cyllid ar gyfer cryfhau gweinyddu tir a datblygu busnes yn y wlad.

Rwy'n gobeithio y bydd y Gofrestrfa Tir yn dychwelyd i Rwanda i barhau i annog a chynorthwyo datblygiad ei system gweinyddu tir newydd a helpu i warchod hawliau eiddo dinasyddion cyffredin.



Jon Llewellyn

## Andrew Smith, Yr Uned Ryngwladol

Bu'r Gofrestrfa Tir yn gweithio yn Nigeria ers 2004 mewn cydweithrediad â rhaglen Diogelwch, Cyfiawnder a Thwf Cyngor Prydain.  Fy ngwaith i yw gweithredu ein strategaeth datblygu gweinyddu tir genedlaethol, ei haddasu i amgylchiadau sy'n newid a sicrhau bod cyfleoedd newydd am gynnydd yn cael eu hadnabod.

Mae dwy rôl gen i mewn gwirionedd - mae'r cyntaf yn un wleidyddol sy'n golygu ceisio cydsyniad a chymorth lefel uchel ar gyfer gwelliant parhaus, hybu deialog ar draws ffiniau llywodraethol traddodiadol a mentora uwch swyddogion y llywodraeth o ran meithrin gallu sefydliadol. Mae'r ail rôl yn un cymorth technegol clasurol, defnyddio fy sgiliau cofrestru tir yn uniongyrchol.

Mae llawer i'w wneud eto, ond rwy'n ffyddiog y bydd Nigeria yn datblygu system cofrestru tir a allai yn y pen draw fod yn esiampl i wledydd eraill sy'n datblygu yn Affrica.

**Cyfrifoldeb corfforaethol**
Cyfrifoldeb corfforaethol yw'r ymrwymiad parhaus gan fusnesau megis y Gofrestrfa Tir i ymddwyn yn foesegol a chyfrannu at ddatblygu economaidd ac ar yr un pryd gwella ansawdd bywyd y gweithlu a'u teuluoedd, yn ogystal â'r gymuned leol a chymdeithas yn gyffredinol.

Y flwyddyn hon, rydym wedi dechrau cymryd camau i fireinio ein hymrwymiad. Ymunon ni â Busnes yn y Gymuned, sy'n cynnwys mwy na 700 o brif gwmnïau'r DU sy'n ymroddedig i wella eu heffaith gadarnhaol ar gymdeithas.

Mae trafodaethau helaeth â Busnes yn y Gymuned wedi arwain at baratoi ein cynllun gweithredu ein hunain. Rydym yn edrych ymlaen at y dyfodol a chyflawni ein cyfrifoldeb corfforaethol a rhwymedigaethau datblygu cynaliadwy gan achub ar bob cyfle i greu manteision busnes mesuradwy er mwyn cael ein cydnabod fel sefydliad sy'n wirioneddol gyfrannu at y cymunedau ehangach y mae'n eu gwasanaethu.

Dyfarnwyd y Nod Siarter am y pumed tro yn olynol yn 2004. Yn ystod asesiad interim yn 2005 roedd aseswyr annibynnol wedi ystyried tystiolaeth o welliant parhaus sy'n dangos bod ein gwasanaeth yn parhau i fodloni safon y Nod Siarter, yn arbennig o ran amrywiaeth a'n gwaith gyda chymunedau lleol.

Mae ein cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy yn ein hymrwymo i'r defnydd cyfrifol o adnoddau cyfyngedig, gwarchod a gwella'r amgylchedd, cynhwysiant cymdeithasol a thwf economaidd-gymdeithasol.

Bwriadwn fesur ein llwyddiant yn erbyn pump prif egwyddor adroddiad y Llywodraeth *Diogelu'r Dyfodol.*
— Byw o fewn terfynau amgylcheddol.
— Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn a chymunedau cynaliadwy.
— Creu economi gynaliadwy.
— Hybu llywodraethu da.
— Defnyddio gwyddoniaeth ddiogel mewn modd cyfrifol.
Bydd ein hymrwymiadau yn cael effaith ar bopeth o systemau rheoli'r amgylchedd a chaffael cynaliadwy i godi arian a gwirfoddoli.

Rydym yn gweithio tuag at leihau gollyngiadau carbon deuocsid gan 12.5 y cant erbyn Mawrth 2011. Yn yr un modd, rydym yn parhau i wneud cynnydd da i wella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau gan 15 y cant erbyn 2010. Mae'r ddau yn dargedau'r llywodraeth ganolog sy'n ymwneud â chynaladwyedd. Fe'u hasesir drwy fesur y defnydd o drydan a nwy yn erbyn nifer y metrau sgwâr.

## Lleihau carbon
Roedd staff yn swyddfa Abertawe wedi derbyn 10 llwyn gwyrdd yn wobr ar gyfer ymgyrch lwyddiannus i leihau'r defnydd o ynni. Roedd Abertawe wedi cofrestru gostyngiad o 28 y cant yn yr ynni a ddefnyddir, y ganran uchaf o bob swyddfa'r Gofrestrfa Tir, yn ystod wythnos ymgyrch effeithlonrwydd ym mis Rhagfyr 2006.

Roedd diffodd offer megis monitorau, argraffwyr a llungopiwyr i gyd wedi cyfrannu at fuddugoliaeth werdd y swyddfa.

Mae ôl-troed carbon Abertawe hefyd wedi cael ei leihau drwy osod technoleg optimeiddio foltedd ym mhob un o swyddfeydd y Gofrestrfa Tir. Mae cymhariaeth flynyddol wedi dangos gostyngiad

yn yr ynni a ddefnyddir bob mis o 12,000 kWh.

Yn ystod yr ymgyrch effeithlonrwydd dros y Nadolig roedd y swyddfa wedi arbed 3,000 kWh pellach.

"Mae'r gostyngiad o 1.5 tunnell mewn gollyngiadau carbon mewn un mis o ganlyniad i'n camau arbed ynni yn cyfateb yn fras i'r gollyngiadau a gynhyrchir gan gar teulu cyffredin am flwyddyn," meddai'r Rheolwr Adeiladau Bill Moore.

"Mae ynni sylweddol wedi cael ei arbed gan un swyddfa, a gan ein bod wedi gosod optimeiddio foltedd ym mhob un o'n swyddfeydd, rydym wedi arbed tua £200,000 hyd yma," dywedodd Martin Illingworth, Rheolwr Ynni a'r Amgylchedd y Gofrestrfa Tir.

"Mae arbed arian yn rhywbeth y mae pob rheolwr swyddfa yn awyddus i'w wneud, ac mae'r neges yn syml - mae gofyn i staff ddiffodd peiriannu ar ddiwedd y dydd yn gallu lleihau biliau ynni yn fawr."




Hayley Rees, Melanie Rees a Clare Leonard o Swyddfa Abertawe yn derbyn eu gwobr

## Gwella effeithlonrwydd ynni yn ein swyddfeydd

| | Blwyddyn sylfaen 2002/3 | Y flwyddyn hon 2006/7 | O'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen |
|---|---|---|---|
| Nwy (kWh y metr sgwâr) | 143.15 | 95.21 | -33% |
| Trydan (kWh y metr sgwâr) | 127.48 | 88.37 | -31% |
| Gwelliant mewn gollyngiadau $CO_2$ o'r defnydd o ynni | | | -10% |

**Bwrdd Rheoli Asedau Eiddo**
Drwy Swyddfa Masnach y Llywodraeth (SMLI), mae'r Trysorlys wedi codi proffil rheoli eiddo tiriog ar gyfer pob adran, asiantaeth a chyrff hyd braich y llywodraeth.

Roedd Prif Swyddog Cyfleusterau ac Ystadau a Phennaeth Ystadau'r Gofrestrfa Tir wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil a wnaed gan SMLI ac wedi hynny y grŵp llywio gweithredu.

Mae Map Llwybr Eiddo Perfformiad Uchel i Ragoriaeth Rheoli Asedau, a gafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2006, yn darparu'r fframwaith a'r cyfeiriad ar gyfer gwella cynllunio asedau eiddo strategol yn y llywodraeth ganolog dros gyfnod diffiniedig. Mae'r prif weithredoedd a'r hyn a gyflawnir wedi'u hanelu at sicrhau effeithlonrwydd.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn y sefyllfa orau i fodloni gofynion y map llwybr ac, mewn sawl maes, mae eisoes yn cyflawni'r gofynion a'r nodau a amlygir gan y map llwybr. Un o argymhellion y fenter oedd creu Bwrdd Rheoli Asedau Eiddo (BRhAE) o fewn sefydliadau'r llywodraeth. Yn dilyn sêl bendith y Bwrdd Gweithredol, y Gofrestrfa Tir oedd un o'r asiantaethau cyntaf i gyflwyno BRhAE.

**Rheoli contractau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn dibynnu fwyfwy ar nifer o brif gyflenwyr i ymgymryd â'i gweithrediadau a swyddogaethau busnes yn llwyddiannus. Mae rheoli contractau rhagweithiol yn hanfodol dros dymor pob contract i gael gwerth llawn a throsglwyddo risg priodol. Hefyd, mae'n caniatáu i ddeiliad y gyllideb ddangos prawf archwiliadwy o lywodraethu'r contract.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998 a'r Cod Arferion Talu Gwell. Yn ystod y flwyddyn talwyd 98.9 y cant o anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod (neu delerau cytunedig y contract os pennir fel arall). Nid yw'r ganran hon yn cynnwys anfonebau dadleuol.

Mae strategaeth wedi cael ei chymeradwyo sy'n nodi'n glir y gweithgarwch rheoli contractau o fewn y Gofrestrfa Tir dros y tair i bum mlynedd nesaf.

Mae rheolwr contractau sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r berthynas honno a'i chyfeiriad strategol mewn modd rhagweithiol wedi cael ei adnabod ar gyfer cyflenwyr categori 1 y Gofrestrfa Tir. Pennwyd y dosbarthiad hwn drwy ddadansoddiad manwl o'n cyflenwyr hanfodol. Mae'n nodi cyflenwr nwyddau neu wasanaethau i'r Gofrestrfa Tir lle y byddai colli neu fethu â darparu unrhyw faen prawf neu effaith gyfunol sawl maen prawf yn atal y sefydliad rhag cwrdd â'i DPA neu fesurau perfformiad ehangach y llywodraeth.

Mae cofrestri risgiau, rhestrau gwirio a chynlluniau gwella gwasanaeth wedi cael eu datblygu ar gyfer y cyflenwyr hyn, ynghyd ag adroddiadau hysbysrwydd cyflenwyr a marchnata a chyflwyno offeryn meddalwedd rheoli contractau.

Mae adnabod, lleihau a rheoli risgiau, mesur perfformiad, cyfathrebu, meithrin perthynas, gwybodaeth, hysbysrwydd ac ychwanegiadau gwerth i gyd yn allweddol i'r rôl newydd hon a bydd yn helpu'r Gofrestrfa Tir i sicrhau arferion gorau ym maes rheoli contractau a pherthnasoedd.

**Partneriaeth â'r Arolwg Ordnans**
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi trafod cytundeb gwasanaethau arolygu tir tair blynedd newydd gyda'r cyflenwr mapiau yr Arolwg Ordnans.

Y Gofrestrfa Tir yw cwsmer unigol mwyaf yr Arolwg Ordnans.

Mae'r cytundeb newydd hwn yn:
— cynnwys newidiadau o fewn y gwasanaeth i greu effeithlonrwydd a sicrhau bod data mapiau yn cael eu cyflenwi o fewn amserlenni gwell
— darparu ar gyfer hyfforddiant parhaus arolygwyr tir y Gofrestrfa Tir ym maes technoleg newydd
— gosod pris yr arolygon tir sy'n cael eu cyflawni ar gyfer y Gofrestrfa Tir, a'r gwasanaeth darparu data, am y tair blynedd nesaf
— sicrhau perthynas fwy rhagweithiol rhwng y ddau sefydliad.

# Ein gwasanaethau

Mae gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir yn cynyddu o ran math a nifer, ac yn cwmpasu darpariaeth statudol ac anstatudol. Rhagwelwn y bydd nifer y gwasanaethau a ddarparwn yn dyblu erbyn 2014. Maent yn cynnwys ein prosesau traddodiadol ar gyfer gwasanaethau cofrestru, er y cânt eu defnyddio llai wrth i e-drawsgludo arwain at ddefnyddio mwy o brosesau electronig a datblygu ystod o e-wasanaethau newydd. Mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn ymwneud â datblygu e-drawsgludo ac mae eraill yn cael eu llunio a'u datblygu.

Rydym yn parhau i seilio ein darpariaeth gwasanaeth ar ein strwythur o swyddfeydd lleol ledled Cymru a Lloegr ond byddwn yn datblygu ffyrdd o weithio sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer. Rydym yn hybu ac yn cyflwyno ein gwasanaethau drwy amryw o sianeli - ein swyddfeydd, ein gwefannau, ein cyhoeddiadau a'n digwyddiadau. Mae mwy a mwy o staff yn codi o'u desgiau i werthu, marchnata a rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau. Ond dydyn ni byth yn anghofio mai cofrestru tir yw ein gwasanaeth craidd, nac yn tanbrisio ein sgiliau a'n gwybodaeth unigryw yn y maes hwn.

Ar gyfer 2007/8, rydym yn paratoi ein hunain i ddelio â mwy o waith nag yn 2006/7. Os yw'r gwaith a dderbynnir yn eithriadol o uchel, byddwn yn estyn ein gallu gweithredol trwy oramser a drwy symud adnoddau o dasgau llai hanfodol o ran amser. Mae'r gwaith y buom yn ymdrin ag ef wedi ein harwain at recriwtio 200 o aelodau i gymryd lle rhai o'r staff a gollwyd drwy wastraff naturiol, a byddwn yn ystyried recriwtio staff pellach os yw'r amodau marchnad yn cyfiawnhau hynny. Ond os yw'r gwaith a dderbynnir yn arafu, byddwn yn ymateb drwy newid cyfeiriad ein hadnoddau at waith sy'n llai sensitif o ran amser, ond sy'n bwysig serch hynny, megis annog cofrestru gwirfoddol a gwella ansawdd ein data ymhellach.

# Ein gwasanaethau

**Datblygu'r gofrestr**
Mae creu cofrestr tir gynhwysfawr yng Nghymru a Lloegr yn hollbwysig i'r Gofrestrfa Tir. Bydd yn golygu bod y diogelwch cyfreithiol gorau posibl gan bob tirfeddiannwr cofrestredig ac yn gwneud prynu a gwerthu eiddo yn haws i bawb.

Ar hyn o bryd mae 40 y cant o'r arwynebedd tir yng Nghymru a Lloegr heb ei gofrestru oherwydd nid yw nifer o gartrefi ac ystadau, er enghraifft, wedi cael eu gwerthu, eu morgeisio neu eu hail-forgeisio ers cyflwyno cofrestru gorfodol yn eu hardal. Mae timau datblygu'r gofrestr y Gofrestrfa Tir, sy'n gweithio ym mhob un o'n swyddfeydd lleol, wedi wynebu'r her o annog tirfeddianwyr digofrestredig i gofrestru'n wirfoddol.

Roedd gwybodaeth leol a chysylltiadau'r timau, ymgyrch farchnata a CC yn hybu manteision cofrestru, a chynnig disgownt o 25 y cant ar gyfer cofrestru gwirfoddol i gyd wedi ein helpu i gyrraedd ein targed ar gyfer 2006/7 sef cofrestru 700,000 hectar arall o dir, sy'n cyfateb yn fras i 5 y cant o Gymru a Lloegr. Rydym wedi cydweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar benderfyniadau tirfeddianwyr, megis cyfreithwyr, arolygwyr tir siartredig a phriswyr.

Ymhlith rhai o'r cofrestriadau newydd roedd eiddo ystadau proffil uchel, tirfeddianwyr ac asiantaethau'r llywodraeth. Roedd eraill, megis Eglwys Gadeiriol Durham (yn y llun), Abaty Valle Crucis (yn y llun) ac Amffitheatr Caerleon, yn adeiladau hanesyddol y bydd eu cadwraeth yn cael eu gwella drwy ddiogelwch cofrestru.

Mae ein hymgyrch yn y cyfryngau yn golygu y bu rheolwyr datblygu'r gofrestr yn siarad yn uniongyrchol â gohebwyr papurau newydd, teledu a radio, am y tro cyntaf erioed yn aml. Mae hyfforddiant yn y cyfryngau wedi eu helpu i baratoi ar gyfer y profiad. Maen nhw wedi cynnal un cyfweliad ar ôl y llall ar brydiau, gan newid cyfrwng drwy gydol y dydd.

Rheolwr Datblygu'r Gofrestr Harry Charlton (ar y chwith) gyda Jon Williams, asiant tir ar gyfer Eglwys Gadeiriol Durham



Rheolwyr Datblygu'r Gofrestr Gerald Dyer (ar y dde) a Kevin Barry (ar y chwith) gyda Rheolwr y Prosiect Rob Morgan (yn y canol) yn Abaty Valle Crucis



## Andy Pikesley, Rheolwr Datblygu'r Gofrestr, Swyddfa Durham (Boldon)

Yn BBC Radio Cumbria eisteddais wrth ddesg wrth ochr y cyflwynydd Gordon Swindlehurst a oedd wedi gofyn i mi wisgo'r clustffonau. Doedd dim cyfle i drafod y cyfweliad oherwydd roedd Gordon eisoes yn darlledu'n fyw.

Roedd ein datganiad i'r wasg o'i flaen a dechreuodd drwy ofyn cwestiynau am waith y Gofrestrfa Tir a'r ymgyrch yn Cumbria. Roedd y cyfan yn eithaf cyflym a chyffrous, ac ar ôl 90 eiliad roedd y cyfan drosodd.

Yn y *Cumberland News*, papur newydd poblogaidd ymysg y gymuned ffermio, daeth y golygydd ffermio Anna Burdett i gwrdd â mi. Roedd y cyfweliad yma'n llawer hwy, 10 munud efallai, gydag Anna yn ysgrifennu nodiadau llaw-fer ac yn rhoi cyfle i mi gyfleu fy neges, gan gynnwys ystadegau am dir digofrestredig yn Cumbria, teitl wedi'i warantu gan y wladwriaeth a gwell ddiogelwch yn erbyn sgwatwyr.

Erbyn i mi gwrdd â chriw Border TV ar lannau Llyn Windermere, roeddwn i'n fwy profiadol. Cyrhaeddon ni'n hwyr felly roedd yn fater o yrru 'na, tacluso'r tei a mynd o flaen y camera. Llwyddon ni i wneud y cyfweliad mewn un cynnig - a'r peth gorau oedd nad oeddwn i wedi troi at fy mrîff o gwbl.



**Prydlesi cymalau penodedig**
Ym mis Mehefin 2006 cyflwynwyd prydlesi cymalau penodedig. Mae'n rhaid i gyfres safonol o gymalau ymddangos erbyn hyn ar ddechrau rhai prydlesi cofrestradwy.

Cafodd cwsmeriaid eu hannog i roi adborth i ni ar y cymalau yn ystod cyfnod o ddefnydd gwirfoddol o 9 Ionawr i 19 Mehefin, pan wnaethpwyd y cymalau'n orfodol.

Roedd ymgyrch gyhoeddusrwydd ac addysg helaeth a llinell gymorth arbennig wedi darparu gwybodaeth a chymorth i gwsmeriaid. Penodwyd hyrwyddwyr ym mhob swyddfa'r Gofrestrfa Tir a dilynodd staff penodol raglen hyfforddi gynhwysfawr er mwyn gallu cynorthwyo gydag ymholiadau.

Roedd pecyn gweithredu yn cynnwys nodiadau canllaw, yn ogystal â chyflwyno Cyfarwyddyd Ymarfer 64, yn canolbwyntio'n benodol ar y pwnc, wedi cyfrannu at weithrediad llwyddiannus y system newydd.

**Cadwyn Matrics™**
Cafodd prototeip o wasanaeth Cadwyn Matrics y Gofrestrfa Tir ei lansio'n llwyddiannus i gwsmeriaid ar 29 Mawrth, gan gyflawni'r dangosydd perfformiad allweddol e-drawsgludo ar gyfer 2006/7.

Mae e-drawsgludo yn un o'n prosiectau mwyaf uchelgeisiol hyd yma ac mae lansio'r prototeip yn gam cyffrous yn y broses.

Mae'r Gadwyn Matrics yn wasanaeth ar-lein sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol eiddo a'r rhai sy'n prynu ac yn gwerthu cartrefi olrhain cynnydd eu cadwyni eiddo ar sgrin. Bydd mynediad gan tua 900 o ddefnyddwyr posibl i'r prototeip, a disgwylir i'r nifer gynyddu yn ystod y cyfnod peilot chwe mis sy'n gorffen ar 29 Medi 2007.

Mae'r defnyddwyr yn cynnwys cyfreithwyr a gwerthwyr tai a oedd, ynghyd â staff cymorth, wedi cwblhau eu hyfforddiant Cadwyn Matrics ar 22 Mawrth 2007, wrth i dîm o hyfforddwyr y Gofrestrfa Tir ymweld â'r tair ardal brawf, sef Portsmouth, Fareham a Bryste.

Bydd y tîm e-drawsgludo yn canolbwyntio ar gefnogi cwsmeriaid a chasglu adborth ar brofiad cyffredinol cwsmeriaid o'r Gadwyn Matrics.

Mae'r broses werthuso ffurfiol yn cynnwys adroddiad interim hanner ffordd drwy gyfnod y prototeip ac adroddiad terfynol ar ddiwedd yr ymarfer.  Bydd y ddau yn darparu adborth gwerthfawr ar gyfer cynllunio gwasanaethau at y dyfodol.

## Helen Reynolds, Swyddog Gweithredol Busnes Newydd y Gadwyn Matrics

Bu diddordeb gen i erioed yn rhaglen e-drawsgludo'r Gofrestrfa Tir ac ymunais i â Thîm Busnes Newydd y Gadwyn Matrics yng Ngorffennaf 2006.

Dechreuodd fy rôl gyda hyfforddiant gwerthu a marchnata dwys ac ehangu fy ngwybodaeth o e-drawsgludo a'r Gadwyn Matrics.  Drwy ddefnyddio fy hyfforddiant a theilwra fy null gweithio yn ôl anghenion cwsmeriaid unigol, a'u gwybodaeth bresennol o'r cynnyrch, llwyddais i gael llawer i gymryd rhan yn y prototeip o'r Gadwyn Matrics, a oedd yn hynod o werth chweil.



Teimlais fy mod wedi cyfrannu at lwyddiant y Gofrestrfa Tir pan oedd e-drawsgludo wedi cwrdd â'i dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer y Gadwyn Matrics ym mis Mawrth.  Erbyn hyn, rwy'n edrych ymlaen at gynorthwyo cwsmeriaid drwy gyfnod y prototeip a chael eu hadborth er mwyn sicrhau bod e-drawsgludo yn cael ei ddatblygu'n llwyddiannus yn y dyfodol.

Chain Matrix™

**Gwasanaethau masnachol**
Mae gan y Gofrestrfa Tir stôr unigryw o sgiliau a data y mae ystod gynyddol o gwsmeriaid yn barod i dalu amdanynt.  Sefydlwyd Tîm Gwasanaethau Masnachol i ateb yr anghenion busnes hynny.

Mae'r tîm sy'n tyfu yn gweithio ym Mhenbedw, Coventry a Llundain ac ar ddiwedd Mawrth 2007 roedd 32 aelod o'r tîm.  Mae'r gwerthiannau a gynhyrchir ganddynt wedi cynyddu o £0.6 miliwn yn y 12 mis i Fawrth 2006 i £1.8 miliwn yn yr un cyfnod hyd at Fawrth 2007.

Mae tri phrif faes busnes masnachol:
— gwasanaethau data (gan gynnwys gwybodaeth prisiau eiddo)
— gwasanaethau ymgynghori a chyngor
— datblygu cofrestri cysylltiedig ag eiddo ar ran sefydliadau eraill.

Un o'r gwasanaethau newydd yw Gwarchod Eiddo, lle mae'r Gofrestrfa Tir yn codi tâl am fonitro perchnogaeth eiddo arbennig neu bortffolio o eiddo.  Mae'n apelio at ddatblygwyr sy'n cynllunio prif brosiectau adeiladu, awdurdodau lleol, cwmnïau morgeisi, gwerthwyr tai ac eraill.

Mae datblygu gwasanaethau masnachol yn cynnig sawl mantais i gwsmeriaid ac i'r Gofrestrfa Tir. Mae'r manteision i ni yn cynnwys y gallu i ddefnyddio'r elw i gyllido anghenion buddsoddi yn y dyfodol a gwella ansawdd gwasanaeth yn ogystal â datblygu sgiliau newydd ein staff.  O ran ein cwsmeriaid, mae'r Gofrestrfa Tir yn defnyddio ei sgiliau a'i hadnoddau i gynnig budd i'r gymuned ehangach.

## Paul Heywood, Rheolwr Cyfrif, Swyddfa Coventry

Ces i gyfle i ymuno â'r Tîm Gwasanaethau Masnachol ym mis Rhagfyr 2005.

Roedd y swydd yn apelio ata i oherwydd ei bod yn rhoi cyfle i mi werthfawrogi marchnadoedd masnachol ehangach.  Rwy'n gallu mynd allan i weld cwsmeriaid yn rheolaidd a chael gwybod beth maen nhw'n ei wneud a sut mae hyn yn ymwneud â'n busnes ni.

I ddechrau roeddem yn ymateb i geisiadau cwsmeriaid ad hoc ond erbyn hyn mae tîm ymchwil marchnata gennym sy'n mynd i'r sectorau marchnad amrywiol i ystyried ceisiadau penodol a chael gwybod sut maen nhw'n defnyddio ein data.  Yna mae'r tîm yn casglu gwybodaeth i weld pa gynhyrchion y gallwn eu datblygu.

Mae amrywiaeth o gleientiaid gennym sy'n gweithredu mewn sectorau marchnad gwahanol.  Mae Gwarchod Eiddo a Chyfateb Data, er enghraifft, yn boblogaidd gyda gwerthwyr tai a chwmnïau rheoli credyd.

Mantais gwasanaethau masnachol i ni yma yn y Gofrestrfa Tir yw eu bod yn darparu refeniw ychwanegol a hefyd yn bodloni anghenion cwsmeriaid mewn ffordd fwy hyblyg.



**Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol**

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972. Mae'r adran yn cadw cofrestri o bridiannau tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir.

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II Deddf Credydau Amaethyddol 1928.  Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill.

Cyfanswm cyfunedig y ceisiadau a gafodd eu trin gan yr Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol y flwyddyn hon oedd 5,222,236, sy'n cynrychioli cynnydd o 0.7 y cant o'i gymharu â'r cyfanswm ar gyfer 2005/6. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i gynnydd yn nifer y ceisiadau cofrestru methdaliad a dderbyniwyd.

Cynyddodd gyfran y ceisiadau am chwiliadau a chopïau swyddogol a dderbyniwyd dros y ffôn, mynediad uniongyrchol a'r ffacs i 83 y cant o gyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd y flwyddyn hon, o'i gymharu â 76 y cant yn 2005/6, gydag 84 y cant o geisiadau am gopïau swyddogol yn cael eu cyflwyno fel hyn. Erbyn hyn mae chwe deg dau y cant o chwiliadau pridiannau tir yn cael eu prosesu trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol. Gostyngodd ganran y chwiliadau ffôn a gwblhawyd fel cyfran o gyfanswm y ceisiadau am chwiliadau i 20 y cant o'i gymharu â 30 y cant y flwyddyn flaenorol.

## Yr Adran Credydau Amaethyddol

| **Blwyddyn** | **Cofrestriadau newydd** | **Dileadau a chywiriadau** | **Chwiliadau** |
|---|---|---|---|
| 2004/5 | 1,134 | 1,118 | 3,779 |
| 2005/6 | 1,021 | 928 | 3,769 |
| 2006/7 | 1,250 | 860 | 4,356 |

## Yr Adran Pridiannau Tir

| **Math o gais** | **Nifer yr enwau** | **% yr amrywiad o'i gymharu â 2005/6** |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 175,750 | 15.7 |
| Dileadau | 30,120 | -6.2 |
| Chwiliadau swyddogol<br>1 Chwiliadau llawn | 706,483 | -5.1 |
| 2 Chwiliadau wedi'u cyfyngu i fethdaliad | 4,214,705 | 1.3 |
| Cyfanswm chwiliadau | 4,921,188 | 0.3 |
| Copïau swyddogol | 88,712 | -3.3 |
| Cyfanswm | 5,215,770 | 0.7 |

# Ein cwsmeriaid

**Mae sylfaen cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir yn ehangu wrth i wasanaethau newydd gael eu cyflwyno i farchnad ehangach. Mae ein cwsmeriaid craidd yn parhau yr un fath, sef cyfreithwyr, trawsgludwyr a rhoddwyr benthyg sy'n defnyddio ein gwasanaethau cofrestru yn gyson. Mae busnesau a sefydliadau masnachol eraill yn cael eu denu drwy ddatblygiad e-drawsgludo a'n gwasanaethau masnachol newydd, tra bo nifer cynyddol o'r cyhoedd yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'r Gofrestrfa Tir drwy ein gwefannau a'n hymgyrchoedd.**

Rydym yn newid y ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid drwy ddatblygu dull segmentu sy'n cynnig modd i ni ateb eu hanghenion yn well. Drwy wneud hynny, rydym yn adeiladu ar hanes o wasanaeth cwsmeriaid y gallwn ymfalchïo ynddo. Mae ein harolwg cwsmeriaid 2006 yn dweud wrthym fod bron 99 y cant o'n cwsmeriaid yn fodlon â'r Gofrestrfa Tir, ac mae ein harchwiliwr cwynion, yr Adolygydd Cwynion Annibynnol, wedi canmol ein hymateb rhagweithiol i bryderon cwsmeriaid.

Wrth i ni ddatblygu gwasanaethau newydd rydym hefyd wedi datblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu â'n cwsmeriaid. Mae grwpiau ffocws a pholau piniwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am eu hymatebion i'r hyn a gynigiwn a'r hyn y bwriadwn ei gynnig.

Mae pob ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol y bydd y Gofrestrfa Tir yn ei gynnal yn dilyn y meini prawf a nodir yn *Cod Ymarfer ar Ymgynghori* Swyddfa'r Cabinet.

Cynigiwn hyfforddiant i gwsmeriaid drwy seminarau yn ein swyddfeydd lleol a thrwy'r Cymhwyster mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir. Yn gynnar yn 2006 roedd ein tîm datblygu'r gofrestr wedi cynnal rhaglen o ymweliadau â digwyddiadau cefn gwlad rhanbarthol i hybu cofrestru gwirfoddol. Ac, ym mis Mai 2006, yn y BBC Good Homes Show yn Birmingham, aethpwyd â'n neges yn uniongyrchol i drawstoriad eang o'r cyhoedd.

## Ymddiriedolaeth Archeolegol Norfolk

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Norfolk yn berchen ar Dref Rufeinig Caistor St Edmund, ardal 48 hectar o dir agored ychydig i'r de o Norwich. Y gred yw ei bod yn dref farchnad Icenaidd o oes y Frenhines Boudicca, a gellir ei holrhain yn ôl i'r Oes Haearn. Mae'n un o dim ond tair prifddinas ranbarthol Rufeinig yn Lloegr sydd heb gael ei hadeiladu drosti.

Mae Julia Daber o Cozens Hardy & Jewson, y cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran Ymddiriedolaeth Archeolegol Norfolk, yn cynghori ei holl gleientiaid i gofrestru eu tir.

"Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhedeg ymgyrch ar hyn o bryd i annog pobl a sefydliadau i nodi a chofrestru'r hyn y maen nhw'n berchen arno," dywedodd. "Roedd y Gofrestrfa Tir yn gymorth mawr gyda'r broses gofrestru. Cefais gymorth unigol gyda'm cais ac roedd y tîm cofrestru wrth law i gynnig arweiniad pan oedd ei angen arna i.

"Roedd y broses yn syml a didrafferth. Rwyf wedi argymell cofrestru tir i'm cysylltiadau oherwydd y gwasanaeth arbennig a gefais.

"Mae perchnogaeth tir yn cael ei gwarantu gan y wladwriaeth, gan gydgyfnerthu gwybodaeth gyfreithiol gymhleth a helpu ei ddiogelu rhag tresbasu. Yn achos Tref Rufeinig Caistor mae ei ffiniau wedi'u diogelu erbyn hyn i genedlaethau'r dyfodol."



Caistor St Edmund

**Segmentu cwsmeriaid**

Rydym wedi cynnal paneli defnyddwyr cenedlaethol ers sawl blwyddyn bellach ond rydym bob amser wedi cymysgu ystod eang o gwsmeriaid. Y nod oedd cadarnhau ein barn am ein perfformiad a gwasanaethau ac, ar yr un pryd, 'treialu' ein syniadau newydd ar draws ein sylfaen cwsmeriaid a chael adborth gwerthfawr cyn eu rhyddhau.

Yr un fu'r nod y flwyddyn hon ond rydym wedi dechrau segmentu cwsmeriaid, fel bod cwsmeriaid tebyg, o'r un meddwl yn dod ynghyd ac yn gallu rhoi barn llawer mwy canolbwyntiedig i ni. Bu'r fenter hon yn ddefnyddiol ac yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae gan grwpiau o roddwyr benthyg, cwmnïau trawsgludo mawr a chyfreithwyr ar y stryd fawr farn a diddordebau gwahanol a bu modd i ni geisio'r barnau hynny ac ymateb iddynt yn well.

Bwriadwn ddatblygu hyn ymhellach yn 2007 drwy symud i ddulliau mwy ansoddol o ymchwil cwsmeriaid - symud i ffwrdd o'n harolwg blynyddol un maint i bawb. Mae'r cyfan yn rhan o'n hymgyrch i fod yn fwy ymatebol i'r hyn y mae angen i ni ei ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid.

**Gwybodaeth agored a llawn**

Mae ystod gynhwysfawr o wybodaeth ymarferol am ein gwasanaethau a gweithdrefnau ar gael ym mhob un o'n canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid. Mae cyhoeddiadau a ffurflenni cofrestru tir ar gael i'w llwytho i lawr yn rhad ac am ddim o'n gwefan (www.cofrestrfatir.gov.uk), a hefyd

pob un o'r ffurflenni swyddogol y mae eu hangen i gyflwyno ceisiadau cofrestru tir. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen wedi'i neilltuo i ateb cwestiynau cyffredin.

Yn ystod 2006, roedd y Gofrestrfa Tir wedi derbyn 78 cais ysgrifenedig am wybodaeth a gafodd eu gwneud o dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Hygyrchedd a hybu dewis**
Daw'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid o'r proffesiwn cyfreithiol neu sefydliadau ariannol, er y byddwn hefyd yn derbyn ceisiadau ac ymholiadau gan amryw o gyrff eraill ac yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Cydnabyddwn fod ein cwsmeriaid yn cynnwys pawb sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith.

Gall cwsmeriaid gysylltu â ni yn bersonol, dros y ffôn, drwy'r ffacs, e-bost a'r post. Gall cwsmeriaid proffesiynol sydd â chyfrifon credyd ddefnyddio ein gwasanaethau electronig trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a thrwy'r Gwasanaethau Ffôn, sy'n darparu dull cyflym, cyfleus a syml o wneud cais am nifer o'n gwasanaethau. Mae Gwasanaethau Ffôn Cymru yn arbenigo mewn enwau lleoedd Cymraeg ac yn cynnig llais Cymraeg.

Gall y cyhoedd gael ein gwybodaeth yn electronig trwy ddefnyddio'r Gofrestr Tir Ar-lein. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig modd i unrhyw un sydd â mynediad i'r rhyngrwyd edrych ar gopïau ac argraffu copïau o gofnodion cofrestri a thalu gyda cherdyn credyd. Mae'n darparu mynediad i unrhyw weithred y cyfeirir ati ar y gofrestr yn ogystal â'r gofrestr a'r cynllun teitl.

Mae pob Canolfan Gwybodaeth Cwsmeriaid yn cael ei harchwilio i asesu ei hygyrchedd a mynediad i'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae staff yn y canolfannau hyn yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon i gwsmeriaid anabl neu'r rhai sydd ag anghenion arbennig. Rydym yn cadw rhestr o aelodau staff sy'n gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain gyda chwsmeriaid. Darparwn gyfleuster ffôn testun ar rif rhadffôn a chroesawn alwadau trwy Typetalk. Gwasanaethau i gwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw yw'r rhain.

Gallwn ddarparu dogfennau a chyfarwyddyd mewn amryw o fformatau gan gynnwys, ar gais, Braille, print bras a chasét sain. Mae hyn yn bosib trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyllid a Thollau EM. Mae rheolwyr gwasanaeth cwsmeriaid ym mhob un o'n swyddfeydd wedi cael pecyn gwybodaeth sy'n cynnwys canllawiau ymarferol ar anghenion cwsmeriaid anabl.

Defnyddiwn ein holiadur adborth cwsmeriaid, *Gwerthfawrogwn eich sylwadau*, i asesu'r galw am wybodaeth mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. Rydym hefyd yn cadw cronfa ddata o staff sy'n gallu siarad ieithoedd eraill i helpu cwsmeriaid sydd ag anghenion iaith arbennig. Gallwn ddarparu taflenni gwybodaeth ar ein trefn gwyno ac am yr wybodaeth sydd gennym a sut i'w chael mewn Tsieinëeg, Gwjarati, Hindi, Pwnjabeg ac Wrdw ac ieithoedd eraill ar gais.

**Gwasanaeth Cymraeg**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a bydd yn gohebu fel y bo'n briodol. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i lythyrau a dderbynnir yn Gymraeg ac yn cwrdd â'r un targedau cyflymder gwasanaeth ar gyfer gohebiaeth. Mae gohebiaeth drwy'r ffacs neu ddulliau electronig yn cael ei thrin yn yr un modd. Mae ein gwefan yn ddwyieithog, a gellir cyrchu'r safle Cymraeg drwy www.cofrestrfatir.gov.uk.

Cynigiwn wasanaeth Cymraeg dros y ffôn ac mewn rhai canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid a gwasanaeth ffôn. Ein nod yw darparu'r un safon gwasanaeth o ansawdd uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae templed pob cofrestr sy'n cael ei chynhyrchu yn Swyddfa Cymru yn cael ei argraffu'n ddwyieithog. Mae pob pennawd a gwybodaeth safonol ar gofrestri teitl yng Nghymru yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cofnodion unigol yn ymddangos yn iaith y ddogfen wreiddiol y maent wedi'u seilio arni.

I gael mwy o wybodaeth am y gwasanaethau Cymraeg a ddarparwn cysylltwch â:

Cydlynydd yr Iaith Gymraeg
Cofrestrfa Tir
Swyddfa Cymru
Tŷ Cwm Tawe
Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe SA7 9FQ

**Unioni pethau**
Gwerthfawrogwn y gall camgymeriadau fod yn ddiflas, ond weithiau gall pethau mynd o'i le ac mae'n bosibl na fyddwn yn cael pethau'n iawn y tro cyntaf. Os yw pobl yn teimlo bod achos ganddynt i gwyno hoffem glywed oddi wrthynt a darparwn amryw o ddulliau i'w gwneud hi mor hawdd â phosibl i chi gysylltu â ni. Mae ein gwefan yn cynnig modd i gwsmeriaid gwyno ar-lein ac mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt i'w gwneud hi'n hawdd i bobl gwyno yn bersonol, dros y ffôn neu drwy lythyr (gan gynnwys ffacs ac e-bost). Hefyd mae rhif rhadffôn i gwsmeriaid sydd am ffonio Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir.

Mae cwynion yn agwedd bwysig ar adborth cwsmeriaid oherwydd gallant nodi bylchau neu ddiffygion yn y gwasanaeth ac arwain at welliannau. Mae cwsmeriaid yn cael gwybod am y gwelliannau a wneir mewn ymateb i gwynion naill ai'n uniongyrchol neu drwy ein cylchlythyr cwsmeriaid, Landnet. Mae gwybodaeth am welliannau hefyd yn cael ei chyhoeddi yn yr adroddiad byr ar ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid blynyddol.

Yn 2006/7, derbyniwyd 2,589 o gwynion (4 y cant yn fwy nag yn 2005/6), ac o'r rhain ymatebwyd i 88 y cant o fewn ein targed o bum niwrnod (o'i gymharu â 91 y cant yn 2005/6).

**Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol**
Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA), Ms Jodi Berg, yn cynnal ymchwiliadau amhleidiol i gwynion gan gwsmeriaid sy'n anfodlon â'r gwasanaeth a gawsant gan y Gofrestrfa Tir ac sydd heb gael eu bodloni gan ein trefn gwyno fewnol.

## Sut mae ein cwsmeriaid yn teimlo ein bod yn ymateb i gwynion?

| Agwedd ar y gwasanaeth | Bodlon iawn/ bodlon 2006 | (2005) | Anfodlon 2006 | (2005) | Anfodlon iawn 2006 | (2005) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflymder ymateb | 92.8% | (96.2%) | 6.3% | (3.1%) | 0.8% | (0.6%) |
| Cwrteisi a chymwynasgarwch | 96.8% | (98.2%) | 2.3% | (1.5%) | 1.0% | (0.3%) |
| Rhoi gwybodaeth i chi | 91.1% | (95.3%) | 8.3% | (4.0%) | 0.7% | (0.7%) |
| Ansawdd ymchwilio | 90.8% | (95.4%) | 8.0% | (3.4%) | 1.1% | (1.2%) |
| Canlyniad | 88.6% | (94.6%) | 8.5% | (3.5%) | 2.9% | (1.8%) |
| Gwasanaeth cyffredinol | 93.2% | (96.4%) | 5.3% | (2.7%) | 1.4% | (0.9%) |

(Ffynhonnell: Arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir 2005 a 2006)

Mae nifer yr achosion sy'n arwain at ymchwiliadau ffurfiol gan yr ACA yn parhau ar lefel isel ac, o'r ychydig gwynion hynny sy'n cael eu hymchwilio, dim ond dyrnaid sydd wedi cael eu cymeradwyo.

Mae'r feirniadaeth adeiladol yn y cwynion hyn yn cael eu hystyried ac mae Tîm Gwerthuso ac Astudio'r ACA yn gweithredu ar hyn, tîm a sefydlwyd yn benodol i ystyried argymhellion yr ACA. Mae gwybodaeth am ei gyfarfodydd a'r camau a gymerwyd ar benderfyniadau'r ACA ar gael i holl staff y Gofrestrfa Tir eu gweld ar ein mewnrwyd.

Mae manylion pellach i'w gweld yn adroddiad blynyddol yr ACA sydd ar gael o swyddfa'r ACA yn New Premier House, 150 Southampton Row, Llundain WC1B 5AL (ffôn 020 7278 6251), neu ar-lein yn www.icrev.org.uk

Dim ond un ymateb ffurfiol gafodd ei roi yn ystod y flwyddyn, sef ymateb ffurfiol byr y Gofrestrfa Tir i adroddiad blynyddol yr ACA, yn cymeradwyo'r adroddiad hwnnw, a oedd yn canmol y Gofrestrfa Tir am ei hymateb rhagweithiol i gwynion.

**Y Gronfa Indemniad**
Yn 2006/7, talwyd £5,253,416.51 ar gyfer 873 o geisiadau o'i gymharu â £14,116,042.17 yn 2005/6 ar gyfer 997 o geisiadau.

Roedd y taliad mwyaf am gyfanswm o £550,000 (gan gynnwys costau), a oedd wedi deillio o gofrestru trosglwyddiad o dir. Cywirwyd y gofrestr drwy orchymyn y llys i adfer perchennog yr eiddo a gafodd ei dwyllo. Roedd y perchennog a adferwyd a'r perchennog y

cywirwyd y gofrestr yn ei erbyn wedi hawlio indemniad am golledion yn codi o gofrestru'r trosglwyddiad a chywiro'r gofrestr. Roedd hawliadau ganddynt hefyd yn erbyn y cyfreithwyr oedd wedi gweithredu ar y trafodiad. Cafodd yr hawliadau eu setlo ar gam cyfryngu, gyda'r Gofrestrfa Tir ac yswirwyr y cyfreithwyr yn talu hanner yr iawndal a gytunwyd (cyfanswm o £1.1 miliwn).

Adenillwyd £654,715.36 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £178,809 y flwyddyn ddiwethaf.

**Adolygu rheolau**
Rydym wedi cwblhau adolygiad mewnol o'r Rheolau Cofrestru Tir 2003 a ddaeth i rym yn Hydref 2003. Bwriadwn gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn 2007/8 i gadarnhau bod ein canfyddiadau yn unol â chanfyddiadau ein cwsmeriaid.

**Gwella ein cynnyrch ar gyfer ein cwsmeriaid**
Mae'n amlwg bod cwsmeriaid o'r farn bod ansawdd cynnyrch y Gofrestrfa Tir yn dda, fel y dangosir gan adborth yr arolwg cwsmeriaid a'n cyfraddau cywirdeb da. Rydym bob amser yn awyddus i weithredu mesurau ychwanegol i wella ansawdd y data sydd gennym yn barhaus, wrth i'r Gofrestrfa Tir symud ymlaen, nid yn unig gyda phrosesau cofrestru, ond hefyd gyda gwasanaethau masnachol newydd.

Cynhaliwyd Adolygiad Ansawdd Cynnyrch yn ystod 2006 gan ddefnyddio swm mawr o ddata a gasglwyd o amryw o ffynonellau. Mae cynllun gweithredu o'r adolygiad yn tynnu sylw at ble y gallwn fuddsoddi yn ein

## Hawliadau indemniad ar gyfer 2006/7

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled sylweddol | Costau | Canran y cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Stent teitlau cofrestredig | 331 | £1,207,312.23 | £652,088.67 | 35.39 |
| Camgymeriadau/ hepgoriadau o gofnodion cofrestri | 152 | £530,203.50 | £143,185.43 | 12.82 |
| Camgymeriadau mewn cynlluniau amrywiol | 45 | £172,246.99 | £58,758.08 | 4.40 |
| Twyll a ffugio | 24 | £2,001,137.11 | £122,359.23 | 40.42 |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 16 | £52,454.99 | £62,653.89 | 2.19 |
| Camgymeriadau methdaliad | 0 | £0 | £0 | 0 |
| Chwiliadau swyddogol | 8 | £4,280.36 | £5,033.89 | 0.18 |
| Copïau swyddogol | 9 | £110.00 | £1,230.72 | 0.03 |
| Camgymeriadau mewn chwiliadau o'r map mynegai | 19 | £3,392.42 | £15,152.53 | 0.35 |
| Camgymeriadau mewn darnau ffeil | 18 | £1,062.00 | £8,125.95 | 0.17 |
| Dogfennau a gollwyd/ camgymeriadau gweinyddol | 249 | £113,781.73 | £98,040.29 | 4.03 |
| Camgymeriadau Pridiannau Tir | 2 | £806.50 | £0 | 0.02 |
| Cyfanswm | 873 | £4,086,787.83 | £1,166,628.68 | 100 |
| Taliad gros | | | £5,253,416.51 | |
| Llai'r symiau a adenillwyd dan hawliau digolledu statudol y Gofrestrfa Tir | | | £654,715.36 | |
| Indemniad net | | | £4,598,701.15 | |

systemau cyfredol a hefyd datblygu rhai newydd i helpu gwella a chynnal ansawdd. Mae archwilio ac ailddiffinio prosesau a dulliau cyfathrebu hefyd yn helpu i wella ansawdd y cynnyrch terfynol i'n cwsmeriaid.

Mae nifer o'r camau yn y cynllun yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu pobl y Gofrestrfa Tir megis gweithdai i arweinwyr tîm, hyrwyddwyr mapio arolygu tir, cynllunio ar gyfer pontio o lwybrau hyfforddi, hyfforddiant ar wybodaeth ddaearyddol ac ati. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod bod modd gwella ansawdd dim ond yn nwylo'r rhai sy'n gwneud y gwaith, ac felly gallant wneud rhywbeth amdano.

Bydd y Gofrestrfa Tir yn gallu defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r mentrau niferus hyn i asesu'r gwelliannau a wnaed mewn ansawdd, ac ar yr un pryd cynnal ein safonau gwasanaeth cwsmeriaid uchel iawn a rhagori ar ein DPA.

## Monica Skelton, Arweinydd Tîm, Swyddfa Durham (Boldon)

Fel arweinydd tîm rwy'n gyfrifol am ddatblygu aelodau tîm ac ansawdd ein cynnyrch, yn ogystal â chyflawni ein DPA. I'r diben hwn yn ystod 2006/7 rwyf wedi gwella'r broses archwilio o fewn fy nhîm mewn meysydd fel gohebu â chwsmeriaid, ansawdd gwaith achos a chyflymder gwasanaeth.

Rwy'n gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygu fy staff a fi fy hun. Bydd cynyddu ein galluoedd a'n hyder yn eu tro yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gwaith a gynhyrchiwn.

Yn ddiweddar rwyf wedi neilltuo 'cyfaill' uwch i bob aelod tîm, sydd wedi gwella'r wybodaeth dechnegol o fewn fy nhîm.

Mynychais weithdai i arweinwyr tîm lle buom yn dyfeisio model a oedd yn amlygu'r nodweddion (ymagweddau ac ymddygiad) y mae eu hangen ar arweinydd i lwyddo. Cynhaliwyd rhai ymarferion datrys problemau hefyd. Rwyf wedi trosglwyddo'r arferion gorau i'm tîm - ac mae'r cyfan yn gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n cwsmeriaid.



**Addysgu a hyfforddi ein cwsmeriaid**
Mae Grŵp Addysg a Hyfforddiant (GAH) y Gofrestrfa Tir wedi parhau i gydweithio â swyddfeydd lleol i gynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb rhad ac am ddim i gwsmeriaid ledled Cymru a Lloegr ar bynciau cofrestru tir allweddol. Bwriad y digwyddiadau hyfforddi generig hyn yw lleihau nifer yr ymholiadau y mae angen i gwsmeriaid eu gwneud yn eu gwaith bob dydd a'u helpu i gyflwyno ceisiadau sy'n gywir y tro cyntaf.

Mae'r GAH hefyd wedi creu a chyflwyno hyfforddiant cwsmeriaid ar gyfer defnyddwyr prototeip y Gadwyn Matrics e-drawsgludo i roi'r hyder iddynt yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio a'u helpu i gynnwys y nifer mwyaf posibl o drafodion ar y system. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol.

Mae'r GAH hefyd wedi adolygu a gwella ei arferion gwaith er mwyn paratoi ar gyfer sialensiau'r dyfodol. Mae'r grŵp wedi caffael offer meddalwedd ychwanegol i hwyluso paratoi a chyflwyno hyfforddiant cwsmeriaid ar-lein mewn modd effeithlon a chost-effeithiol. Crëwyd y daith ar-lein o'r Gadwyn Matrics drwy ddefnyddio'r meddalwedd hwn ac mae modd ei gweld ar dudalennu addysg a hyfforddiant gwefan y Gofrestrfa Tir.

Drwy gydweithio'n agos â thîm achredu Cymdeithas y Gyfraith, mae'r GAH wedi creu pecyn

hyfforddi ar-lein cyntaf y Gofrestrfa Tir i gwsmeriaid ar hawddfreintiau ac wedi derbyn achrediad gan Gymdeithas y Gyfraith ar gyfer ei ddeunydd dysgu o bell yn ogystal â'i weithgaredd wyneb yn wyneb. Hefyd, mae wedi'i awdurdodi i ddarparu hyfforddiant wedi'i achredu gan Gyngor y Bar, Sefydliad Swyddogion Gweithredol Cyfreithiol a Chyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig.

Drwy weithio â chynrychiolwyr cwsmeriaid, mae'r GAH wedi cael gwybodaeth werthfawr am anghenion hyfforddi penodol grwpiau cwsmeriaid amrywiol megis cyfreithwyr dan hyfforddiant, trawsgludwyr cyfrol a chyfreithwyr teulu, yn ogystal â'r rhai sy'n gwneud gweithgareddau penodol megis gwerthu a/neu brynu tai mewn datblygiadau newydd.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae'r GAH wedi adeiladu elfennau cyntaf portffolio o ddeunyddiau hyfforddi wyneb yn wyneb ac ar-lein ychwanegol i ateb anghenion amrywiaeth o grwpiau o gwsmeriaid. Bydd y deunyddiau neu'r digwyddiadau hyn yn cael eu cynnig cyn bo hir i gwsmeriaid yn ogystal â'r rhaglen am ddim bresennol naill ai am gost gystadleuol, fel estyniad o weithgareddau arferol y Gofrestrfa Tir, neu'n ddi-dâl, fel estyniad o'r digwyddiadau am ddim sy'n cynnig budd i bawb.

## Linda Chamberlain, Pennaeth y Grŵp Addysg a Hyfforddiant

Drwy gydweithio â grŵp ffocws sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r 30 o ddarparwyr cyrsiau arferion cyfreithiol dros y 18 mis diwethaf, mae'r GAH wedi datblygu pecyn hyfforddi ar-lein i'w ddefnyddio fel rhan o'r cwrs arferion cyfreithiol yn ystod y flwyddyn academaidd 2007/8.

Mae'r pecyn hwn yn cynnig cyfle i fyfyrwyr weithio yn eu hamser eu hunain drwy sawl modiwl sy'n esbonio sut mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu, sut i ddehongli cofnodion ar y gofrestr, sut mae cynlluniau teitl yn cael eu creu, eu defnyddio a'u dehongli a sut mae modd defnyddio adnoddau gwefan y Gofrestrfa Tir a gwasanaethau cofrestru tir ar-lein yn effeithiol. Bydd yn cymryd tua chwe awr i fyfyrwyr gwblhau'r deunyddiau. Maen nhw wedi'u llunio a'u creu'n benodol at ddefnydd y darparwyr, felly dylai fod modd eu hintegreiddio i'r deunyddiau cwrs ehangach.

Y nod yw rhoi sylfaen gadarn i fyfyrwyr mewn arferion cofrestru tir sylfaenol ac ymwybyddiaeth o sut i weithio'n effeithiol gyda'r Gofrestrfa Tir o'r dechrau. Dylai hyn hwyluso dealltwriaeth fwy cyson o weithdrefnau sylfaenol y Gofrestrfa Tir ymysg y rhai sy'n dechrau gweithio i gwmnïau'r gyfraith a darparu llwyfan i'r GAH i greu deunyddiau yn y dyfodol sy'n adeiladu ar wybodaeth ymarferyddion newydd wrth i'w harbenigedd ddatblygu.

Mae'r prosiect hwn wedi cynnig modd i'r GAH a darparwyr cyrsiau arferion cyfreithiol werthfawrogi'r profiad cofrestru tir unigryw a gwerthfawr sydd gan y Gofrestrfa Tir y mae modd ei rannu er budd y ddwy ochr, yn ogystal â'r canllawiau technegol y mae'r Gofrestrfa Tir eisoes yn eu cyhoeddi. Mae hefyd yn dangos y gallai'r GAH gydweithio ag eraill i gyflwyno deunyddiau pwrpasol o fewn amser penodol ac am bris fforddiadwy.



# Ein pobl

Mae gweithlu'r Gofrestrfa Tir gyda thua 8,600 aelodau staff yn fwyfwy amrywiol ac wedi'i seilio ar graidd o weithwyr â gwasanaeth hir. Mae ein hanes hir yn golygu bod traddodiadau gennym sy'n uno'r sefydliad tra bo'r strwythur swyddfa yn caniatáu i hunaniaethau lleol ffynnu. Mae oriau gwaith hyblyg, arferion AD arloesol ac amrywiaeth gynyddol o rolau i gyd yn gwneud ein sefydliad yn ddewis deniadol i staff presennol a staff newydd.

Mae hyfforddiant a datblygiad yn brif flaenoriaethau, gyda rhaglen sgiliau TG gynhwysfawr, cyrsiau fel y Cymhwyster mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir a chynlluniau datblygu fel Rhaglen Datblygu Arweinwyr y Dyfodol. Mae cyrff allanol hefyd wedi cydnabod ein cymorth i staff sy'n ennill cymwysterau arbenigol. Roedd Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig wedi dyfarnu statws Cyflogwr Cymeradwy Platinwm ar gyfer Datblygu Hyfforddeion i'r Gofrestrfa Tir.

Mae ein hymgyrchoedd iechyd ar draws y sefydliad yn dangos ein bod yn pryderu am lawer mwy na gwneud y gwaith. Ac rydym bob amser yn ceisio gwella cyfathrebu ym mhob cyfeiriad, drwy ymweliadau gan gyfarwyddwyr, cylchlythyron, DVD a'r rhyngrwyd, er mwyn i staff ddeall pam bod penderfyniadau'n cael eu gwneud.

**Amrywiaeth a chyfle cyfartal**
Ym mis Rhagfyr 2006 cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ac erbyn hyn rydym yn gweithio gyda'n Grŵp Ffocws Lesbiaid, Hoywon, Deuryw a Thrawsrywiol (LHDTh) i gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Mae hyn yn cwmpasu pob llinyn o amrywiaeth ac yn rhagori ar ein dyletswydd statudol i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol erbyn 30 Ebrill 2007.

Mae gwaith yn parhau i sefydlu Grŵp Ffocws Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ogystal â'n grwpiau ffocws anabledd a LHDTh.

Ar ôl ymuno â Rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall a gwneud cais am Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall i feincnodi ein perfformiad, mae'r adborth yn dangos ein bod wedi creu gwelliant cyffredinol yn ein perfformiad o 14 y cant ers y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ein hymateb swyddogol cyntaf i Gynllun 10 Pwynt y Gwasanaeth Sifil ar amrywiaeth wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar ac rydym yn parhau i fonitro ein cynnydd i gyrraedd pob targed.

Mae Cynllun 10 Pwynt y Gofrestrfa Tir yn amlinellu ein hymrwymid mewn 10 maes allweddol sy'n ceisio sicrhau newid diwylliannol eang a dwfn ar draws y Gwasanaeth Sifil. Datblygwyd y cynllun yn dilyn adolygiad o gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth yn y Gwasanaeth Sifil gan y Prif Ymgynghorydd Amrywiaeth i'r Gwasanaeth Sifil. Nod y cynllun yw gwella cyflwyno gwasanaethau i bawb yn y gymdeithas drwy gael gweithlu Gwasanaeth Sifil gwirioneddol amrywiol ar bob lefel, gan gynnwys ein gweithwyr uwch.

Ar hyn o bryd rydym yn ceisio cwblhau ein hail Safon Anabledd a gomisiynwyd gan Fforwm y Cyflogwyr ar Anabledd. Bydd yn ein meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill a'n perfformiad ein hunain o 2005.

Mae ein datganiad recriwtio i'w weld yn Atodiad 6.


**Darpariaeth gofal plant**
Roedd Barwnes Ashton o Upholland, gweinidog y Gofrestrfa Tir yn yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar y pryd, wedi agor meithrinfa Swyddfa Caerlŷr ym mis Hydref 2006. I ddathlu'r digwyddiad roedd y gweinidog wedi dadorchuddio plac a chwrdd â'r plant ar ei thaith o gwmpas y swyddfa.

"Mae gofal plant addas o fudd mawr i rieni sydd angen cydbwyso eu bywydau gwaith a'u hymrwymiadau teulu," dywedodd y Farwnes Ashton. "Mae'n llwybr hanfodol i ffyniant economaidd teulu, gan gynnig modd i rieni weithio, dilyn gyrfa, dysgu neu hyfforddi, a gwybod bod eu plant yn cael gofal mewn amgylch diogel ac ysgogol."

Mae adolygiad o ddarpariaeth gofal plant y Gofrestrfa Tir wedi'i gwblhau a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal. Bydd y polisi newydd yn cael ei weithredu erbyn Ebrill 2008.

**Cymhwyster mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir**
Mae'r Cymhwyster mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir yn cael ei gynnig mewn partneriaeth â Choleg y Gyfraith ac erbyn hyn mae'n gwrs datblygu gyrfa sefydledig i staff y Gofrestrfa Tir a myfyrwyr allanol.

## Niferoedd staff ers 1997 (cyfwerth ag amser llawn)



Mae dwy lefel i'r cymhwyster: y dystysgrif, sy'n gwrs sylfaen un flwyddyn ar lefel Safon Uwch, a'r diploma lefel gradd, sy'n gwrs dwy flynedd ac yn cynnig ystyriaeth gynhwysfawr a manwl o'r gyfraith eiddo, gan gynnwys y gyfraith ac arferion cofrestru tir.

Fe ddechreuodd ym mis Medi 2000, ac roedd y seithfed sesiwn gofrestru flynyddol yn 2006 wedi cynnwys myfyrwyr allanol o sefydliadau yn amrywio o gyfreithwyr i awdurdodau lleol. Yn 2006 roedd cyfanswm y nifer a gofrestrodd ar y ddau gwrs yn fwy na 2,500 ac mae nifer y myfyrwyr allanol sy'n cofrestru yn parhau i gynyddu'n flynyddol.

Yn 2006 roedd 175 o fyfyrwyr mewnol wedi cofrestru ar lefel y dystysgrif a 75 o fyfyrwyr allanol. Mae cyfanswm o 155 o fyfyrwyr mewnol wedi cofrestru ar y cwrs diploma dwy flynedd a 51 o fyfyrwyr allanol.

## Rose Braithwaite, Prif Swyddfa

"Fe wnes i'r cymhwyster oherwydd roeddwn i eisiau gwybod mwy am sut beth yw bywyd gwaith bob dydd gweithiwr achos. Mae gweithio mewn grŵp arbenigol fel Cyllid yn golygu nad ydych yn gweld llawer o waith y Gofrestrfa Tir rydych yn ei gefnogi. Mae'n ffordd wych o gwrdd â phobl ac roeddwn i wedi mwynhau'r gwaith, er ei fod yn anodd i mi gael hyd i'r amser. Roedd y gwaith ymchwil a darllen yn ddiddorol iawn."

## Sally Turner, Swyddfa Telford

"Nid yw mor galed ag y byddai rhai pobl yn ei feddwl o ran amser. Mae'r Gofrestrfa Tir yn eithaf hael gydag absenoldeb astudio. Mae'n haws os ydych yn astudio rhywbeth rydych yn ei wneud o ddydd i ddydd. Mae'n rhoi hyder i chi yn yr hyn rydych yn ei wneud. Rwyf wedi cofrestru ar gwrs gradd pedair blynedd yn y gyfraith nawr, ac mae'r Gofrestrfa Tir yn ariannu 50 y cant o gostau'r cwrs."

## Julie Wright, Swyddfa Durham (Boldon)

"Mae dilyn y diploma wedi bod yn wych i mi. Bu'n waith caled ond rwyf wirioneddol wedi ei fwynhau. Heb y cwrs hwn fyddai ddim llawer o syniad gyda fi am y gwaith nad wyf yn ymwneud ag ef. Rwy'n delio ag ymholiadau cyffredinol ac mae fy astudiaethau wedi gwneud fy ngwaith cymaint yn haws. Galla i wneud fy swydd gyda llawer mwy o hyder nawr. Roedd yn her dda."

## Sheila Bryan, Rheolwr Tîm yn y Ganolfan Gwasanaeth Morgeisi

"Doedd dim cymwysterau cyfreithiol gan y rhan fwyaf ohonom felly y teimlad oedd ei fod yn briodol i ni fel cwrs sylfaen. Pan fyddwn yn cofrestru arwystl rhaid i ni wybod beth yw logisteg y peth.

"Mae'r cwrs 'ma wedi rhoi gwybodaeth fanwl i ni o'r hyn y mae ei angen i gyflwyno ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid."



## Christine Bissett o adran y gyfraith Cyngor Bwrdeistref Test Valley - dilynodd y cwrs diploma ar ôl dychwelyd i weithio yn y gyfraith wedi cael saib hir o'r gwaith.

"Roeddwn i braidd yn rhydlyd â dweud y lleiaf. Doeddwn i ddim yn gwneud gwaith trawsgludo pan ddaeth Deddf 2002 i rym felly roedd rhaid i mi ailddysgu popeth roeddwn i erioed yn ei wybod. Roedd y cwrs yn hollol berthnasol i'r gwaith rwy'n ei wneud. Roeddwn i wedi delio â thir cofrestredig o'r blaen ond roedd pethau wedi newid. Dyna lle roedd y cwrs mor ddefnyddiol i mi."

**TechRICS**
Mae saith aelod staff wedi llwyddo yn yr Asesiad o Gymhwysedd Technegol y flwyddyn hon a chael eu derbyn fel aelodau technegol o Sefydliad Brenhinol yr Arolygwyr Tir Siartredig (TechRICS). Roedd pump wedi dilyn NVQ Rheoli Data Gofodol lefel 4 ac roedd dau yn wirfoddolwyr gan ddefnyddio cyfuniad o'r diploma LRQ, profiad blaenorol a hyfforddiant strwythuredig. Bydd 20 pellach sy'n astudio'r NVQ yn dilyn eu hôl troed erbyn mis Rhagfyr 2007.

Yr ymgeiswyr blwyddyn gyntaf a'u haseswyr oedd wedi arwain y ffordd ac mae'r cwrs wedi datblygu i'w fformat presennol yn seiliedig ar eu hymdrechion a'u penderfyniad.

Mae RICS wedi diweddaru'r llwybrau i aelodaeth dechnegol hefyd gyda system bwyntiau newydd. Mae'r diploma LRQ yn cael ei gydnabod bellach fel cyrhaeddiad arwyddocaol tuag at y cyfanswm pwyntiau sydd ei angen. Gall staff sydd hefyd yn dangos cymwyseddau mapio ddilyn hyfforddiant strwythuredig 12 mis i ennill y pwyntiau sy'n weddill.

**Datblygu ein harweinwyr a'n rheolwyr**
Arweinwyr y Dyfodol yw rhaglen fewnol y Gofrestrfa Tir ar gyfer meithrin potensial staff drwy gymysgedd o aseiniadau, secondiadau a hyfforddiant.

Mae dau brif linyn – y Modiwl Carlam Lleol seiliedig yn y swyddfa leol sy'n para flwyddyn (MCLl) a'r Modiwl Carlam Canolog a drefnir yn ganolog sy'n para tair blynedd (MCC).

Mae nifer o gyfranogwyr wedi llwyddo'n bersonol ac yn broffesiynol drwy gymryd rhan. Her allweddol i gyfranogwyr y MCC yw llunio a chyflwyno fforymau arweinyddiaeth ddwywaith y flwyddyn, sy'n archwilio materion busnes 'go iawn' i'r Gofrestrfa Tir yn ogystal ag ystyried theori ac arferion arweinyddiaeth.

Ym Medi 2007 bydd y cyfranogwyr gwreiddiol yn cychwyn ar drydedd flwyddyn a blwyddyn olaf eu MCC. Dros y gylchred tair blynedd mae'r cyfranogwyr hyn wedi astudio cyrsiau MBA i ehangu eu gwybodaeth a chael secondiad i gael profiad ymarferol o wahanol rannau o'r sefydliad.

Mae derbyn myfyrwyr yn yr ail flwyddyn wedi ychwanegu dimensiynau diddorol a syniadau newydd, a fydd, gobeithio, yn cael ei ailadrodd pan fyddwn yn derbyn y drydedd garfan ym Medi 2007. Mae'r broses ddethol ar gyfer Arweinwyr y Dyfodol wedi cael ei mireinio er mwyn darparu gwybodaeth ddatblygu ddefnyddiol i ymgeiswyr os ydynt yn llwyddo i gael eu derbyn ar y rhaglen neu beidio.

Mae'r MCLl i'w weld yn boblogaidd iawn mewn swyddfeydd lleol. Bydd pob unigolyn yn gwneud ymarfer adborth 360 gradd gwerthfawr i asesu eu hanghenion datblygu am y flwyddyn i ddod. Yn 2007 bydd rhai o gyfranogwyr y MCLl yn dilyn rhaglen datblygiad personol gydag Ymddiriedolaeth y Dywysog. Mae eraill wedi defnyddio hyblygrwydd y rhaglen i gymryd rhan mewn prosiectau lleol ac mae rhai wedi 'profi'r dyfroedd' i weld sut beth fyddai gweithio mewn rhannau eraill o'r busnes, megis yn y Brif Swyddfa.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein hyfforddwyr rheolaeth leol wedi llwyddo i weithredu diploma lefel 4 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (SARh) ar gyfer staff perthnasol megis arweinwyr tîm dosbarthol. Yn 2006/7, cofrestrwyd 219 o ymgeiswyr. Cafodd y rhaglen ei rheoli drwy ein canolfan achrededig yn Swyddfa Durham (Boldon) a byddwn yn ystyried yr egwyddor o achredu ar gyfer rhaglenni dysgu a datblygu eraill yn y dyfodol. Mae cyflwyno gweithdai i arweinwyr tîm dosbarthol wedi cyd-fynd yn effeithiol â'r SARh. Mae'r gweithdai hyn wedi ychwanegu persbectif gweithredol gwerthfawr at y sylfaen wybodaeth a ddarperir gan astudiaethau'r SARh.

## Nicky Heathcote, MCC, Swyddfa Telford

Ymunais â'r Gofrestrfa Tir yn 1988 fel gweithiwr achos ac rwy'n dal i weithio yn fy swyddfa leol, ac yn ddiweddar cefais fy mhenodi fel Swyddog Cyswllt Gofal Plant. Ymunais i â'r rhaglen MCC ym mis Hydref 2006, oherwydd roeddwn i eisiau wynebu sialensiau newydd a gweld y darlun mawr. Dyw fy nhraed heb gyffwrdd â'r ddaear ers hynny!

Yn ystod y chwe mis diwethaf rwyf wedi cysgodi Rheolwr Newid Busnes y Gofrestrfa Tir a'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, wedi cwblhau adolygiad gofal plant cenedlaethol, wedi cymryd rhan mewn fforwm arweinyddiaeth sy'n ystyried gwasanaethau seiliedig ar y we a chael secondiad i'r Grŵp Strategaeth fel Cydlynydd Cynllunio Busnes.

Rwyf wedi cael cipolwg gwych ar amcanion strategol a thrawsffurfiad y Gofrestrfa Tir, fel y manylir yn y Glasbrint Sefydliadol. Mae gweld uwch reolwyr yn gwneud penderfyniadau wedi cynnig modd i mi ymestyn fy meddwl strategol a'i gymhwyso i feysydd fel yr adolygiad gofal plant.

Roedd y fforwm arweinyddiaeth wedi agor y drws i'r byd anghyfarwydd o wasanaethau masnachol a gwerthiannau data i mi.

Roedd yn ddiddorol dysgu am dechnoleg newydd a sut y gallai arwain at wasanaethau newydd. Roedd y fforwm wedi rhoi cyfle i mi gyflwyno fy syniadau fy hun a all gynnig budd i'n busnes yn y dyfodol.

Mae'r gromlin ddysgu yn fy swydd bresennol wedi bod yn arbennig o serth. Mae fy nhasgau wedi amrywio o ddrafftio Cynllun Busnes Corfforaethol 2007/8 i baratoi ar y cyd gyflwyniad a phapur i'r Prif Weithredwr sydd i'w gyflwyno yng nghynhadledd Gweithgor ar gyfer Gweinyddu Tir yn Munich. Rwy'n rhan o'r tîm sy'n cynhyrchu'r adroddiad blynyddol hwn ar ei wedd newydd, ac rwy'n gobeithio eich bod yn mwynhau ei ddarllen!



Nicky Heathcote

## Mina Demaris, SARh a MCLI, Swyddfa Plymouth

Ar hyn o bryd rwyf ar ail flwyddyn y MCLI. Mae'r cynllun wedi bod yn heriol ac yn fuddiol o ran fy natblygiad. I gael y mwyaf o'r rhaglen, mae fy nghynllun gweithredu personol yn allweddol wrth geisio cyfleoedd datblygu ac mae Arweinwyr y Dyfodol wedi cynyddu fy ngwerthfawrogiad a'm dealltwriaeth o'm hanghenion yn y dyfodol.

Bues yn gweithio ar strategaeth amrywiaeth y Gofrestrfa Tir, gan lunio cynllun gweithredu yn unol â deddfwriaeth ddiweddar. Rwyf wedi cwblhau'r cyflwyniad ar y cwrs SARh a mynychu gweithdai ychwanegol sy'n canolbwyntio ar feysydd datblygu penodol, gan weithredu'r sgiliau hyn yn fy ngwaith bob dydd.

Rwyf wedi mynychu digwyddiadau rhwydweithio, a fu'n ddefnyddiol ar gyfer meincnodi a dysgu oddi wrth eraill, manteisio ar gyfleoedd hyfforddi sy'n benodol i'm hanghenion a chael profiad ehangach o'r Gofrestrfa Tir. I gael y mwyaf o Arweinwyr y Dyfodol, mae'n rhaid i chi fod yn barod i fentro allan o'ch amgylchedd cysurus. Bu'n rhaglen heriol mewn sawl agwedd ond bu'r elfennau cadarnhaol yn llawer mwy na'r elfennau negyddol.

## Hyfforddiant mewnol

Yn ystod y flwyddyn, mae deunydd y Gofrestrfa Tir a ddefnyddir i hyfforddi staff sy'n prosesu gwaith achos, wedi cael ei wella drwy ddarparu enghreifftiau parod sy'n ategu deunydd hyfforddi yn ymwneud â meysydd allweddol arferion cofrestru tir. Mae integreiddio a llywio'r deunyddiau hyn o fewn ein cyfarwyddyd ymarfer ar-lein mewnol wedi gwella hefyd.

| Agwedd | Diwrnodau hyfforddeion |
| --- | --- |
| Sefydlu | 809 |
| Galwedigaethol (cofrestru tir) | 32,479 |
| Rheoli | 8,882 |
| Allanol | 4,150 |
| Cyfanswm | 46,320 |

Roedd y cyfanswm gwariant ar yr holl hyfforddiant yn cynrychioli 7.2 y cant o'r bil cyflogau.

## Iechyd a diogelwch

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod y newidiadau mewn dulliau gweithio a bod angen i ni adolygu a diweddaru'r 'offer' sydd ar gael i'n staff weithredu'n effeithiol ac yn ddiogel.

Comisiynwyd ymgynghorwyr i ymgymryd ag astudiaeth iechyd a diogelwch fanwl, sy'n torri tir newydd o offer sgrin arddangos, gan gynnwys adolygiad o galedwedd, meddalwedd, amgylchedd ac agweddau seicogymdeithasol ar gyfrifiaduron.  O ganlyniad gwnaethpwyd mwy na 50 o argymhellion a fydd, o'u gweithredu, yn rhoi'r Gofrestrfa Tir ar flaen y gad o ran safonau gweithio offer sgrin arddangos. Mae'r argymhellion i gyd wedi cael eu derbyn a bydd 2007/8 yn gweld rhaglen o weithredu'r argymhellion hyn.

Gan barhau â'n nod o wella amodau gwaith staff sy'n gweithio gydag offer sgrin arddangos, roedd system ar-lein o hyfforddi ac asesu wedi cael ei threialu a'i chyflwyno i bob swyddfa.  Mae'n targedu cymorth gan aseswyr lle mae ei angen fwyaf ac yn darparu stôr o wybodaeth yn ymwneud ag iechyd a lles ein staff nad oedd ar gael o dan y system bapur flaenorol.  Er mwyn gwella safonau mae'n rhaid i'n holl aseswyr mewnol feddu ar dystysgrif y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol mewn asesu risgiau sgriniau arddangos.

Mae'r rhaglen flynyddol o archwiliadau iechyd a diogelwch wedi cael ei chwblhau, ac mae pob swyddfa a gafodd ei harchwilio wedi derbyn o leiaf asesiad 'safonol' ar gyfer cydymffurfiaeth.

Mae'n bleser nodi y gwelwyd lleihad sylweddol yn y gyfradd damweiniau o 7.67 yn 2005/6 i 5.76 yn 2006/7.

# Ein technoleg

Mae gan y Gofrestrfa Tir hanes cryf ym maes arloesedd ac arferion technolegol. Mae ein gwasanaethau newydd yn electronig yn bennaf, naill ai wedi'u darparu i'n deiliaid cyfrif credyd neu'r cyhoedd drwy ein gwefannau. Roedd e-drawsgludo, a fydd yn gwneud y broses drawsgludo yn hollol electronig, wedi cymryd cam mawr ymlaen y flwyddyn ddiwethaf gyda lansio prototeip o'r Gadwyn Matrics ar-lein ar 29 Mawrth 2007.

Bydd ein rhaglen e-drawsgludo yn datblygu ymhellach yn 2007/8 drwy werthuso ymateb trawsgludwyr, rhoddwyr benthyg, gwerthwyr tai a'r cyhoedd i'r Gadwyn Matrics. Yn llai gweledol, ond heb fod yn llai arwyddocaol, byddwn yn dechrau gweithredu system gadarn ar gyfer atodi llofnodion electronig i ddogfennau, a fydd yn arwain y ffordd at gyflwyno ceisiadau electronig gyda gweithredoedd wedi'u hatodi, megis morgeisi a throsglwyddiadau eiddo.

Hefyd, byddwn yn dadansoddi ymatebion i'n hymgynghoriad cyntaf ar y ddeddfwriaeth eilaidd ddrafft sy'n angenrheidiol cyn y gellir cyflwyno e-drawsgludo.

Wrth i'r gwaith a dderbynnir gynyddu, mae prosesu gwaith achos yn fewnol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae ein gweinydd cynhyrchu newydd wedi cynyddu ein gallu cyfrifiadurol mewnol. Bu hyn yn amhrisiadwy o ran darparu'r dibynadwyedd a pherfformiad gwasanaeth sydd ei angen i ymdopi â'r cynnydd ym musnes ein cwsmeriaid.

Rydym wedi cynnal treial llwyddiannus o dechnoleg cronfa ddata newydd a fydd yn gwneud y mwyaf o'n gallu i ddefnyddio ein data daearyddol ar gyfer dadansoddi mewnol a masnachol, gan warchod a gwella ei chywirdeb.

Yn dilyn hyn, mae strategaeth newydd ar gyfer is-adeiledd gwybodaeth ofodol wedi cael ei chymeradwyo. Rydym wedi gweld cynnydd arwyddocaol o ran gweithredu'r bensaernïaeth hon.

Mae nifer cynyddol o ymwelwyr yn cael eu denu at y Gofrestr Tir Ar-lein drwy nodweddion newydd fel y Lleolwr Tir o'r Awyr, sy'n adnabod teitlau eiddo drwy ddefnyddio mapiau a ffotograffau o'r awyr. Mae gwasanaethau a ddarperir drwy e-sianeli yn cynhyrchu tua 15 y cant o'n cyfanswm incwm erbyn hyn.

Bydd mynediad i wybodaeth ar wefan y Gofrestrfa Tir yn cael ei wella'n sylweddol drwy greu dyfais newydd o'r enw porth. Bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni o ran darparu gwasanaethau, ac yn cynnig modd i ni wasanaethu gwahanol grwpiau o ymwelwyr yn y ffordd orau iddyn nhw.

Bydd y cynnwys a'r cymwysiadau ar www.cofrestrfatir.gov.uk yn cael eu symud i'r llwyfan porth newydd, ond bydd y cyfeiriad gwefan a'r cysylltiadau â'r Gofrestr Tir Ar-lein a'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol yn parhau yr un fath.

Hefyd, rydym yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf o fewn y sefydliad, yn fwyaf diweddar drwy gyflwyno'r Porth AD, sef system rheoli amser a chyflogres AD ar-lein.

## Gwasanaethau ar-lein i gwsmeriaid

### Lleolwr Tir o'r Awyr

Mae ein gwefan Cofrestr Tir Ar-lein yn caniatáu i unrhyw un chwilio am eiddo cofrestredig yng Nghymru a Lloegr y mae modd ei adnabod drwy gyfeiriad.

Os yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu cyfateb y manylion y mae'r cwsmer yn eu darparu gyda'n cofnodion, ac mae'r eiddo wedi'i gofrestru, dylent allu (am ffi) lwytho i lawr copïau o'r gofrestr teitl, cynllun teitl a'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn y gofrestr. Os yw rhif teitl unigol yr eiddo ganddynt gallant gael yr wybodaeth hon yn gyflymach byth.

Ond erbyn hyn gall cwsmeriaid ddefnyddio'r Gofrestr Tir Ar-lein i wybod mwy am eiddo neu ddarn o dir nad oes ganddynt gyfeiriad neu rif teitl amdano.


Mae'r Lleolwr Tir o'r Awyr yn ategu'r mecanweithiau chwilio presennol o fewn y safle drwy leoli lleiniau o dir gan ddefnyddio mapiau a delweddaeth o'r awyr.

Mae'r delweddau a ddarperir gan Getmapping, mewn cydweithrediad â Multimap, yn dangos manylion hyd at lefel stryd, gyda cheir a choed i'w gweld yn amlwg. Getmapping yw un o'r darparwyr delweddau o'r awyr gorau yn y wlad, ac mae'n diweddaru ei ddata'n barhaus drwy ail-hedfan dros Gymru a Lloegr. Mae unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud yn ddi-dor i'w gronfa ddata.

Mae data newydd yn mynd ar-lein ar gyfradd o sawl mil o gilometrau sgwâr y mis, gan sicrhau bod y cyfleuster chwilio newydd yn gwella'n barhaus.







## David Brown, Prif Gyfreithiwr yn Abbey Law

Mae'r amrywiaeth o wasanaethau ar-lein a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir yn ddefnyddiol ac yn fuddiol tu hwnt, gan ddarparu sicrwydd a chyflymder. Mae'r dulliau cwblhau ceisiadau yn hyn o beth yn ystyriol iawn o'r defnyddiwr.

Mae'n hanfodol eich bod yn gallu gweld y gofrestr ar unwaith ac yn ei ffurf ddiweddaraf. Mae gallu ei gweld ar-lein yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau ar unwaith a rhoi cyngor i gleientiaid a fyddai fel arall wedi gorfod aros i dderbyn cofnodion copi swyddogol dros y ffôn neu gais drwy'r post.

Gallwch feddwl am sefyllfaoedd lle mae copi papur yn cyrraedd yn rhy hwyr ar gyfer trafodiad neu benderfyniad arbennig. Mae'r byd sydd ohoni yn mynnu bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n gyflym ac yn naturiol ddigon mae'n ddiamynedd mewn achosion lle mae darparu gwybodaeth wedi'i oedi oherwydd y broses law.

Am y tro cyntaf mae'r gwasanaeth e-gyflwyno yn galluogi ymarferwr i gyflwyno cais ar-lein drwy wasgu botwm, sy'n cynnig gwasanaeth uniongyrchol a sicrwydd.

Yn olaf, ond nid y lleiaf, mae'r fantais ymarferol o beidio â dibynnu ar unrhyw drydydd parti ar gyfer cyflwyno cais, boed drwy'r post, cyfnewid dogfennau, neu ddull arall o gyflwyno corfforol.

Mae'r cyflymder a'r sicrwydd a ddarperir gan y gwasanaethau hyn heb ei ail.



**Rheoli data**

Mae ansawdd ein data daearyddol - cynlluniau teitl, map mynegai fector a chyfeiriadau - o'r pwys mwyaf i'n gwasanaethau. Rydym wedi cydnabod yr angen am amgylchedd rheoli data cynhwysfawr, a fydd yn cynnig modd i ni reoli'r ased allweddol hwn mewn ffordd llawer mwy rhagweithiol.

Ymhlith y datblygiadau allweddol yn y maes hwn yw gweithredu Llinell Rhediad Gwella Ansawdd (LIRhGA) a fydd yn hwyluso glanhau maes i safonau cymeradwy. Bydd mynegeio fector y Gofrestrfa Tir, sy'n dangos stent y tir a gofrestrwyd, yn cael ei gymharu â chynlluniau teitl cyfredol yr Arolwg Ordnans a'r Gofrestrfa Tir. Bydd y LIRhGA yn golygu defnyddio systemau TG newydd a phrosesau llaw sefydledig i gymharu'r tair set data. Os oes angen, caiff y mynegeio fector a data cyfeiriad eu cywiro â llaw os oes angen.

Bydd y LIRhGA yn cael ei threialu mewn tair swyddfa yn hydref 2007. Bydd y gweithgarwch datblygu hwn yn cyd-fynd ag ymarfer cyfathrebu cynhwysfawr ar draws y sefydliad cyfan.

Hefyd, rydym wedi recriwtio uwch reolwr data daearyddol newydd sy'n gyfrifol am greu a gweithredu strategaeth rheoli data ar gyfer y sefydliad.

## Helen Clarke, gweithiwr achos rheng-flaen ar y prosiect LIRhGA

Er bod maint y prosiect yn ddigon i ddychryn unrhyw un, roeddwn i'n edrych ymlaen at y cyfle i gymryd rhan. Roeddwn i wedi llawn sylweddoli'r anawsterau a fyddai'n codi, ond gofynnais i'n hunan beth oedd realiti trosglwyddo'r data daearyddol map mynegai fector i'r manylion Arolwg Ordnans diweddaraf, a fyddai fy marn yn cael ei chymryd o ddifrif ac a fyddai'r Bwrdd yn cefnogi fy nghais i ymgymryd â thasg mor enfawr. Roedd meddwl am y peth yn eithaf blinedig ynddo'i hun, ond yr ateb i'r tri chwestiwn, yn rhyfedd ddigon, oedd ie!

Mae defnyddwyr pen-blaen wedi chwarae rhan uniongyrchol gyda'r datblygwyr. Rwyf wedi teithio o Telford i Plymouth sawl gwaith i eistedd gyda rheolwyr prosiect a datblygwyr i gynnal trafodaethau hir a manwl ym mhob cam am olwg sgrin a chlicio llygoden.

Mae gweld y system yn dod yn fyw o'r geiriau sydd wedi cael eu trafod yn hollol wych. Rwy'n teimlo'n falch fy mod wedi chwarae rhan mor anhepgor o'r broses feddwl gychwynnol ac mae ffydd gen i yn y system sy'n cael ei datblygu. Mae wedi'i symleiddio ac yn ystyriol o'r defnyddiwr a bydd yn ei gwneud hi'n bosibl i gynnwys map mynegai fector ar fanylion cyfredol yr Arolwg Ordnans.

Mae bod yn rhan o un o brosiectau mwyaf y Gofrestrfa Tir wedi bod yn gyfle gwych a thrwyddo rwyf wedi magu fy hyder a chael cryn foddhad. Bu'n gromlin ddysgu serth ac yn her fawr, ond bu'n bleserus oherwydd rwyf wedi cwrdd a gweithio gyda rhai pobl arbennig.



**Gwella cywirdeb lleoliadol**
Mae'r rhaglen genedlaethol Gwella Cywirdeb Lleoliadol (GCLl) yn fenter yr Arolwg Ordnans sydd wedi cael ei datblygu i ddal data map gwledig i fanyldeb absoliwt gwell (safle nodweddion mewn perthynas â Grid Cenedlaethol yr AO). Mae wedi creu safon mapio data gwell gyda chywirdeb mwy cyson ar gyfer ardaloedd gwledig.

Roedd y Gofrestrfa Tir wedi cydweithio'n agos â'n cyflenwyr allanol i greu system TG newydd a llunio proses law i symud ein data mynegai polygon i gyfateb â'r manylion map sylfaenol newydd hyn. Cyflwynwyd gwelliannau mawr i'r system hon yn 2006 i sicrhau bod rhaglen GCLl y Gofrestrfa Tir wedi'i chwblhau erbyn diwedd haf 2007, mwy na chwe mis cyn y dyddiad targed gwreiddiol.

Bydd cwblhau rhaglen GCLl y Gofrestrfa Tir yn cynnig modd i ni wneud gwelliannau pellach i'n prosesau rheoli data.

**Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol**
Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (GGTC) yn wasanaeth masnachol gyda thair sianel sy'n cynnig chwiliadau ar-lein ac ymholiadau i gyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig ledled Cymru a Lloegr. Mae'r sianeli yn cystadlu yn y farchnadle ac yn gwahaniaethu eu gwasanaethau trwy becynnu a chyflwyno'r wybodaeth i weddu i'w cynulleidfa darged.

Mae chwiliadau yn cael eu hanfon yn electronig ac mae canlyniadau'n cael eu derbyn trwy foth GGTC, sy'n gweithredu fel porth ar gyfer gwybodaeth a gwasanaethau o nifer o ddarparwyr data.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cefnogi'r GGTC o'r cychwyn cyntaf ac rydym yn parhau i fod yn brif ddarparwr data, ochr yn ochr â chyrff eraill megis awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau.

Mae sianeli'r GGTC yn cynhyrchu incwm ffioedd o fwy na £650,000 bob mis.

**Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd**
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi parhau i chwarae rôl arweiniol yn natblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd (GGTE), gwasanaeth newydd cyffrous ar gyfer Ewrop. Roeddem ymhlith y grŵp cyntaf o awdurdodau cofrestru tir i fynd yn fyw â'r gwasanaeth pan gafodd ei lansio'n swyddogol yn Nhachwedd 2006 yng nghynhadledd flynyddol Ffederasiwn Morgeisi Ewrop ym Mrwsel.

O ganlyniad, mae gwasanaethau gwybodaeth tir cenedlaethol Cymru a Lloegr, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden wedi'u cysylltu â'i gilydd ar-lein erbyn hyn, drwy borth y GGTE. Disgwylir i 10 gwlad arall ymuno dros y flwyddyn nesaf.

Nod y GGTE yw darparu mynediad byd-eang hawdd i wybodaeth tir ac eiddo electronig Ewropeaidd er mwyn hybu a bod yn sail i farchnad eiddo Ewropeaidd sengl.

Ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol yw:
— bydd cwsmeriaid yn cael mynediad rhwydd i wybodaeth am eiddo unigol ledled Ewrop
— bydd mynediad rhwydd gan gwsmeriaid hefyd i'r holl wybodaeth gyfeirio angenrheidiol am y gwasanaethau tir ac eiddo a ddarperir, a'r amgylchedd cyfreithiol cysylltiedig, ym mhob gwlad Ewropeaidd
— bydd holl wasanaethau tir ac eiddo Ewropeaidd o fewn cyrraedd hawdd drwy un porth.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei sbarduno gan yr angen i chwalu'r rhwystrau i farchnad Ewropeaidd sengl ar gyfer benthyca morgeisi, sydd ar hyn o bryd yn digwydd bron yn gyfan gwbl o fewn ffiniau cenedlaethol.

Y brif farchnad ar gyfer y GGTE yw sefydliadau megis banciau, trawsgludwyr, gwerthwyr tai, datblygwyr eiddo, awdurdodau treth a'r heddlu.

Bydd defnyddwyr yn mewngofnodi fel arfer i'w darparwr gwybodaeth cofrestru tir cenedlaethol presennol er mwyn cyrchu porth y GGTE.

Mae'r cyfleuster hwn yn agor marchnad newydd ar gyfer gwybodaeth tir, oherwydd bydd cwsmeriaid y gwasanaethau cysylltiedig yn gallu cyrchu gwybodaeth tir o wasanaethau cyfatebol mewn gwledydd eraill.

**i-gostau**
Mae system electronig newydd wedi cael ei chyflwyno ar gyfer prosesu ceisiadau teithio a chynhaliaeth staff. Rydym wedi symleiddio'r rheolau, sefydlu atebolrwydd clir a lleihau costau gweinyddol. Erbyn hyn mae taliadau'n cael eu gwneud 10 diwrnod yn gyflymach ar gyfartaledd gydag arbedion o £11.17 y trafodiad. Mae teithwyr cyson wedi croesawu'r system newydd hon.

"Mae'r system hon yn wych, mor ystyriol o'r defnyddiwr a hawdd ei llywio. Gwnes i fy nghostau mewn hanner yr amser yr oedd yn ei gymryd gyda'r hen ffurflenni, a dyma pam mae amser gen i ddiolch i chi gyd!"

"Mae'r broses a'r system newydd yn hawdd iawn ei defnyddio, ac mae hynny'n cynnwys y dogfennau ar safle mewnrwyd AD."

"Roedd yn arbennig o dda gweld cydymdrech gan y Grŵp Cyllid ac AD a hwn yw'r ffactor allweddol yn llwyddiant y fenter yn fy marn i."

# Ein dyfodol

Yn yr hydref cyhoeddwyd ein Glasbrint sefydliadol. Roedd hwn wedi rhoi trosolwg cynhwysfawr i staff o'r newidiadau a ragwelwn dros y 10 mlynedd nesaf, y syniadau y tu ôl iddynt a sut y bwriadwn eu cyflwyno a'u rheoli. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd adolygiad o'n hystad gyda chynigion i gau dwy swyddfa ac uno pum pâr o swyddfeydd cyfagos.

Yn 2007/8 byddwn yn parhau i weithredu amrywiaeth o fentrau sy'n bwriadu ein helpu i weinyddu ein busnes yn well byth yn y dyfodol. Mae ein System Gwybodaeth Busnes wedi'i sefydlu erbyn hyn, a byddwn yn hapus i'w darparu fel gwasanaeth i sefydliadau eraill. Mae ein Tîm Archwilio Mewnol eisoes yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol i gorff llywodraethol arall ac rydym yn awyddus i gefnogi agenda cydwasanaethau'r Llywodraeth os oes modd.

Rhagwelwn ddyfodol cyffrous i'n sefydliad a'n staff, wedi'i seilio ar y nifer gynyddol o wasanaethau a gynigiwn a'r cwsmeriaid a wasanaethwn. Bydd ein hincwm a'n perfformiad bob amser yn cael eu dylanwadu gan gyflwr y farchnad eiddo ac mae'n rhaid i ni fod yn barod ar gyfer diwedd y ffyniant hir cyfredol - ond hefyd fod yn barod ar gyfer ei barhad.

# Cyfrifon 2006/7

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol y Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant, y fantolen, y datganiad llif arian a'r datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Hefyd rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr adroddiad tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Gofrestrfa Tir, Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu ac Archwiliwr**
Mae'r Gofrestrfa Tir a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr adroddiad tâl, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn y datganiad o gyfrifoldebau'r gronfa fasnachu a'r Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w archwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon).

Adroddaf fy marn i chi ar y datganiadau ariannol ac a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno. Adroddaf i chi a yw, yn fy marn i, wybodaeth arbennig a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys y rhagair gan y Prif Weithredwr, sylwadau'r rheolwyr, yr adroddiad tâl a'r atodiadau, yn cyfateb â'r datganiadau ariannol. Adroddaf hefyd a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob agwedd berthnasol, wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Hefyd, adroddaf i chi os nad yw'r Gofrestrfa Tir wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os yw'r wybodaeth a bennwyd gan y Trysorlys ynghylch tâl a thrafodion eraill heb ei datgelu.

Adolygaf a yw'r datganiad ar reolaeth fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Gofrestrfa Tir â chanllawiau'r Trysorlys, ac adroddaf os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, na ffurfio barn ynghylch effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Gofrestrfa Tir na'i gweithdrefnau risg a rheolaeth.

Darllenaf yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwiliad**
Gweinyddwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesu'r prif amcangyfrifon a barnau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir a'r Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac ystyried a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Gofrestrfa Tir, yn cael eu dilyn yn gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen, yn fy marn i, i roi tystiolaeth ddigonol er mwyn

gallu rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio yn rhydd o unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed drwy gamgymeriad neu drwy dwyll, ac ym mhob agwedd berthnasol fod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso a yw'r wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio yn ddigonol yn gyffredinol.

**Barn**

**Barn archwiliad**
Yn fy marn i:

— mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg, yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf gan y Trysorlys, o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir ar 31 Mawrth 2007 a'i gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
— mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno
— mae'r wybodaeth a roddwyd o fewn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys y rhagair gan y Prif Weithredwr, sylwadau'r rheolwyr, yr adroddiad tâl a'r atodiadau, yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Barn archwiliad ar reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

12 Gorffennaf 2007

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a sicrhau cywirdeb gwefan y Gofrestrfa Tir; nid yw’r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cwmpasu ystyriaeth o’r materion hyn ac felly nid yw’r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi eu gwneud i’r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno ar y wefan yn y lle cyntaf.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r gronfa fasnachu a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir yn y cyfarwyddyd cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 69. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail groniadol a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o fusnes y gronfa fasnachu ar ddiwedd y flwyddyn a'i hincwm a'i gwariant, cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r gronfa fasnachu:

— ddilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
— llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol
— datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
— paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, oni bai ei fod yn amhriodol i dybio y bydd y gronfa fasnachu yn parhau i weithredu.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus a chadw cofnodion priodol, i'w gweld ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn *Government Accounting*.

# Datganiad ar reolaeth fewnol 2006/7

**1 Maes cyfrifoldeb**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gofrestrfa Tir, a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, ac ar yr un pryd ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Government Accounting*.

Yr wyf yn adrodd ar berfformiad y Gofrestrfa Tir ac unrhyw faterion sydd i'w hystyried yn y dyfodol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor bob chwe mis. Mae pob adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddilyn gan gyfarfod rhyngof i, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, swyddogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac, os bydd ymrwymiadau eraill yn caniatáu, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol sy'n gyfrifol am waith y Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd.

Mae'r broses monitro perfformiad yn cynnwys asesiad o unrhyw bryder ynghylch gallu'r Gofrestrfa Tir i gyflawni ei Chynllun Strategol 10 mlynedd. Os yw unrhyw faterion a allai newid yn sylweddol asesiad risg y Gofrestrfa Tir o'i gallu i gyflawni unrhyw un o'i hamcanion strategol yn dod i'r amlwg rhwng yr adroddiadau dwyflynyddol hyn, byddai argymhelliad yn cael ei roi gerbron yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y lle cyntaf.

**2 Pwrpas y system rheolaeth fewnol**
Pwrpas y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso a yw'r risgiau hynny yn debygol o gael eu gwireddu a'r effaith y byddent yn ei chael os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn weithredol yn y Gofrestrfa Tir ers y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon yma, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

**3 Gallu i drin risg**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu, cydnabyddaf fy mod yn bennaf gyfrifol am reoli risgiau yn effeithiol trwy'r Gofrestrfa Tir.

Mae'r polisi rheoli risg yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn rheolaidd. Mae hyn yn disgrifio ymagwedd y Gofrestrfa Tir at risg ac yn dilyn yn agos arweiniad Swyddfa Masnach y Llywodraeth ar reoli risg. Mae nodiadau cyfarwyddyd rheoli risg yn ategu'r polisi ac ar gael i bob aelod staff yn electronig ar fewnrwyd y Gofrestrfa Tir.

Yn ystod 2006/7, cafodd cynrychiolwyr o bob swyddfa hyfforddiant gloywi/ymwybyddiaeth ar reoli risg ac mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi adolygu'r holl risgiau strategol.

Fel rhan o'r broses cynllunio busnes, datblygwyd cyfres o 'strategaethau swyddogaethol' o fewn y Cynllun Strategol 10 mlynedd cyffredinol. Mae'r Strategaeth Swyddogaethol Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys pwyntiau gweithredu sy'n ymwneud â gwella parhad busnes, archwiliad, risg a diogelwch y Gofrestrfa Tir.

Mae risgiau sylweddol i'r sefydliad yn cael eu hystyried gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir, sy'n cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol. Mae'r Bwrdd Risg Busnes yn gyfrifol am arolygu a chyfeirio rheoli risg o fewn y Gofrestrfa Tir, gan gyflawni'r rôl reoli gyffredinol a bennwyd yn y Safon BS7799 Rhan 2:2002.

**4 Y fframwaith risg a rheolaeth**
Disgrifir prif elfennau strategaeth rheoli risg y Gofrestrfa Tir isod:

— Bydd rheolwyr ardal, penaethiaid grŵp, rheolwyr rhaglenni a pherchnogion asedau gwybodaeth (perchnogion cofrestr risg dynodedig), gyda chymorth uwch aelodau staff, yn adnabod ac yn asesu, o ran tebygoliaeth ac effaith, y rhwystrau i gyflawni amcanion busnes ac yn defnyddio'r wybodaeth sy'n

deillio o hyn i lunio, cynnal a diweddaru cofrestri risg sy'n cael eu cofnodi ar system adrodd risg y Gofrestrfa Tir.

— Mae perchnogion risg yn cael eu pennu ar gyfer pob risg ac yn gyfrifol am adnabod, cofnodi, adolygu a monitro trefniadau rheolaeth ac wrth gefn. Byddant yn adrodd ar effeithiolrwydd eu trefniadau rheoli risg yn achlysurol.
— Mae'r fethodoleg prosiect a fabwysiadwyd (PRINCE 2) yn gofyn i bob noddwr a rheolwr prosiect adnabod risgiau a chynnwys rheoli risg yn eu cynlluniau.
— Mae adroddiadau cynnydd rheolaidd ar brosiectau allweddol yn cael eu darparu i'r byrddau prosiectau. Mae rheolwyr rhaglenni yn gyfrifol am adnabod, rheoli ac adrodd am risgiau o bwys i amcanion strategol y Gofrestrfa Tir sy'n codi o'u rhaglenni.
— Mae'r Bwrdd Risg Busnes yn cwrdd bob chwe wythnos drwy gydol y flwyddyn. Wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid ('Hyrwyddwr' Rheoli Risg y Gofrestrfa Tir), mae'n ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg ar draws y sefydliad, ac yn derbyn adroddiadau gan y Cydlynydd Rheoli Risg, y Rheolwr Parhad Busnes, Archwilio Mewnol ac eraill sy'n ymwneud â risg a rheolaeth. Mae'r Bwrdd hefyd yn arfarnu statws risgiau strategol. Bydd unrhyw faterion o bryder yn cael eu dwyn at sylw Bwrdd y Gofrestrfa Tir.
— Fel rhan o'i swyddogaeth, mae'r Pwyllgor Archwilio yn monitro trefniadau rheoli risg trwy adroddiadau gan Gadeirydd y Bwrdd Risg Busnes ac Archwilio Mewnol.
— Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn adnabod risgiau strategol ac yn dilyn yr un prosesau ar gyfer datblygu a chynnal cofrestr risg strategol.
— Mae risgiau parhad busnes yn cael eu lleddfu drwy gynlluniau parhad cynhwysfawr, gan gynnwys rhaglen flynyddol o ymarferion sy'n ceisio profi trefniadau ym mhob swyddfa'r Gofrestrfa Tir.
— Rheolir risgiau i unplygrwydd, cyfrinachedd ac argaeledd gwybodaeth y Gofrestrfa Tir trwy ddilyn yr arferion gorau a nodwyd yn BS7799, Safon Prydain ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth. Ar hyn o bryd mae gan y Gofrestrfa Tir achrediad BS7799 Rhan 2:2002.
— Yn ystod 2006/7, cynhaliwyd archwiliad i brofi effeithiolrwydd y broses ar gyfer cael, derbyn ac adolygu gwybodaeth a gynhyrchwyd i gefnogi arwyddo'r datblygiad blynyddol ar reolaeth fewnol. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, mae gwaith wedi dechrau (a bydd yn parhau yn ystod 2007/8) i adeiladu ar brosesau sicrhau rheolaeth fewnol a'u gwella.

**5 Adolygu effeithiolrwydd**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad parhaus o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn y Gofrestrfa Tir sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Rwy'n cael fy nghynghori ynghylch goblygiadau canlyniadau fy adolygiad parhaus o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Risg Busnes ac mae cynlluniau i ddatrys gwendidau a sicrhau bod gwelliant parhaus i'r system yn weithredol.

Mae prif elfennau'r system rheolaeth fewnol wedi'u nodi yn adran 4 uchod ac yn cyfrannu at fy adolygiad o effeithiolrwydd y system. Mae'r canlynol hefyd yn darparu gwybodaeth ar gyfer fy adolygiad:

— Mae **Bwrdd y Gofrestrfa Tir**, yr wyf i yn ei gadeirio, yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol y Gofrestrfa Tir er mwyn sicrhau bod y Cynllun Strategol 10 mlynedd yn cael ei weithredu. Mae'n ofynnol i bob cynnig a roddir gerbron y Bwrdd gynnwys asesiad risg. Ar ddiwedd pob cyfarfod, mae'r Bwrdd yn ystyried goblygiadau risg unrhyw benderfyniad y mae wedi'i wneud. Mae'n

adolygu'r gofrestr risg strategol ac yn sicrhau bod y trefniadau sy'n weithredol i leddfu risgiau yn effeithiol. Mae'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar waith y Bwrdd Risg Busnes gan y Cyfarwyddwr Cyllid yn ogystal ag adroddiadau am elfennau amrywiol y busnes er mwyn sicrhau bod rheolaeth fewnol yn cael ei chynnal.

— Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn adrodd i Fwrdd y Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd (y ddau yn gyfarwyddwyr anweithredol), y Cyfarwyddwr SG a rheolwr ardal. Mae aelod anweithredol annibynnol arall wedi cael ei benodi fel aelod i ychwanegu at sgiliau ariannol y pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn gweithredu yn ôl egwyddorion ac arferion a bennir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio'r Trysorlys. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynghori Bwrdd y Gofrestrfa Tir ynghylch effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, rheolaeth, llywodraethu a rheolaeth ariannol y sefydliad. Mae'n ystyried adroddiadau'r Bwrdd Risg Busnes ac Archwilio Mewnol, a hefyd llythyr rheoli yr archwilwyr allanol. Caiff unrhyw bryderon eu hadrodd i Fwrdd y Gofrestrfa Tir er mwyn gweithredu arnynt.

— Mae'r **Bwrdd Risg Busnes**, sy'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid, yn adrodd i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'n ystyried adroddiadau rheolaidd ar gwblhau'r gofrestr risg a materion sy'n codi o waith monitro ac effeithiolrwydd y broses rheoli risg. Ym mhob cyfarfod, bydd y Bwrdd yn adolygu'r holl risgiau strategol sydd â sgôr uchel neu ganolig ar gyfer 'tebygoliaeth' ac 'effaith'

— Y **Rheolwr Parhad Busnes** yw gwarcheidwad y system adrodd risg. Mae'r Grŵp Parhad Busnes yn darparu cymorth i ddefnyddwyr y system adrodd risg ac yn gyfrifol am fonitro'r gofrestr a symud risgiau i lefel cyfarwyddwyr yn unol â'r meini prawf a osodwyd. Cyflwynir adroddiadau ffurfiol i'r Bwrdd Risg Busnes.

— Mae **Archwilio Mewnol** yn gweithredu i safonau archwilio mewnol y llywodraeth a sefydlwyd gan y Trysorlys. Mae'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Gofrestrfa Tir, ynghyd ag argymhellion ar gyfer eu gwella. Mae Archwilio Mewnol yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg mewn llawer o'i waith. Yn arbennig, mae'r broses cynllunio archwiliad blynyddol yn ystyried y risgiau a'r rheolaethau cysylltiedig a nodwyd mewn cofrestri risg. Mae adroddiadau Archwilio Mewnol unigol yn cael eu dosbarthu i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Pwyllgor Archwilio.

At ei gilydd, yr wyf yn fodlon ag effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Gofrestrfa Tir.

Peter Collis
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

# Adroddiad tâl

**Polisi tâl i uwch weision sifil**
Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei bennu gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r corff adolygu yn ystyried y canlynol:

— Yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol.
— Amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff.
— Polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad i adrannau gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol.
— Y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y pennwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth.
— Targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a dderbynnir am ystyriaethau economaidd ehangach ac a yw ei argymhellion yn fforddiadwy.

Mae mwy o wybodaeth am waith y corff adolygu i'w gweld yn www.ome.uk.com.

Mae dau bwyllgor tâl uwch wasanaeth sifil (UWS), sy'n gweithredu ar awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan y rheolwyr llinell, ac yn penderfynu sut y caiff bonysau eu dosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff y Gofrestrfa Tir yn yr UWS, yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae'r tâl sylfaenol a'r bonysau yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae mwy o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk

Yn ystod y flwyddyn, aelodau'r pwyllgor tâl oedd yn delio â band tâl 1 UWS oedd Mike Cutt (Cadeirydd), Ted Beardsall, Andy Howarth a Joe Timothy. Ar gyfer y pwyllgor tâl yn delio â band tâl 2 UWS yr aelodau oedd Mike Cutt (Cadeirydd) a David Rigney.

**Polisi tâl i weision sifil eraill**
Mae tâl staff y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau UWS yn cael ei bennu o dan delerau'r Cytundeb Tâl, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1995. O dan y cytundeb hwn, mae tâl yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth y Trysorlys.

Yn 2006/7, i berfformwyr boddhaol a fu ar y radd am flwyddyn, roedd y codiad cyflog yn cynnwys dilyniant gwarantedig o un cam i fyny'r band tâl ac adbrisio'r band tâl. I berfformwyr boddhaol gyda llai nag un flwyddyn o wasanaeth ar y radd roedd y codiad cyflog yn cynnwys adbrisio tâl. Hefyd, roedd bonws heb ei gydgrynhoi cysylltiedig â pherfformiad i bob aelod staff oedd yn derbyn y marciau arfarnu uchaf.

**Contractau gwasanaeth**
Mae penodiadau Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i benodi ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored.

Mae pob un o'r cyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn cael ei benodi am gyfnod penagored nes eu bod yn cyrraedd oedran ymddeol arferol sef 60 oed. Byddai terfynu'r contract yn gynnar, heblaw ar sail camymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei ddigolledu fel y pennir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

I gael mwy o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ewch i www.civilservicecommissioners.gov.uk

**Hawliau cyflog a phensiwn**
**Cyflog**
Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; tâl perfformiad neu fonysau; goramser; lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn ddarostyngedig i drethiant y DU. Ni dderbyniodd y cyfarwyddwyr unrhyw fuddiannau o fath arall yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl drosodd yn seiliedig ar daliadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

| | **Cyflog, gan gynnwys tâl perfformiad** | | **Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed** | | **Cyfanswm cronedig ar 31 Mawrth 2007** | | **Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) ar 31 Mawrth** | | **Cynnydd real mewn GTAPC ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Pensiwn** | **Cyfandaliad** | **Pensiwn** | **Cyfandaliad** | | | |
| | 2007 £'000 | 2006 £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | 2006 £'000 | 2007 £'000 | £'000 |
| **Bwrdd y Gofrestrfa Tir** | | | | | | | | | |
| Peter Collis<br>Prif Gofrestrydd Tir<br>a Phrif Weithredwr | 150–155 | 145–150 | 0–2.5 | 2.5–5 | 50–55 | 160–165 | 1,007 | 1,067 | 25 |
| Ted Beardsall<br>Dirprwy Brif Weithredwr a<br>Chyfarwyddwr Datblygu Busnes | 125–130 | 115–120 | 0–2.5 | 0–2.5 | 55–60 | 170–175 | 1,338 | 1,334 | 6 |
| Andy Howarth<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 120–125 | 110–115 | 0–2.5 | 2.5–5 | 50–55 | 155–160 | 1,144 | 1,224 | 27 |
| Joe Timothy<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 120–125 | 115–120 | 0–2.5 | 0–2.5 | 35–40 | 115–120 | 760 | 799 | 11 |
| Linda Daniels<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 95–100 | 85–90 | – | – | 40–45 | 120–125 | 902 | 930 | – |
| Heather Foster<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 90–95 | 85–90 | 0–2.5 | 0–2.5 | 25–30 | 80–85 | 503 | 527 | 7 |
| John Wright<br>Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 90–95 | 50–55 | 0–2.5 | – | 0–5 | – | 11 | 30 | 15 |
| Mike Cutt<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15–20 | 15–20 | – | – | – | – | – | – | – |
| David Rigney<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15–20 | 15–20 | – | – | – | – | – | – | – |

Mae'r holl gyfarwyddwyr gweithredol yn eistedd ar y Bwrdd Gweithredol

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil ymuno ag un o'r tri chynllun budd diffiniedig 'cyflog terfynol' statudol (clasurol, premiwm a chlasurol a mwy). Nid yw'r cynlluniau wedi'u cyllido ac mae cost budd yn cael ei thalu gydag arian a ddyfarnwyd gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol a mwy yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall y rhai sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth bremiwm neu ymuno â chynllun budd-ddeiliad 'pwrcasu arian' o ansawdd gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr wedi'u gosod ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer cynllun clasurol a 3.5 y cant ar gyfer cynlluniau premiwm a chlasurol a mwy. Bydd buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy pan fydd gweithwyr yn ymddeol. Ar gyfer cynllun premiwm, bydd buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig ond gall aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad. Mae'r cynllun clasurol a mwy yn amrywiad o'r cynllun premiwm, ond gyda budd ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'i gyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun clasurol.

Ar gyfer 2006/7, talodd y Gofrestrfa Tir gyfraniadau cyflogwr o £35.6 miliwn (2005/6: £33.6 miliwn) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 17.1 y

cant i 25.5 y cant (2005/6: 16.2 y cant i 24.6 y cant) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, nid y costau wrth iddynt gael eu talu, ac maent yn adlewyrchu profiad y cynllun yn y gorffennol.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliad. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i un o dri chynnyrch pensiwn budd-ddeiliad. Ar gyfer 2006/7 y cyfraniad oedd £49,819 (2005/6: £35,649). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y Gofrestrfa Tir yn cyfateb hyn hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy, sef £3,903 yn 2006/7 (2005/6: £2,981) i dalu cost buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Roedd deg unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn y flwyddyn oedd £17,574.

I gael manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i'r wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

### Gwerthoedd trosglwyddo arian parod cyfatebol

Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) yw gwerth cyfalafol wedi'i asesu'n actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg arbennig. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn gŵr/gwraig amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTAPC yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r dadleniad yn gymwys iddi. Mae'r ffigurau GTAPC, ac o 2003/4 y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac mae CS Vote wedi derbyn taliad trosglwyddo sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu cymryd. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun. Cyfrifir GTAPC o fewn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan yr Institute and Faculty of Actuaries.

### Cynnydd real mewn GTAPC

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTAPC a gyllidir yn effeithiol gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant a'r cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007

| | Nodiadau | 2007 £'000 | 2006 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm ffioedd - gweithrediadau parhaus | 2 | 474,525 | 395,432 |
| Cost y gwasanaeth | 2 | (358,139) | (344,489) |
| Gwarged gros | | 116,386 | 50,943 |
| Costau gweinyddol | 2 | (20,069) | (20,194) |
| **Gwarged gweithredu** | 3 | 96,317 | 30,749 |
| Elw ar werthu asedau sefydlog | | 89 | 91 |
| Llog i'w dderbyn | | 11,604 | 9,160 |
| Llog i'w dalu a thaliadau tebyg | 5 | (32) | (31) |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | 107,978 | 39,969 |
| Difidend i'w dalu | 6 | (16,548) | (14,229) |
| **Gwarged a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | 21 | 91,430 | 25,740 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 69 i 86 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007

| | Nodiadau | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | | 107,978 | 39,969 |
| Gwarged heb ei realeiddio wrth ailbrisio ar Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 19 | 242 | 111 |
| Gwarged heb ei realeiddio ar ailbrisio | 20 | 10,683 | 13,647 |
| Enillion wedi'u realeiddio a drosglwyddwyd i incwm a gwariant | 20 | 0 | (1,115) |
| Trosglwyddiad i enillion a gedwir | 21 | (6,687) | 0 |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn ariannol** | | 112,216 | 52,612 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 69 i 86 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Cysoni symudiadau yng nghronfeydd y llywodraeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007

| | Nodiadau | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | | 107,978 | 39,969 |
| Difidend i'w dalu | 6 | (16,548) | (14,229) |
| | | 91,430 | 25,740 |
| Gwarged ar ailbrisio | 20 | 3,996 | 12,532 |
| Trosglwyddiad i enillion a gedwir | 21 | 6,687 | 0 |
| Ailbrisio asedau heb fod yn eiddo | 21 | 32 | 0 |
| Gostyngiad yn y Gronfa Indemniad | 17 | (100) | (6,966) |
| Gostyngiad yng Ngrant Wrth Gefn y Llywodraeth | 19 | (2,350) | (830) |
| **Cynnydd net yng nghronfeydd y llywodraeth** | | 99,695 | 30,476 |
| Cronfeydd y llywodraeth wrth agor | | 414,680 | 384,204 |
| **Cronfeydd y llywodraeth wrth gau** | | 514,375 | 414,680 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 69 i 86 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen ar 31 Mawrth 2007

| | | 2007 | | 2006 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | | 245,227 | | 228,081 |
| **Asedau anniriaethol** | | | | | |
| Ymchwil a datblygu | 8 | | 26,127 | | 8,133 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stociau | 9 | 2,401 | | 2,011 | |
| Dyledwyr | 10 | 25,428 | | 20,464 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 11, 24.2 | 306,793 | | 232,664 | |
| | | 334,622 | | 255,139 | |
| **Credydwyr - symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn** | 12.1 | (76,513) | | (61,880) | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 258,109 | | 193,259 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 529,463 | | 429,473 |
| **Credydwyr - symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 12.2 | | (12,531) | | (13,254) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 16 | | (2,557) | | (1,539) |
| **Asedau net** | | | 514,375 | | 414,680 |
| **Cronfa Indemniad** | 17 | | 15,158 | | 15,258 |
| **Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | 18 | | 61,545 | | 61,545 |
| Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 19 | | 9,350 | | 11,700 |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | 20 | | 75,402 | | 71,406 |
| Cyfrif incwm a gwariant | 21 | | 352,920 | | 254,771 |
| | | | 514,375 | | 414,680 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 69 i 86 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

Peter Collis, Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
Dyddiad: 4 Gorffennaf 2007

# Datganiad llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007

| | Nodiadau | 2007 £'000 | 2006 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian net i mewn o weithgareddau gweithredu | 24.1 | 128,860 | 44,481 |
| **Enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 11,118 | 9,210 |
| Elfen llog taliadau prydles ariannol | 5 | (32) | (31) |
| | | 11,086 | 9,179 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (33,994) | (40,855) |
| Ymchwil a datblygu | | (17,026) | 0 |
| Gwerthu asedau sefydlog diriaethol | | 177 | 1,408 |
| **Llif arian parod net allan o wariant cyfalaf** | | (50,843) | (39,447) |
| Difidend wedi'i dalu ar Gyfalaf Difidend Cyhoeddus | | (14,229) | (12,793) |
| **Llif arian parod net i mewn cyn ariannu** | | 74,874 | 1,420 |
| **Ariannu** | | | |
| Elfen cyfalaf taliadau prydles ariannol | | (745) | (505) |
| **Cynnydd mewn arian parod** | 24.2 | 74,129 | 915 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 69 i 86 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y cyfrifon

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

**1.1 Sail cyfrifyddu**
Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2006/7 (LIAA) ac yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4 (6)(a) Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y LIAA yn dilyn arferion cyfrifyddu cymeradwy cyffredinol y DU i gwmnïau (UK GAAP) i'r graddau ei fod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Pan fydd y LIAA yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir ar gyfer y dibenion o roi darlun gwir a theg wedi cael ei ddewis. Mae polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

**1.2 Confensiwn cyfrifyddu**
Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ddarparu ar gyfer ailbrisio asedau sefydlog diriaethol.

**1.3 Incwm ffioedd**
Dyma'r incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys ffioedd, yn glir o unrhyw ad-daliadau, ar gyfer gwasanaethau statudol i gofrestru teitl a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon yn y flwyddyn ariannol pan ddarperir y gwasanaeth.

Mae rhai gwasanaethau yn gofyn am dderbyn tâl gyda'r cais sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu hadrodd fel ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw a'u datgelu o fewn credydwyr.

**1.4 Yswiriant**
Codir yswiriant i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail y premiymau gwirioneddol a dalwyd, ar gyfer eiddo, lifftiau, cerbydau, defnyddio ceir hurio a theithio dramor.

**1.5 Pensiynau**
Mae gweithwyr cyflogedig y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae hawl ganddynt fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae PGPGS yn gynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n cael budd o wasanaethau'r gweithwyr cyflogedig drwy dalu i'r PGPGS symiau

wedi'u cyfrifyddu ar sail groniadol. Mae rhwymedigaeth am dalu buddion yn y dyfodol yn dâl i'r PGPGS. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun fel ar 31 Mawrth 2003. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon adnoddau'r Swyddfa Cabinet o dan Flwydd-dal Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Fe welwch fanylion pellach am bensiynau yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 61 i 63.

**1.6 Asedau sefydlog diriaethol**
Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliad a les-ddaliad hir yn cael eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd. Yn y blynyddoedd rhwng hynny, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu prisiad 'bwrdd gwaith'. Mae prisiad 'bwrdd gwaith' wedi cael ei ddarparu'r flwyddyn hon.

Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir gan y LIAA i ddatgelu asedau sefydlog eraill yn y fantolen fel cost hanesyddol wedi'i haddasu. Ar gyfer asedau tymor byr heb fod yn eiddo, defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o gost gyfredol yr ased.

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliad a les-ddaliad hir wedi'u cynnwys ar gost hanesyddol llai dibrisiad cronedig.

Nid yw asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio.

Mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu swm wedi'i ailbrisio, llai gwerth gweddillol amcangyfrifedig asedau sefydlog diriaethol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio'r dull llinell syth.

Mae oes asedau yn cael ei adolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliad | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliad | 2 y cant |
| Tir ac adeiladau les-ddaliad | cyfnod y brydles |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 20 y cant |
| Dodrefn, gosodion a ffitiadau | 20 y cant |
| Cyfarpar swyddfa | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: prif-ffrâm | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: mini a chyfrifiaduron personol | 33$^1/_3$ y cant |
| Cerbydau modur | 33$^1/_3$ y cant |
| Ceblo strwythuredig | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 y cant |

**1.7 Amhariad asedau sefydlog**
Cynhelir adolygiadau amhariad os oes arwyddion nad oes modd adennill y gwerthoedd sy'n cario. Cyfradd disgownt y llywodraeth sy'n gymwys yw 3.5 y cant.

**1.8 Ymchwil a datblygu**
Mae'r Gofrestrfa Tir wrthi'n datblygu e-drawsgludo, system electronig i helpu gwella'r prosesau prynu, gwerthu a chofrestru tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr. Mae cost datblygu e-drawsgludo yn cael ei chyfalafu fel asedau anniriaethol ar y fantolen. Mae gwariant yn cael ei nodi ar wahân drwy gyfres o brosiectau a ddelir o fewn strwythur rhaglen e-drawsgludo. Mae holl gostau'r rhaglen, gan gynnwys costau staff y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, sy'n gymwys o dan y Datganiad o Arferion Cyfrifyddu Safonol 13 sydd i'w diffinio fel gwariant datblygu, yn cael eu cyfalafu. Cânt eu hamorteiddio yn erbyn llinynnau incwm e-drawsgludo y dyfodol.

**1.9 Gwaith ar y gweill**
Caiff gwaith ar y gweill ei ddatgan ar y gost isaf (deunyddiau uniongyrchol a chyflogau a hefyd gorbenion y gellir eu priodoli ar lefel gweithgarwch arferol) a'r gwerth realeiddio net, sy'n seiliedig ar y ffi, llai costau pellach y disgwylir eu talu pan fydd yr achos wedi'i gwblhau.

Oherwydd gwerth ansylweddol stoc deunydd ysgrifennu cytunwyd ar newid i'r polisi cyfrifyddu, lle y byddai'n cael ei drin fel cost yn ystod y flwyddyn. Gan fod y swm yn ansylweddol nid yw'r cyfnod blaenorol wedi cael ei ailddatgan.

**1.10 Darpariaethau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail amcangyfrifiad gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i dalu'r rhwymedigaeth. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau i'r cyfrif incwm a gwariant.

**1.11 Cronfa Indemniad**
Sefydlwyd y Gronfa Indemniad yn 1994. Yn 2003/4, comisiynodd y Gofrestrfa Tir Lane, Clark a Peacock i gynnal adolygiad actiwaraidd. Argymhellodd ei adroddiad bod y Gofrestrfa Tir yn cynyddu'r gronfa i £13.724 miliwn fel ar 31 Mawrth 2004. Yn y blynyddoedd rhyngddynt cafwyd diweddariadau blynyddol, cyn yr adolygiad actiwaraidd nesaf, a gaiff ei gynnal gan Lane, Clark a Peacock, yn dechrau ym mis Medi 2007. Bydd hawliadau a brofir ac a gwmpasir gan y gronfa, yn y lle cyntaf, yn cael eu codi yn erbyn y gronfa.

**1.12 Rhwymedigaethau amodol**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau sydd â siawns phosibl yn unig o grisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau wedi'u

dosbarthu fel rhwymedigaethau amodol. Mae hyn yn cynnwys ond nid yw wedi'u cyfyngu i geisiadau am golledion sy'n codi o wallau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr.

**1.13 Prydlesi gweithredol**
Codir costau rhentu o dan brydlesi gweithredol i'r cyfrif incwm a gwariant fel costau a gafwyd.

**1.14 Prydlesi ariannol**
Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw holl risgiau a manteision perchnogaeth ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles ariannol. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi ariannol, yn glir o daliadau ariannol, yn cael eu cynnwys yn y golofn credydwyr gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi yn y golofn asedau sefydlog a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles, p'un bynnag yw'r byrraf. Cyfradd disgownt y llywodraeth sy'n gymwys yw 3.5 y cant. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen ariannol, a godir i'r cyfrif incwm a gwariant fel llog, a'r elfen cyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.15 Grantiau cyfalaf y llywodraeth**
Mae gwerth asedau a gyllidir gan grantiau'r llywodraeth ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei ddal mewn Grant Wrth Gefn y Llywodraeth. Mae'r asedau y telir amdanynt gyda'r grant yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn unol â pholisi asedau sefydlog y Gofrestrfa Tir. Mae costau dibrisio a symudiadau ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn yn cael eu codi i'r gronfa wrth gefn yn unol â chyfarwyddyd *Government Accounting*.

**1.16 Taliadau i gyflenwyr Menter Cyllid Preifat (MCP)**
Mae trafodion MPC wedi cael eu cyfrif amdanynt yn unol â Nodyn Technegol Rhif 1 (Diwygiedig) ar *Sut i roi cyfrif am drafodion MCP*. Gan fod gweddill y risgiau a manteision perchnogaeth eiddo MCP yn cael ei ddwyn gan weithredydd y MCP, mae'r taliadau yn cael eu cofnodi fel cost gweithredu.

**1.17 TAW**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Gwasanaethau Allan y Trysorlys. Ar gyfer gweithgaredd nad yw'n statudol, sy'n weithgarwch busnes, codir TAW ac fe adenillir yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu'n cael ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu yr asedau sefydlog. Os yw treth allosod yn cael ei chodi neu os yw treth fewnbwn yn cael ei hadennill nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.18 Cost cyfalaf**
Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i'r Trysorlys ddifidend blynyddol sef 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol.

**1.19 Technegau amcangyfrif**
Technegau amcangyfrif yw'r dulliau a fabwysiadir i gael symiau ariannol amcangyfrifedig ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd a phrisio asedau a rhwymedigaethau a datgelu asedau a rhwymedigaethau amodol ar ddyddiad y cyfrifon. Mae technegau amcangyfrif sylweddol ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn cynnwys cydnabod a phrisio darpariaethau.

## 2 Adrodd mewn adrannau
Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn yn bodloni dau ddiben. Y cyntaf yw cydymffurfio â chanllaw *Ffioedd a thaliadau'r* Trysorlys a'r ail yw cydymffurfio â'r Datganiad o Arferion Cyfrifyddu Safonol Rhif 25.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyflawni'r ddau wasanaeth statudol hyn ar wahân: cofrestru teitl a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol. Yn y tabl isod nodir yr incwm ffioedd, cyfanswm cost y gwasanaeth a'r gwarged ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn.

| | **Cofrestru teitl** | | **Pridiannu tir a chredydau amaethyddol** | | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2007 £'000 | 2006 £'000 | 2007 £'000 | 2006 £'000 | 2007 £'000 | 2006 £'000 |
| Incwm ffioedd | 464,748 | 386,192 | 9,777 | 9,240 | 474,525 | 395,432 |
| Cost y gwasanaeth | (355,108) | (341,632) | (3,031) | (2,857) | (358,139) | (344,489) |
| Costau gweinyddol | (19,893) | (20,029) | (176) | (165) | (20,069) | (20,194) |
| **Gwarged gweithredu** | 89,747 | 24,531 | 6,570 | 6,218 | 96,317 | 30,749 |

Amcan ariannol y gronfa fasnachu yw talu costau'r ddau wasanaeth a gwneud enillion ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd o 3.5 y cant, gan gymryd un flwyddyn gyda'r llall (gweler hefyd nodyn 27).

Mae asedau net yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cynrychioli tua 2 y cant o gyfanswm asedau net y Gofrestrfa Tir. Mae'n anaddas, felly, nodi'r wybodaeth hon ar wahân.

# 3 Gwarged gweithredu

| Nodir y gwarged gweithredu ar ôl codi am y canlynol | 2007 £'000 | 2006 £'000 |
|---|---|---|
| Costau staff (gweler nodyn 4 a'r adroddiad tâl) | 244,063 | 238,147 |
| Darpariaethau ar gyfer costau indemniad (gweler nodyn 17) | (100) | 1,424 |
| Costau isadeiledd TG (gweler nodyn 26) | 19,937 | 17,360 |
| Hurio peiriannau | 6,534 | 5,541 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | 69 | 68 |
| Dibrisio'r flwyddyn gyfredol - asedau a berchenogir (gweler nodyn 7) | 20,025 | 17,546 |
| Dibrisio'r flwyddyn gyfredol - asedau a brydlesir (gweler nodyn 7) | 1,256 | 1,110 |
| Amhariad mewn gwerth asedau sefydlog (gweler nodyn 7) | 2,487 | 5,193 |
| Amhariad mewn gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu | 2,753 | 0 |
| Costau ymddeoliad cynnar (gweler nodyn 16) | 1,380 | 681 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | 4,018 | 4,479 |
| Incwm gweithredu arall | (3,904) | (2,499) |

# 4 Gwybodaeth am weithwyr cyflogedig

## 4.1 Costau staff

| | 2007 Staff parhaol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | 2006 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 195,790 | 2,802 | 198,592 | 193,193 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 14,678 | 27 | 14,705 | 13,591 |
| Costau pensiwn eraill | 35,654 | 0 | 35,654 | 33,605 |
| **Cyfanswm costau staff** | 246,122 | 2,829 | 248,951 | 240,389 |
| Costau staff wedi'u cyfalafu | (4,585) | (303) | (4,888) | (2,242) |
| **Cyfanswm costau staff net** | 241,537 | 2,526 | 244,063 | 238,147 |

Mae'r symiau a ddatgelir fel cyflogau yn cynnwys tâl cyfarwyddwyr.

Mae costau staff wedi'u cyfalafu yn cyfeirio at ymchwil a datblygu e-drawsgludo (gweler nodyn 1.8).

Mae costau staff eraill yn cynnwys cyflogau a chostau nawdd cymdeithasol ar gyfer staff a gyflogir fel staff dros dro neu staff ar gontractau tymor sefydlog; a chostau staff asiantaeth.

**4.2 Niferoedd staff**
Roedd nifer y bobl a gyflogwyd gan y Gofrestrfa Tir ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2007<br>**Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | 2006<br>**Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Uwch reolwyr | 7 | 0 | 7 | 15 |
| Gweithredol | 7,644 | 94 | 7,738 | 7,740 |
| Gweinyddol | 314 | 35 | 349 | 324 |
| TG | 476 | 23 | 499 | 467 |
| | 8,441 | 152 | 8,593 | 8,546 |

**4.3 Cyflog a hawliau pensiwn y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr**
Mae cyflog a hawliau pensiwn Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir wedi'u cynnwys yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 61 i 63.

**4.4 Pensiynau**
Darperir buddion pensiwn i'r rhan fwyaf o'r staff drwy'r PGPGS. Ar gyfer 2006/7 roedd cyfraniadau gweithwyr cyflogedig o £35.6 miliwn (2005/6: £33.6 miliwn) yn daladwy i'r PGPGS ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 17.1 y cant a 25.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Gallai gweithwyr cyflogedig a ymunodd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Ar gyfer 2006/7 roedd y Gofrestrfa Tir wedi gwneud cyfraniad o £49,819 (2005/6: £35,649).

Fe welwch fanylion pellach am y cynlluniau pensiwn yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 61 i 63.

# 5 Llog i'w dalu a thaliadau tebyg

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Taliadau ariannol | 32 | 31 |

Mae adolygiadau rhent wedi cael eu cydnabod fel rhan o'r gwerth cyfalaf gan leihau eu llog sy'n daladwy.

# 6 Difidend sy'n daladwy

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Difidend sy'n daladwy | 16,548 | 14,229 |

Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu difidend blynyddol i'r Trysorlys sy'n 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

# 7 Asedau sefydlog diriaethol

| | Tir ac adeiladau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliad<br>£'000 | Prydles hir<br>£'000 | Prydles fer<br>£'000 | **Asedau sy'n cael eu hadeiladu**<br>£'000 | **Cyfrifiaduron, telegyfathrebu a chyfarpar swyddfa**<br>£'000 | **Dodrefn, gosodion a ffitiadau a cherbydau modur**<br>£'000 | **Cyfanswm**<br>£'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 134,705 | 41,826 | 2,372 | 10,740 | 69,215 | 31,506 | 290,364 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 283 | 17,424 | 11,870 | 3,060 | 32,637 |
| Asedau i'w defnyddio | 2,668 | 9 | 0 | (9,006) | 5,329 | 1,000 | 0 |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn* | 9,285 | 670 | 777 | 0 | 0 | 0 | 10,732 |
| Ailbrisiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 415 | (383) | 32 |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 8,549 | (785) | 7,764 |
| Amhariad | (2,484) | 0 | (3) | 0 | 0 | 0 | (2,487) |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | (6,085) | (1,431) | (7,516) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 144,174 | 42,505 | 3,429 | 19,158 | 89,293 | 32,967 | 331,526 |
| **Dibrisiad** | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 4,762 | 1,082 | 349 | 0 | 37,090 | 19,000 | 62,283 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn** | 2,045 | 854 | 402 | 0 | 15,278 | 4,091 | 22,670 |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 8,342 | (578) | 7,764 |
| Dibrisiad ôl-groniad | 195 | 16 | 80 | 0 | 0 | 0 | 291 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | (5,360) | (1,349) | (6,709) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 7,002 | 1,952 | 831 | 0 | 55,350 | 21,164 | 86,299 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2007** | 137,172 | 40,553 | 2,598 | 19,158 | 33,943 | 11,803 | 245,227 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2006 | 129,943 | 40,744 | 2,023 | 10,740 | 32,125 | 12,506 | 228,081 |

* £0.242 miliwn (2005/6: £0.314 miliwn) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant y llywodraeth (gweler nodyn 19).
** £1.389 miliwn (2005/6: £1.238 miliwn) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan gant y llywodraeth (gweler nodyn 19).

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn datgan mai polisi'r Gofrestrfa Tir yw prisio tir ac adeiladau rhydd-ddaliad a phrydles hir yn broffesiynol bob tair blynedd. Cynhaliwyd prisiad llawn ar 1 Ionawr 2005. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, mae'r ffigurau hyn yn cael eu diweddaru gan brisiad 'bwrdd gwaith'. Caiff prisiadau proffesiynol a phrisiadau 'bwrdd gwaith' eu darparu gan briswyr allanol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Sail y prisiad oedd defnydd presennol gyda gwerth ar y farchnad agored ar gyfer eiddo dros ben neu eiddo a isosodir. Roedd gormodedd o £10.9 miliwn o werth ar y farchnad agored dros werth defnydd presennol ar gyfer yr eiddo rhydd-ddaliad ar 1 Ionawr 2005.

Swm net y prydlesi ariannol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £13.8 miliwn (2005/6: £14.1 miliwn). Yn y flwyddyn roedd £0.55 miliwn (2005/6: £0.70 miliwn) o'r dibrisiad yn ymwneud â'r asedau hyn.

Os yw gwerth eiddo yn disgyn yn is na'r gwerthoedd gwreiddiol, codir y diffygion (dros dro a pharhaol) i'r cyfrif incwm a gwariant fel amhariad.

Swm y tir rhydd-ddaliad oedd £41.13 miliwn (2005/6: £38.87 miliwn).

## 8 Ymchwil a datblygu - e-drawsgludo

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Costau e-drawsgludo wedi'u cyfalafu | 26,127 | 8,133 |

Mae cost datblygu e-drawsgludo yn cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol ar y fantolen a chaiff ei hamorteiddio yn erbyn llinynnau incwm e-drawsgludo yn y dyfodol. Roedd ychwanegiadau yn y flwyddyn yn cyfrif am £17.994 miliwn. Gweler polisïau cyfrifyddu ar dudalen 71.

## 9 Stociau

| **Mae stociau'n cynnwys:** | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Stociau deunydd ysgrifennu | 0 | 12 |
| Gwaith ar y gweill | 2,401 | 1,999 |
| | 2,401 | 2,011 |

# 10 Dyledwyr

### 10.1 Dyledwyr sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 12,782 | 9,537 |
| Dyledwyr eraill | 3,058 | 3,033 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 6,878 | 6,390 |
| | 22,718 | 18,960 |

### 10.2 Dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr eraill | 826 | 692 |
| Rhagdaliadau | 1,884 | 812 |
| | 2,710 | 1,504 |
| **Cyfanswm dyledwyr** | 25,428 | 20,464 |

# 11 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Swyddfa Tâl-feistr Gyffredinol EM | 284,934 | 213,067 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 21,859 | 19,597 |
| **Cyfanswm** | 306,793 | 232,664 |

Mae'r Gofrestrfa Tir yn dal adneuon cwsmeriaid fel rhan o'r cyfleuster taliadau cyfrif credyd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 103 o gyfrifon (2005/6: 105) ac roedd cyfanswm o £2.08 miliwn (2005/6: £2.09 miliwn) yn cael ei ddal yng nghyfrif banc y Gofrestrfa Tir.

Ni ddangosir adneuon cwsmeriaid yn y fantolen oherwydd eu bod yn cyfeirio at arian trydydd parti (gweler nodyn 24.2).

# 12 Credydwyr

## 12.1 Symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw | 13,238 | 9,361 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 4,786 | 4,607 |
| Credydwyr masnach | 6,339 | 4,103 |
| Credydwyr eraill | 4,356 | 3,726 |
| Croniadau | 30,328 | 24,915 |
| Ymrwymiadau net o dan brydlesi ariannol | 918 | 939 |
| Difidend i'w dalu | 16,548 | 14,229 |
| | 76,513 | 61,880 |

## 12.2 Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau prydlesi ariannol | 12,531 | 13,254 |

Mae'r ffigurau cymharol wedi cael eu hailddatgan i adlewyrchu symud gwerthoedd darpariaeth ymddeoliad cynnar o gredydwyr i ddarpariaethau yn nodyn 16.

# 13 Gweddillion o fewn y llywodraeth

## 13.1 Dyledwyr

| | **Symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn** | | **Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | |
|---|---|---|---|---|
| **Gweddillion gyda:** | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
| Cyrff llywodraeth ganolog eraill | 3,429 | 3,150 | | |
| Awdurdodau lleol | 1,135 | 17 | | |
| Cyrff GIG | 0 | 13 | | |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 70 | 14 | | |
| Gweddillion o fewn y llywodraeth | 4,634 | 3,194 | | |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 18,084 | 15,766 | 2,710 | 1,504 |
| **Cyfanswm dyledwyr** | 22,718 | 18,960 | 2,710 | 1,504 |

### 13.2 Credydwyr

| Gweddillion gyda: | Symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn 2007 £'000 | Symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn 2006 £'000 | Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn 2007 £'000 | Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn 2006 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog eraill | 24,584 | 32 | | |
| Awdurdodau lleol | 284 | 4 | | |
| Cyrff GIG | 0 | 0 | | |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 0 | 16 | | |
| Gweddillion o fewn y llywodraeth | 24,868 | 52 | | |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 51,645 | 61,828 | 12,531 | 13,254 |
| **Cyfanswm credydwyr** | 76,513 | 61,880 | 12,531 | 13,254 |

# 14 Ymrwymiadau prydlesi

### 14.1 Prydlesi gweithredu

| Ymrwymiadau blynyddol mewn perthynas â phrydlesi gweithredu tir ac adeiladau sy'n dod i ben cyn pen: | 2007 £'000 | 2006 £'000 |
|---|---|---|
| Blwyddyn | 461 | 50 |
| Dwy i bum mlynedd | 1,013 | 1,873 |
| Mwy na phum mlynedd | 2,544 | 2,556 |
| | 4,018 | 4,479 |

### 14.2 Prydlesi ariannol

| Taliadau'n ddyledus cyn pen: | 2007 £'000 | 2006 £'000 |
|---|---|---|
| Blwyddyn | 918 | 939 |
| Dwy i bum mlynedd | 3,561 | 3,571 |
| Mwy na phum mlynedd | 8,970 | 9,683 |
| | 13,449 | 14,193 |

## 15 Benthyciadau

Nid oedd gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2007.

## 16 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | 2007 Ymddeoliad cynnar £'000 | Eiddo £'000 | Cyfanswm £'000 | 2006 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 1,539 | 0 | 1,539 | 2,308 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,380 | 984 | 2,364 | 681 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (1,346) | 0 | (1,346) | (1,450) |
| **Ar 31 Mawrth** | 1,573 | 984 | 2,557 | 1,539 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar (DYC) yn rhoi buddion ymddeoliad i rai gweithwyr cyflogedig.

Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae'r Gofrestrfa Tir yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr cyflogedig sydd wedi ymddeol o dan y cynllun. Roedd y cyfanswm taliadau ar gyfer y flwyddyn yn £1.35 miliwn yn 2006/7, a darparwyd ar gyfer £1.35 miliwn o hyn o fewn y ddarpariaeth DYC yng nghyfrifon 2005/6. Codir cyfanswm yr atebolrwydd pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol mewn perthynas â phob gweithiwr cyflogedig i'r cyfrif incwm a gwariant yn y flwyddyn pan fydd y gweithiwr cyflogedig yn cymryd ymddeoliad cynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Yna mae taliadau pensiwn a budd cysylltiedig i'r gweithiwr cyflogedig sydd wedi ymddeol tan yr oedran ymddeol arferol yn cael eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

O ganlyniad i symudiad arfaethedig Swyddfa Croydon i Trafalgar House, mae rhwymedigaeth ar y Gofrestrfa Tir i wneud gwaith dadfeilio ar y swyddfa bresennol, Sunley House. Mae gwerth y gwaith hwn wedi cael ei ddarparu ar ei gyfer yn y cyfrifon hyn.

## 17 Cronfa Indemniad

| | 2007 £'000 | 2006 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 15,258 | 22,224 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 4,286 | 6,637 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (4,386) | (13,603) |
| **Ar 31 Mawrth** | 15,158 | 15,258 |

## 18 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyhoeddwyd yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990 | 61,545 | 61,545 |

## 19 Grant Wrth Gefn y Llywodraeth

Yn 2002/3, dyfarnwyd £15 miliwn i'r Gofrestrfa Tir o'r Gronfa Moderneiddio Cyfalaf i ddatblygu cyfleusterau cyfrifiadurol newydd. O'r swm hwn, gwaredwyd â gwerth £0.719 miliwn o asedau yn 2006/7 (2005/6: defnyddiwyd £0.722 miliwn i adeiladu asedau) ac mae hwn wedi cael ei ddebydu i Grant Wrth Gefn Grant y Llywodraeth.

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 11,700 | 12,530 |
| Cronfa Moderneiddio Cyfalaf | 0 | 722 |
| Ailbrisio (gweler nodyn 7) | (242) | (111) |
| Dibrisio (gweler nodyn 7) | (1,389) | (1,238) |
| Gwarediadau (gweler nodyn 7) | (719) | 0 |
| Amhariad (gweler nodyn 7) | 0 | (203) |
| **Ar 31 Mawrth** | 9,350 | 11,700 |

## 20 Cronfa wrth gefn ailbrisio

| **Heb ei realeiddio:** | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 71,406 | 58,874 |
| Gwarged ailbrisio (gweler nodyn 7) | 10,683 | 13,010 |
| Trosglwyddiad i enillion a gedwir | (6,687) | 0 |
| Enillion wedi'u realeiddio | 0 | (1,115) |
| Trosglwyddiad i amhariad | 0 | 637 |
| **Ar 31 Mawrth** | 75,402 | 71,406 |

Mae trosglwyddiad unwaith yn unig wedi cael ei wneud o'r gronfa wrth gefn ailbrisio i'r cyfrif incwm a gedwir i adlewyrchu gweddillion hanesyddol sy'n cael eu cario ymlaen yn anghywir yn dilyn symud o gyfrifyddu arian i adnoddau, ac i addasu ar gyfer defnyddio cost hanesyddol fel amcangyfrifiad ar gyfer cost gyfredol ar asedau heb fod yn eiddo.

## 21 Cyfrif incwm a gwariant

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 254,771 | 229,031 |
| Gwarged a gedwir am y flwyddyn | 91,430 | 25,740 |
| Addasiad ailbrisio | 32 | 0 |
| Trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn ailbrisio | 6,687 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth** | 352,920 | 254,771 |

Mae'r addasiad ailbrisio yn ymwneud â newid yn yr amcangyfrifiad cyfrifyddu ar gyfer asedau heb fod yn eiddo sy'n esgor ar drosglwyddiad uniongyrchol i gronfeydd wrth gefn a gedwir.

## 22 Ymrwymiadau cyfalaf

| **Gwariant cyfalaf:** | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn | 722 | 10,679 |

Mae gwariant wedi'i gontractio yn ymwneud â chytundebau ar gyfer darparu trwyddedau meddalwedd.

## 23 Rhwymedigaethau amodol

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn datgan bod y Gofrestrfa Tir yn gyfreithiol atebol i indemnio colledion sy'n deillio o gamgymeriadau neu hepgoriadau ar y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys camgymeriadau sy'n deillio o dwyll gan drydydd parti. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Roedd yr hawliadau sy'n aros o dan y rhwymedigaeth hon fel a ganlyn:

| | 2007<br>£'000 | 2006<br>£'000 |
|---|---|---|
| Mewn perthynas â chofnodion yn y Gofrestr | 4,566 | 7,315 |
| Twyll a ffugio | 2,807 | 3,081 |

# 24 Nodiadau ar y datganiad llif arian

## 24.1 Cysoni gwarged gweithredu â llif arian net i mewn o weithgareddau gweithredu

| | 2007 £'000 | 2006 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged gweithredu | 96,317 | 30,749 |
| Taliadau dibrisiad | 21,281 | 18,656 |
| Amhariad mewn gwerth asedau sefydlog | 2,487 | 5,193 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | 1,018 | (768) |
| Cynnydd mewn stociau | (390) | (299) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | (2,395) | 216 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr | 10,642 | (2,300) |
| Gostyngiad yn y Gronfa Indemniad | (100) | (6,966) |
| **Llif arian net i mewn o weithgareddau gweithredu** | 128,860 | 44,481 |

## 24.2 Cysoni'r llif arian net i mewn â'r symudiad mewn arian net

| | 2007 £'000 | | 2006 £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cronfeydd y Gofrestrfa Tir** | **Adneuon cwsmeriaid** | **Cronfeydd y Gofrestrfa Tir** | **Adneuon cwsmeriaid** |
| **Arian net ar ddechrau'r cyfnod** | 232,664 | 2,090 | 231,749 | 1,687 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian yn y cyfnod | 74,129 | (8) | 915 | 403 |
| **Arian net ar ddiwedd y cyfnod** | 306,793 | 2,082 | 232,664 | 2,090 |

# 25 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 1997 gan y Trysorlys, i gydymffurfio â Safon Adrodd Ariannol Rhif 8 - *datgeliadau partïon cysylltiedig*, darperir yr wybodaeth ganlynol am drafodion partïon cysylltiedig.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn, cafodd nifer o drafodion perthnasol gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Swyddfa'r Post.

Nid yw unrhyw aelodau bwrdd, aelodau staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Gofrestrfa Tir.

## 26 Partneriaethau cyhoeddus-preifat

Dyfarnwyd contract ym mis Gorffennaf 1999 i Compaq Services (Hewlett Packard erbyn hyn) am gyfnod o hyd at 10 mlynedd o dan bartneriaeth gyhoeddus. Gwaith Hewlett Packard yw dylunio, gweithredu a rheoli'r isadeiledd TG ar gyfer systemau cofrestru'r Gofrestrfa Tir. Bydd yr isadeiledd yn cynnal y Gofrestrfa Tir wrth iddi symud tuag at integreiddio ei chofrestri, cynlluniau teitl a gweithredoedd ategol ar gyfrifiadur. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi ystyried y contract partneriaeth cyhoeddus-preifat a chyflwyniad gan y Gofrestrfa Tir ac yn cadarnhau na ddylid ei drin yn y fantolen. Mae hyn yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodwyd yn *Cyllid Preifat Tasglu'r Trysorlys - Nodyn Technegol (Diwygiedig)* a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 1999 a'r diwygiad i Safon Adrodd Ariannol Rhif 5 - *Adrodd am sylwedd trafodion: Menter Cyllid Preifat a chontractau tebyg*.

Mae Hewlett Packard yn darparu gwasanaeth rheoledig a chyflawnir hyn gyda thîm ar y safle a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â gweinyddwyr system leol y Gofrestrfa Tir. Gan fod y contract wedi'i seilio ar wasanaeth, mae ganddo werth cyfalaf sero. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o asedau TG y Gofrestrfa Tir, mae cyfrifiaduron personol, gweinyddwyr a bothau sy'n gydnaws â'r gwasanaeth rheoledig yn cael eu cynnal gan Hewlett Packard bellach ar ran y Gofrestrfa Tir. Gwerth offer y Gofrestrfa Tir ar ddechrau'r contract oedd £2.78 miliwn.

Mae'r contract yn dod i ben yng Ngorffennaf 2009 ac mae gofynion i'r dyfodol yn cael eu hystyried cyn ymarfer ail-dendro.

Ar gyfer 2006/7, codwyd £19.94 miliwn (2005/6 £17.36 miliwn) i'r cyfrif incwm a gwariant o dan gontract Hewlett Packard. Mae taliadau'r dyfodol a ymrwymwyd o dan y contract i'w gweld isod.

| | £'000 |
|---|---|
| 2007/8 | 22,168 |
| 2008/9–2009/10 | 28,148 |
| | 50,316 |

## 27 Targedau ariannol corfforaethol

| | 2007 | | 2006 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwir | Targed | Gwir | Targed |
| Enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | 23.2% | 3.5% | 10% | 3.5% |

## 28 Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Rhif 13 - *Deilliadau ac offerynnau ariannol eraill* yn gofyn am ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wyneba endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm o weithgareddau statudol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Mae adneuon sylweddol yn cael eu dal ym Manc Lloegr.

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u nodi mewn sterling, felly nid yw'r Gofrestrfa Tir yn agored i risg cyfradd llog neu risg arian gyfred.

## 29 Digwyddiadau ôl fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ôl fantolen.

Awdurdodwyd y cyfrifon hyn i'w cyhoeddi gan y Prif Weithredwr ar 18 Gorffennaf 2007.

# Cofnod y Trysorlys dyddiedig 15 Rhagfyr 2003

1 Mae Adran 4(1) Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 ("Deddf 1973") yn darparu y bydd cronfa fasnachu a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn dod o dan reolaeth y Gweinidog cyfrifol (neu, os caiff cronfa fasnachu ei sefydlu ar gyfer gweithrediadau a gyflawnir gan y sawl a benodir yn unol ag unrhyw ymddeddfiad, yr unigolyn hwnnw, os yw'r Gorchymyn sy'n sefydlu'r gronfa fasnachu yn darparu felly yn unol ag adran 1(6)(a) Deddf 1973); ac wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r gronfa bydd yn ddyletswydd arno:
(a) rheoli'r gweithrediadau a ariannir fel bod refeniw'r gronfa:
(i) yn cynnwys yn bennaf dderbyniadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y gweithrediadau a ariannir; a
(ii) heb fod yn llai na digonol, o gymryd y naill flwyddyn gyda'r llall, i dalu'r treuliau sydd i'w codi'n briodol i'r cyfrif refeniw; a
(b) cyflawni amcanion ariannol pellach y gall y Trysorlys, o bryd i'w gilydd, drwy gofnod roddwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin, ddatgan eu bod wedi'u pennu gan y Gweinidog a cyfrifol (gyda chydsyniad y Trysorlys) fel rhai y byddai'n ddymunol eu cyflawni.

2 Sefydlwyd cronfa fasnachu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 1993 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu y Gofrestrfa Tir 1993 (SI 1993/938). Mae Erthygl 3(2) y Gorchymyn hwnnw yn darparu y bydd y gronfa fasnachu yn dod o dan reolaeth y Prif Gofrestrydd Tir. Roedd y gronfa fasnachu wedi cymryd meddiant ar asedau ychwanegol ar 11 Mawrth 1996 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Asedau Ychwanegol) 1996 (SI 1996 Rhif 750). Ar 13 Hydref 2003, cafodd y gronfa fasnachu ei hehangu a'i diwygio o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Estyniad a Diwygiad) 2003 (SI 2003 Rhif 2094).

3 Mae Ysgrifennydd Gwladol [yr Adran Materion Cyfansoddiadol] a'r Arglwydd Ganghellor, sef y Gweinidog cyfrifol at ddiben adran 4(1)(b) Deddf 1973, wedi penderfynu (gyda chydsyniad y Trysorlys) mai amcan ariannol pellach y byddai'n ddymunol i Gofrestrfa Tir EM ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2009 fydd sicrhau enillion lleiaf, wedi'u cyfartalu dros y cyfnod cyfan o 3.5 y cant ar ffurf gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn llog (yn daladwy ac i'w dderbyn) fel canran o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Bydd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn cyfateb â'r cyfanswm asedau y bydd y cyfanswm rhwymedigaethau yn cael ei ddidynnu.

4 Mae'r Cofnod hwn yn disodli'r un dyddiedig 1 Ebrill 1993.

5 Bydd copi o'r Cofnod hwn yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 4 (1)(b) Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

# Atodiadau

# Atodiad 1
# Targedau perfformiad allweddol a chanlyniadau ers 2001

| Targedau gweinidogol allweddol | | Targedau, canlyniadau a chyflawniadau 2001/2 | 2002/3 | 2003/4 | 2004/5 | 2005/6 | 2006/7 | Targedau ar gyfer 2007/8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ariannol** | | | | | | | | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | Targed | 6 | 6 | 6 | 3.5 | 3.5 | 3.5 | 3.5 |
| | Canlyniad | 17.6 | 25.0 | 11.5 | 7.8 | 10.0 | 23.2 | – |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | | |
| Cost yr uned mewn termau real | Targed | £23.95 | £23.10 | £22.17 | £21.43 | £21.75 | £21.17 | £20.61 |
| | Canlyniad | £21.33 | £19.06 | £20.47 | £20.07 | £19.46 | £18.30 | – |
| Cost yr uned mewn termau arian parod | Targed | £29.95 | £29.67 | £29.07 | £28.79 | £29.78 | £29.89 | £29.88 |
| | Canlyniad | £26.67 | £24.48 | £27.06 | £26.97 | £26.64 | £25.84 | – |
| **Cynhyrchiant/cyflymder** | | | | | | | | |
| Canran y copïau swyddogol a chwiliadau swyddogol a broseswyd cyn pen tri diwrnod gwaith | Targed | 100 | – | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | 100 | 100 | – | – | – | – | – |
| Canran y ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol a drafodwyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | Targed | 98 | 98 | 98 | 98 | 98 | 98 | 98 |
| | Canlyniad | 100 | 100 | 100 | 99 | 98 | 98 | – |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 25 diwrnod gwaith | Targed | 80 | – | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | 79.1 | 84.6 | – | – | – | – | – |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 20 diwrnod gwaith | Targed | – | 75 | 80 | 80 | – | – | |
| | Canlyniad | – | 86.1 | 88.6 | 89 | – | – | |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 18 diwrnod gwaith | Targed | – | – | – | – | 80 | 80 | 80 |
| | Canlyniad | – | – | – | – | 89.7 | 88.6 | – |
| **Cywirdeb** | | | | | | | | |
| Canran y cofrestriadau a drafodwyd heb gamgymeriad ym mhob swyddfa'r Gofrestrfa Tir | Targed | 98.5 | 98.5 | 98.5 | 98.5 | 98.5 | 98.5 | 98.5 |
| | Canlyniad | 98.73 | 98.74 | 98.79 | 98.70 | 98.80 | 98.80 | – |
| Canran y cwsmeriaid a ymatebodd i'r arolwg blynyddol sydd o'r farn bod cywirdeb cofrestriadau yn ardderchog neu'n dda | Targed | Yn well na 90 | Yn well na 94 | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | 97.43 | 97.53 | – | – | – | – | – |
| **Bodlonrwydd cyffredinol** | | | | | | | | |
| Canran y cwsmeriaid sydd, at ei gilydd, yn fodlon iawn/bodlon â'r amrywiaeth lawn o wasanaethau a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir | Targed | – | Yn well na 94 | Yn well na 94 | Yn well na 95 | Yn well na 95 | Yn well na 95 | Yn well na 95 |
| | Canlyniad | – | 98.7 | 98.3 | 98.4 | 99 | 98.6 | |
| **Arall** | | | | | | | | |
| Canran y teitlau yn y Gofrestr Tir y gellir eu darparu'n electronig | Targed | 97 | – | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | 97.93 | – | – | – | – | – | – |
| Nifer y tudalennau wedi'u sganio o ddogfennau ffeil (miliynau) | Targed | 28 | 40 | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | 39.7 | 61.4 | – | – | – | – | – |
| Canran gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir a ddarperir yn electronig | Targed | 40 | 60 | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | 40 | 60 | – | – | – | – | – |
| Nifer y gwritiau a gorchmynion cofrestru Pridiannau Tir wedi'u sganio mewn methdaliad (miliynau) | Targed | 7 | 7 | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | 7.1 | 13.4 | – | – | – | – | – |
| Canran sy'n defnyddio gwasanaethau electronig | Targed | – | 50 | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | – | 50.33 | – | – | – | – | – |
| Rheolau Drafft o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn barod i ymgynghori arnynt | Targed | – | Gorffennaf 2002 | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | – | Cyrhaeddwyd | – | – | – | – | – |
| Ymgymryd â phrif ymgynghoriad cyhoeddus ar y system bosibl ar gyfer e-drawsgludo a pharatoi adroddiad terfynol i'r gweinidogion | Targed | – | Chwefror 2003 | – | – | – | – | – |
| | Canlyniad | – | Cyrhaeddwyd | – | – | – | – | – |
| Gwasanaeth peilot ar gael ar gyfer e-ryddhau | Targed | – | – | – | – | – | – | |
| | Canlyniad | – | – | Cyrhaeddwyd | – | – | – | |

# Atodiad 1
# Targedau perfformiad allweddol a chanlyniadau ers 2001 (parhad)

| Targedau gweinidogol allweddol | | Targedau, canlyniadau a chyflawniadau 2001/2 | 2002/3 | 2003/4 | 2004/5 | 2005/6 | 2006/7 | Targedau ar gyfer 2007/8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob gwasanaeth gwybodaeth allweddol y Gofrestrfa Tir ar gael dros y rhyngrwyd | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | –<br>– | –<br>– | |
| Gweithredu cam cyntaf Deddf Cofrestru Tir 2002 | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | –<br>– | –<br>– | |
| Adrodd i weinidogion ar gynigion ar gyfer gweithredu e-drawsgludo | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | –<br>– | –<br>– | |
| Galluogi argraffu canlyniadau wedi'u dilysu o chwiliadau swyddogol a chwiliadau mewn swyddfa cwsmeriaid | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | –<br>– | |
| Cynnal ymgynghoriad ar ffurf safonol prydles | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | –<br>– | |
| Dechrau'r peilot ar gyfer prosesu e-gyflwyno ffurflenni | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | –<br>– | |
| Data'r Gofrestrfa Tir ar gael i'r arddangoswr GGTE | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | –<br>– | |
| Gweithredoedd wedi'u sganio y cyfeirir atynt ar y gofrestr ar gael yn electronig trwy'r Gofrestr Tir Ar-lein | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | |
| Cofrestru am y tro cyntaf 5 y cant yn ychwanegol o'r arwynebedd tri rhydd-ddaliad yng Nghymru a Lloegr | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | |
| Darparu canolfan data arall at ddibenion parhad busnes | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | |
| Cwblhau prototeip ar gyfer dilysu dogfennau electronig | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | –<br>– | |
| Cyflwyno mynediad seiliedig ar ddelweddaeth i'r Gofrestr Tir Ar-lein | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | <br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | |
| Ychwanegu 700,000 hectar arall o dir at gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | |
| Cyflwyno prototeip o wasanaeth y Gadwyn Matrics i ddarparu tryloywder i gadwyni trawsgludo preswyl | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | |
| Sefydlu Porth y Gofrestrfa Tir fel cam cyntaf i weithredu rhyngwyneb cwsmeriaid integredig sengl ar gyfer holl wasanaethau a gwybodaeth y Gofrestrfa Tir ar-lein | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>Cyrhaeddwyd | |
| Darparu ateb isadeiledd e-ddiogelwch cynaliadwy a chyfatebol, gan ddarparu mynediad seiliedig ar rôl, swyddogaeth rheoli hunaniaeth ac e-lofnodion yn y dyfodol, ar gyfer sylfaen cwsmeriaid allanol a busnes y Gofrestrfa Tir | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | 2007/8 |
| Ychwanegu 550,000 hectar pellach o dir i gyfanswm arwynebedd y tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | 2007/8 |
| Cwblhau adolygiad o ymatebion i'r papur ymgynghori ar Reolau (Mynediad Rhwydwaith) Cofrestru Tir a Gorchymyn Cofrestru Tir (Cyfathrebu Electronig) ac adrodd i weinidogion | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | 2007/8 |
| Symud gwefan gorfforaethol y Gofrestrfa Tir i'r porth newydd a sefydlu'r porth at ddefnydd un neu ragor o'r segmentau cwsmeriaid canlynol: dinasyddion, trawsgludwyr, rhoddwyr benthyg, asiantau tai | Targed<br>Canlyniad | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | –<br>– | 2007/8 |

# Atodiad 2
# Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd 2005/6 a 2006/7

| **Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd** | **2005/6 (255 diwrnod gwaith)** | **2006/7 (252 diwrnod gwaith)** | **Amrywiad %** |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau** | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 309,609 | 304,391 | -1.7% |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 199,673 | 228,940 | 14.7% |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 186,533 | 191,767 | 2.8% |
| Deliadau â'r cyfan gyda thir cofrestredig | 4,633,621 | 4,913,128 | 6.0% |
| Gwasanaethau rhagarweiniol (OS, OC, CI, ChMM, PIC) | 13,397,544 | 14,660,341 | 9.4% |
| Gohebiaeth (heb gynnwys PIC, Ffurflen 313 a gweld y Gofrestr) | 449,024 | 465,816 | 3.7% |
| Gwasanaethau ffôn ac ymholiadau | 5,154,711 | 4,381,623 | -15.0% |
| Gweld y gofrestr (CT Uniongyrchol, GGTC a CT Ar-lein) | 6,811,888 | 7,804,664 | 14.6% |
| Gweld cynllun wedi'i ffeilio (CT Uniongyrchol, GGTC a CT Ar-lein) | 988,355 | 1,214,251 | 22.9% |
| Gweld dogfen (CT Uniongyrchol a GGTC) | 105,189 | 283,510 | 169.5% |
| Cyfanswm ceisiadau | 32,236,147 | 34,448,431 | 6.9% |
| **Gwasanaethau cychwynnol** | | | |
| ***Copïau swyddogol*** | | | |
| Drwy'r post | 2,268,805 | 1,873,888 | -17.4% |
| Drwy wasanaethau | 2,822,286 | 4,388,927 | 55.5% |
| Dros y ffôn | 1,061,646 | 788,366 | -25.7% |
| Cyfanswm copïau swyddogol (heb CI) | 6,152,737 | 7,051,181 | 14.6% |
| ***Chwiliadau swyddogol*** | | | |
| Drwy'r post | 555,261 | 446,665 | -19.6% |
| Drwy wasanaethau | 2,288,805 | 2,889,530 | 26.2% |
| Dros y ffôn | 922,799 | 707,831 | -23.3% |
| Cyfanswm chwiliadau swyddogol (OS1+OS2-MH3) | 3,766,865 | 4,044,026 | 7.4% |
| ***Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai*** | | | |
| Drwy'r post | 1,792,247 | 1,829,315 | 2.1% |
| Drwy wasanaethau | 703,122 | 877,268 | 24.8% |
| Dros y ffôn | 758,113 | 595,835 | -21.4% |
| Cyfanswm chwiliadau swyddogol o'r map mynegai | 3,253,482 | 3,302,418 | 1.5% |
| Tystysgrif archwilio cynllun teitl (CI) | 15,569 | 16,162 | 3.8% |
| Chwiliadau cartrefi priodasol (Ffurflen MH3) | 208,971 | 242,379 | 16.0% |
| Gweld y gofrestr (CT Uniongyrchol, GGTC a CT Ar-lein) | 6,811,888 | 7,804,664 | 14.6% |
| Gweld cynllun teitl (CT Uniongyrchol, GGTC a CT Ar-lein) | 988,355 | 1,214,251 | 22.9% |
| Gweld dogfen (CT Uniongyrchol a GGTC) | 105,189 | 283,510 | 169.5% |
| Chwiliadau personol o'r gofrestr (PIC) | 3,453 | 4,175 | 20.9% |
| Cyfanswm gwasanaethau cychwynnol | 21,306,509 | 23,962,766 | 12.5% |
| **Gwasanaethau eraill** | | | |
| Ffurflen 313 | 5,987 | 15,186 | 153.6% |
| Adroddiadau pwrpasol prisiau eiddo | 462 | 177 | -61.7% |
| Cyfanswm gwasanaethau eraill | 6,449 | 15,363 | 138.2% |

# Atodiad 3
# Datganiad o safonau gwasanaeth

**Gosod ein safonau**
Mae adborth gan gwsmeriaid yn ein helpu ni i sicrhau bod ein gwasanaeth yn ateb eich anghenion. Mae ein safonau yn cael eu gosod a'u hadolygu bob blwyddyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor er mwyn sicrhau ein bod yn gwella ein lefel gwasanaeth a pherfformiad.

Rydym yn:
— cynnal arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid bob blwyddyn
— gwahodd cwsmeriaid sy'n galw heibio ein swyddfeydd i gwblhau holiadur bodlonrwydd
— cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda grwpiau cynrychioliadol a chwsmeriaid
— ystyried sylwadau, awgrymiadau a chwynion.

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â'n gwasanaeth, cysylltwch â'r rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid yn unrhyw un o'n swyddfeydd.

Rydym hefyd yn annog ein staff i gynnig eu syniadau ar gyfer gwella ein gwasanaeth.

**Darparu gwerth am arian**
Adolygwn ein ffioedd bob blwyddyn a chodwn dim ond yr hyn sydd ei angen i adennill ein costau cyffredinol, megis gwariant cyfalaf neu offer newydd, adeiladau ac ati, er mwyn cynhyrchu enillion ar ein hasedau net.

**Ble ydyn ni'n cyhoeddi ein targedau gwasanaeth?**
Rydym yn arddangos ein prif dargedau gwasanaeth, a manylion am ein perfformiad yn erbyn y targedau hyn, yn y ganolfan gwybodaeth cwsmeriaid ym mhob swyddfa. Rydym hefyd yn eu cyhoeddi ar ein gwefan, mewn cylchlythyron cwsmeriaid ac yn y ddogfen hon.

**Ein safonau gwasanaeth**
**Cywirdeb**
Ceisiwn ddelio â phob cais heb wneud unrhyw gamgymeriadau. Os ydym yn gwneud camgymeriad byddwn yn ceisio ei gywiro cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mae gwarant teitl y wladwriaeth yn golygu y gallwn, mewn amgylchiadau priodol, dalu iawndal am y camgymeriad yn hytrach na newid y gofrestr. Byddwn yn ystyried pob cais ar ei deilyngdod ei hun.

**Cyflymder gwasanaeth**
Ceisiwn ddelio â phob chwiliad a chais am gopi swyddogol cyn pen tri diwrnod gwaith.

Ceisiwn ddelio â phob cais i gofrestru cyn pen pum wythnos. Os na allwn wneud hyn byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio'r rheswm am yr oedi a'r hyn yr ydym yn ei wneud i'w ddatrys.

**Gohebiaeth**
Ceisiwn ymateb i ohebiaeth cyn pen pum niwrnod gwaith. Mae hyn yn gymwys i lythyrau, ffacsys ac e-byst. Os na allwn wneud hyn byddwn yn ysgrifennu i esbonio pam ac yn dweud wrthych pryd y gallwch ddisgwyl ymateb.

Nid yw'r safon hon yn gymwys i geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data, pan fyddwn yn ymateb i geisiadau cyn pen 40 diwrnod, neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth pan fyddwn yn ymateb cyn pen 20 diwrnod gwaith.

### Galwyr personol

Ceisiwn weld ymwelwyr sydd ag apwyntiad yn syth ac ymwelwyr sydd heb apwyntiad cyn pen 10 munud o'r amser y maent yn cyrraedd. Gallwch ymweld â ni rhwng 8.30am a 6pm Llun - Gwener, heblaw gwyliau cyhoeddus.

Yn weithredol o 1 Ebrill 2007, gofynnir i gwsmeriaid wneud apwyntiad, gan roi o leiaf 24 awr o rybudd, os hoffent ymweld rhwng 5pm a 6pm.

### Ymholiadau ffôn

Byddwn yn ateb galwadau ffôn yn gyflym ac yn gwrtais. Ceisiwn ateb 80 y cant o alwadau i ymholiadau cyffredinol cyn pen 20 eiliad a phob galwad cyn pen 30 eiliad. Ceisiwn ateb eich cwestiwn yn syth. Fodd bynnag, os na allwn wneud hyn, byddwn yn cysylltu â chi cyn pen pum niwrnod gwaith gydag ymateb, neu'n dweud wrthych pryd y gallwch ddisgwyl ymateb.

### Arolygon tir

Weithiau bydd angen i ni arolygu tir cyn y gallwn gwblhau cais i gofrestru neu ddelio â thir. Os felly, byddwn yn dweud wrth y sawl a anfonodd y cais yn ogystal â pherchennog neu feddiannwr yr eiddo. Mae prawf adnabod gan bob un o'n harolygwyr tir.

**Beth sy'n digwydd pan fydda i'n cysylltu â chi?**

Mae canolfan gwybodaeth cwsmeriaid ym mhob un o'n swyddfeydd, gan gynnwys ein prif swyddfa, ac mae'n darparu gwasanaeth ffôn ymholiadau cyffredinol.

Mae ein swyddfa yng Nghymru hefyd yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Mae ein staff yn ymroddedig i ateb eich anghenion a byddant yn:

— rhoi eu henw i chi
— eich cynorthwyo ac yn eich trin mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol
— rhoi cyngor ar sut i gwblhau ein ffurflenni naill ai'n bersonol neu drwy roi taflen wybodaeth i chi
— trefnu i chi drafod unrhyw broblemau gyda'r rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid lleol
— gwneud trefniadau ar gyfer cofrestriadau brys neu gymhleth.

Ni allwn roi cyngor cyfreithiol i chi. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech gysylltu â chyfreithiwr neu gysylltu â'ch Canolfan Cynghori lleol.

Os ydych am wneud cais neu ymholiad yn bersonol, gallwch ymweld ag unrhyw ganolfan gwybodaeth cwsmeriaid. Mae croeso i chi alw i'n gweld ni unrhyw bryd yn ystod ein horiau agor. Ein horiau agor yw 8.30am tan 6pm Llun – Gwener heblaw gwyliau cyhoeddus. Yn weithredol o 1 Ebrill 2007, gofynnir i gwsmeriaid wneud apwyntiad, gan roi o leiaf 24 awr o rybudd, os hoffent ymweld â ni rhwng 5pm a 6pm. Nid oes angen gwneud apwyntiad ar unrhyw adeg arall o'r dydd.

Mae mynediad i gadeiriau olwyn ym mhob un o'n swyddfeydd ac mae ein staff yn cael hyfforddiant mewn cyfathrebu â phobl sydd â nam ar y clyw.

Gwnawn ein gorau i helpu.

Rhowch wybod i ni:

— os hoffech gael cymorth i ddeall yr wybodaeth a gewch gennym
— os hoffech gael yr wybodaeth mewn iaith neu fformat gwahanol, megis ar gasét sain neu mewn print bras
— os hoffech fod yng nghwmni ymgynghorwr, ffrind neu aelod o'ch teulu pan fyddwch yn delio â ni.

**Cwsmeriaid sydd â nam ar y clyw**

Gall defnyddwyr Ffôn Testun a Minicom gysylltu â ni ar y rhif rhadffôn 0800 015 3552. Neu, gallwch ymweld â'n tudalen gwasanaeth cwsmeriaid ein gwefan yn: www.landregistry.gov.uk/customerservice

**Beth os oes cwyn gen i?**

Gwerthfawrogwn y gall camgymeriadau fod yn ddiflas, ond weithiau mae pethau'n mynd o'i le. Gallwch gwyno yn bersonol, dros y ffôn neu drwy lythyr (gan gynnwys ffacs, e-bost a thrwy ein gwefan).

Rhowch wybod i ni os ydych eisiau cael cymorth i gwyno.

Mae ein staff i gyd yn dilyn trefn safonol, felly gallwch fod yn sicr y byddwn yn cynnal ymchwiliad teg a llawn i'ch cwyn.

Byddwn yn cydnabod eich cwyn ar y diwrnod y caiff ei derbyn ac yn ceisio rhoi ymateb llawn i chi cyn pen pum niwrnod gwaith. Os na allwn wneud hyn, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio'r rheswm am yr oedi a'r hyn rydym yn ei wneud i'w ddatrys.

### Os ydych chi eisiau cwyno

Os nad ydych yn fodlon â'n gwasanaeth, neu os teimlwch ein bod ni wedi gwneud camgymeriad, rhowch wybod i'r staff yn y swyddfa berthnasol a byddant yn gwneud eu gorau i unioni pethau.

### Rheolwyr gwasanaeth cwsmeriaid

Os nad ydych yn hapus o hyd, y rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid lleol yw'r person gorau i'ch helpu chi. Os nad ydych yn siŵr pa swyddfa y mae ei hangen arnoch, gallwch gysylltu â'r rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid yn unrhyw swyddfa.

### Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir

Rydym yn gobeithio datrys cwynion ar lefel swyddfa leol. Fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch, neu'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, gallwch gysylltu â Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir. Y cyfeiriad yw:

Cofrestrfa Tir, Prif Swyddfa
Lincoln's Inn Fields
Llundain WC2A 3PH
Ffôn: 0800 015 8002
Ffacs: 020 7166 4362
E-bost: customer.service
@landregistry.gsi.gov.uk

Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan yn:
www.cofrestrfatir.gov.uk

### Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA)

Os ydych wedi cysylltu â Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir ac nid ydych yn fodlon o hyd â'n hymateb, gallwch gysylltu â'r ACA yn:

New Premier House (Second Floor)
150 Southampton Row
Llundain WC1B 5AL
Ffôn: 020 7278 6251
Ffacs: 020 7278 9675
E-bost: enquiries@icr.gsi.gov.uk

Fel arfer bydd yr ACA yn ymchwilio i gwynion sydd wedi mynd trwy ein trefn gwyno fewnol yn unig. Dylech gysylltu â'r ACA cyn pen chwe mis ar ôl i ni gwblhau ein hymchwiliad i'ch cwyn.

Cewch fwy o wybodaeth a chyfarwyddyd ar ACA:
www.icrev.demon.co.uk

### Dewisiadau eraill

— Gallwch ofyn i'ch Aelod Seneddol (AS) gysylltu â ni ar eich rhan.
— Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad eich cwyn, neu'r ffordd y cafodd ei thrin, gallwch ofyn i AS gyfeirio eich cwyn at yr Ombwdsman Seneddol. Bydd yr Ombwdsman yn derbyn achos a gyfeiriwyd gan unrhyw AS ond dylech siarad â'ch AS eich hun yn gyntaf.

Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r Ombwdsman, cysylltwch â:

Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd
Millbank Tower
Millbank
Llundain SW1P 4QP
Llinell gymorth: 0845 015 4033
Ffacs: 020 7217 4160
E-bost: phso.enquiries
@ombudsman.org.uk

Gwefan yr Ombwdsman Seneddol yw:
www.ombudsman.org.uk

# Atodiad 4
# Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2007/8

Er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i gael gwasanaeth cofrestru tir gwych, mae'r canlynol wedi cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Canghellor.

| | Targed 2006/7 | Targed 2007/8 |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| ***Cyflymder*** | | |
| Canran y ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol a broseswyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | 98 | 98 |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 18 diwrnod gwaith | 80 | 80 |
| ***Cywirdeb*** | | |
| Canran y cofrestriadau a broseswyd heb gamgymeriad | 98.5 | 98.5 |
| ***Bodlonrwydd cyffredinol***[1] | | |
| Canran y cwsmeriaid sydd, at ei gilydd, yn fodlon iawn/bodlon â'r amrywiaeth lawn o wasanaethau a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir[1] | Yn well na 95 | Yn well na 95 |
| **Ariannol** | | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | 3.5 | 3.5 |
| **Effeithlonrwydd** | | |
| Cost yr uned mewn termau arian parod[2] (termau real)[3] | £29.89 (£21.17) | £29.88 (£20.61) |
| **Meysydd datblygu strategol** | | |
| ***Gwasanaeth cwsmeriaid*** | | |
| Darparu ateb isadeiledd e-ddiogelwch cynaliadwy a chyfatebol, gan ddarparu mynediad seiliedig ar rôl, swyddogaeth rheoli hunaniaeth ac e-lofnodion yn y dyfodol, ar gyfer sylfaen cwsmeriaid allanol a busnes y Gofrestrfa Tir | Ddim yn gymwys | |
| ***Cofrestru tir*** | | |
| Cynyddu cyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | 700,000 hectar | 550,000 hectar |
| ***Darparu gwasanaeth electronig*** | | |
| Cwblhau adolygiad o ymatebion i'r papur ymgynghori ar Reolau (Mynediad Rhwydwaith) Cofrestru Tir a Gorchymyn Cofrestru Tir (Cyfathrebu Electronig) ac adrodd i weinidogion | Ddim yn gymwys | |
| ***Datblygiad busnes arall*** | | |
| Symud gwefan gorfforaethol y Gofrestrfa Tir i'r porth newydd a sefydlu'r porth at ddefnydd un neu ragor o'r segmentau cwsmeriaid canlynol: dinasyddion, trawsgludwyr, rhoddwyr benthyg, asiantau tai | Ddim yn gymwys | |

[1] Canlyniadau o'r arolwg bodlonrwydd chwarterol am y flwyddyn hyd yma o chwarteri 1, 2 a 3.
[2] Yn seiliedig ar y datchwyddwr CDG a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar 21 Mawrth 2007 (blwyddyn sylfaen 1992/3).
[3] Cost yr uned mewn termau real yn y flwyddyn sylfaen 1992/3 oedd £30.65.

# Atodiad 5
# Targedau perfformiad allweddol a pherfformiad busnes ehangach wedi'u hesbonio

| Targed perfformiad allweddol | Esboniad |
|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | |
| **Cyflymder** | |
| Canran y ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol a broseswyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | Mae copïau swyddogol a chwiliadau swyddogol o'r Gofrestr Tir yn geisiadau sy'n sensitif i amser a gyflwynir ar ddechrau'r broses drawsgludo. Fe'u mesurir trwy 'gipluniau' misol cyfartalog. |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 18 diwrnod gwaith | Diffinnir cofrestriadau fel pob cais safonol i gofrestru a dderbynnir, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu oedi dilynol oherwydd cyflwyno cais anghyflawn/anghywir. Fe'u mesurir trwy 'gipluniau' misol cyfartalog. |
| **Cywirdeb** | |
| Canran y cofrestriadau a broseswyd heb unrhyw gamgymeriad | Mesurir hyn trwy gofnodi parhaus bob mis y camgymeriadau a ddychwelir gan gwsmeriaid i'w cywiro, fel canran o'r holl gofrestriadau a broseswyd. |
| **Bodlonrwydd cyffredinol** | |
| Canran y cwsmeriaid sydd, at ei gilydd, yn fodlon iawn/bodlon â'r amrywiaeth lawn o wasanaethau a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir | Mesurir trwy fonitro parhaus bob mis trwy gyfrwng holiaduron cwsmeriaid a thrwy'r arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid blynyddol. |
| **Ariannol** | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | Y gwarged gweithredu am y flwyddyn fel y dangosir yn y cyfrif incwm a gwariant (ar ôl ystyried yr elw neu'r golled ar waredu asedau cyfalaf) wedi'i fynegi fel canran o'r asedau net cyfartalog am y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol. Mae'n daladwy fel difidend i'r Gronfa Gyfunol hyd at 3.5 y cant. |
| **Effeithlonrwydd** | |
| Cost yr uned | Mae uned yn fesuriad cymharol o gost berthynol yr ymdrech sy'n ofynnol i brosesu unrhyw gategori o gais a ymdrinnir gan y Gofrestrfa Tir. Mae cais a gyflwynir yn erbyn y cyfan o deitl cofrestredig (deliad) yn cael ei osod ar werth uned o 1. Mae pob categori cais arall yn cael ei fesur yn erbyn y safon hon a'i bwyso yn unol â hynny: |

| Categori gwaith | Pwysiad yr uned |
|---|---|
| Cofrestriadau cyntaf | 3.30 |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 5.30 |
| Trosglwyddiadau o ran | 4.90 |
| Deliadau â'r cyfan | 1.00 |
| Copïau swyddogol | 0.25 |
| Chwiliadau swyddogol | 0.10 |

| | |
|---|---|
| Cost yr uned (termau real ac arian parod) | At ddibenion rheoli, mae'r garreg filltir cost yr uned termau real flynyddol yn cael ei throsi i sail arian parod trwy ddefnyddio datchwyddwyr Cynnyrch Domestig Gros (CDG) cyfredol a gyhoeddir gan Drysorlys EM.<br><br>Cost yr uned arian parod yw cyfanswm y costau gweithredu, ar sail croniadau (ac eithrio cost hawliadau indemniad cymeradwy, cydradd-ddaliad, e-drawsgludo a fectoreiddio'r map mynegai), wedi'i rannu â'r unedau gwaith a broseswyd.<br><br>Cyflawnir gwaith monitro cyson yn erbyn y garreg filltir cost yr uned 'termau real' flynyddol trwy rannu'r gost yr uned mewn termau arian parod â'r datchwyddwr CDG. |
| **Meysydd datblygu strategol** | |
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | |
| Cyflwyno mynediad seiliedig ar ddelweddaeth i'r Gofrestr Tir Ar-lein (2006/7) | Symud y rhwystr cyfredol o beidio â chael unrhyw ddewis arall ar-lein i gynnal chwiliad testunol er mwyn cynnig modd i gwsmeriaid ymholi am statws cofrestredig tir, wedi'i nodi trwy gyfrwng map, naill ai ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â chwilio'n seiliedig ar destun. |
| Darparu ateb isadeiledd e-ddiogelwch cynaliadwy a chyfatebol, gan ddarparu mynediad seiliedig ar rôl, swyddogaeth rheoli hunaniaeth ac e-lofnodion yn y dyfodol, ar gyfer sylfaen cwsmeriaid allanol a busnes y Gofrestrfa Tir (2007/8). | Mae hyn yn ofynnol er mwyn galluogi datblygu Porth y Gofrestrfa Tir ymhellach a datblygu gwasanaethau e-drawsgludo newydd. |
| **Cofrestru tir** | |
| Ychwanegu 700,000 hectar arall o dir i gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (2006/7)<br><br>Ychwanegu 550,000 hectar arall o dir i gyfanswm arwynebedd tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (2007/8) | Mae'r rhain yn gerrig milltir blynyddol tuag at gofrestr tir gynhwysfawr. Fe'u mynegir ar ffurf arwynebedd yn hytrach na chanran oherwydd gall fod yn fwy mesuradwy yn weledol na tharged canran ac mae'n cynnig modd gosod targedau mwy tryloyw ar gyfer pob un o'n 24 swyddfa. |
| **Darparu gwasanaeth electronig** | |
| Cyflwyno prototeip o'r gwasanaeth Cadwyn Matrics i ddarparu tryloywder i gadwyni trawsgludo preswyl (2006/7) | Prawf cysyniad ar gyfer prif nodwedd ein gwasanaeth e-drawsgludo arfaethedig. |

| | |
|---|---|
| Cwblhau adolygiad o'r ymatebion i'r papur ymgynghori ar y Rheolau Cofrestr Tir (Mynediad Rhwydwaith) a'r Gorchymyn Cofrestru Tir (Cyfathrebu Electronig) ac adrodd i weinidogion (2007/8) | Bydd yn cynnig modd i'r Gofrestrfa Tir fframio'r ddeddfwriaeth eilaidd sy'n ofynnol ar gyfer datblygu e-drawsgludo. |
| **Busnes arall** | |
| Sefydlu Porth y Gofrestrfa Tir fel y cam cyntaf i weithredu rhyngwyneb cwsmeriaid integredig sengl ar gyfer holl wybodaeth a gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir ar-lein (2006/7) | Y cam cyntaf mewn darparu'r isadeiledd i gynnig gwasanaethau ar-lein integredig i gwsmeriaid y Gofrestrfa Tir a gosod y sylfeini ar gyfer y gwasanaeth e-drawsgludo trafodion llawn. |
| Symud gwefan gorfforaethol y Gofrestrfa Tir i'r porth newydd a sefydlu porth ar gyfer defnyddio un neu ragor o'r segmentau cwsmeriaid canlynol: dinasyddion, trawsgludwyr, rhoddwyr benthyg, asiantau tai (2007/8) | Mae hwn yn gam tuag at greu gwefan sengl i'r Gofrestrfa Tir (y porth) y bydd holl wasanaethau'r Gofrestrfa Tir yn cael eu cyrchu drwyddi yn y pen draw. |

| Perfformiad busnes ehangach | Esboniad |
|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | |
| **Cyflymder** | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/bodlon â chyflymder gwasanaeth ceisiadau copi swyddogol a chwiliad swyddogol | Fe'i mesurir trwy fonitro parhaus bob mis trwy holiaduron cwsmeriaid a thrwy'r arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid blynyddol. |
| Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/bodlon â chyflymder gwasanaeth cofrestriadau | Fe'i mesurir trwy fonitro parhaus bob mis trwy holiaduron cwsmeriaid a thrwy'r arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid blynyddol. |
| Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerir i brosesu:<br>cofrestriadau cyntaf<br>prydlesi gwaredol cyntaf<br>trosglwyddiadau o ran<br>deliadau â'r cyfan<br>copïau swyddogol<br>chwiliadau swyddogol | Cofnodir ceisiadau yn electronig pan gânt eu derbyn a phan gânt eu cwblhau. Os yw cais yn cael ei gyflwyno'n anghywir, mae nifer y diwrnodau gwaith sy'n mynd heibio cyn datrys y mater yn cael ei gynnwys yn yr amser prosesu a gofnodir.<br><br>Cofrestriadau cyntaf, sy'n gofyn am archwiliad llawn o'r teitl, a phrydlesi gwaredol cyntaf, sy'n golygu ystyried prydlesi hir a chymhleth yn aml. Gall trosglwyddiadau o ran fod yn gymhleth iawn, gan gynnwys ystyriaeth fanwl o hawddfreintiau. Erbyn hyn mae bron pob copi swyddogol a chwiliad swyddogol yn cael ei brosesu'n electronig. |

| | |
|---|---|
| Canran yr ohebiaeth gyffredinol (llythyrau, ffacsys ac e-byst) a gafodd ymateb cyn pen pum niwrnod gwaith | Nid yw'n cynnwys gohebiaeth ag Aelodau Seneddol, gohebiaeth sy'n ymwneud â cheisiadau swyddogol cyfredol, gwaith achos cymhleth a dadleuol, neu achosion lle y cyfeirir at y Ddeddf Diogelu Data 1998 neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. |
| **Cywirdeb** | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon iawn/bodlon â chywirdeb cofrestriadau | Fe'i mesurir trwy fonitro parhaus bob mis trwy holiaduron cwsmeriaid a thrwy'r arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid blynyddol. |
| **Bodlonrwydd cyffredinol** | |
| Canran y cwsmeriaid sydd, at ei gilydd, yn fodlon iawn â'r amrywiaeth lawn o wasanaethau a ddarperir gan y Gofrestrfa Tir | Fe'i mesurir er mwyn sicrhau bod lefelau cwsmeriaid bodlon iawn yn cael eu cynnal. Mae'n cael ei gymryd o'n harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid blynyddol a'n holiaduron cwsmeriaid chwarterol. |
| **Ariannol** | |
| Canran y gostyngiad cronnus mewn ffioedd ers bod yn gronfa fasnachu | Mae'n adlewyrchu'r gostyngiad cronnus mewn ffioedd ers i'r Gofrestrfa Tir fod yn gronfa fasnachu yn 1993. |
| **Strategol** | |
| Nifer y teitlau cofrestredig (miliynau) | Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli maint cyfredol y Gofrestr Tir ar gyfer Cymru a Lloegr. Amcangyfrifwn fod Cofrestr Tir gyflawn yn cynnwys tua 23 miliwn o deitlau. |
| Canran (arwynebedd) y tir rhydd-ddaliad yng Nghymru a Lloegr sydd wedi'i gofrestru | Mae proses wedi cael ei datblygu bellach a fydd yn cynnig modd cofnodi mesur tir cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. |
| Nifer y cofrestriadau:<br>cofrestriadau cyntaf<br>rhyddhadau<br>morgeisi<br>trosglwyddiadau o werth<br>prydlesi | Mae'r rhain yn elfennau allweddol yn y broses cofrestru tir. |
| Nifer cyfartalog o ddiwrnodau hyfforddi y person | Fe'i nodir fel cyfartaledd o'r cofnodion misol parhaus gan hyfforddwyr rheoli lleol. |

# Atodiad 6
# Datganiad recriwtio

Mae'r wybodaeth ganlynol yn disgrifio gwaith y Gofrestrfa Tir ym maes recriwtio yn ystod 2006/7.

Mae gweithgarwch recriwtio'r Gofrestrfa Tir wedi cynyddu mewn meysydd penodol y flwyddyn hon, gyda phwyslais arbennig ar symud tuag at drawsgludo electronig, sydd wedi creu amrywiaeth o swyddi i ategu'r isadeiledd TG ac adeiladu sail i wasanaethau masnachol y dyfodol.

Mae'r twf dilynol yn y meysydd busnes hyn, a'r angen sylfaenol am arbenigedd y Gofrestrfa Tir, wedi darparu cyfleoedd datblygu gyrfa i staff mewn swyddogaethau gweithredol.

Yn ogystal, gyda'r nifer mwyaf erioed o waith a dderbyniwyd y flwyddyn hon, cynhaliwyd ymgyrch recriwtio cenedlaethol mawr i recriwtio cyfanswm o 200 o swyddogion gweithredol cofrestru ar draws swyddfeydd y Gofrestrfa Tir.

Mae proffil demograffig yr uwch reolwyr wedi elwa o recriwtio a gwblhawyd yn 2005. Fodd bynnag, bu recriwtio parhaus i lenwi'r swyddi gwag a grëwyd yn dilyn ymddeoliad.

Mae gweithdrefnau recriwtio'r Gofrestrfa Tir yn cael eu gweithredu ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol â'r cod recriwtio a bennwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ac maent yn cael eu monitro'n fewnol.

Gwnaethpwyd y penodiadau canlynol yn ystod 2006/7:

| **Graddfa** | **Nifer a benodwyd** |
|---|---|
| Uwch Gofrestru Gweinyddydd (SRA) | 12 |
| Uwch Gofrestru Gweithredol (SRE) | 2 |
| Gweithredol Cofrestru 1 (RE1) | 6 |
| Gweithredol Cofrestru 2 (RE2) | 222 |
| Swyddog Cofrestru (RO) | 2 |
| Cynorthwy-ydd Cofrestru (RA) | 3 |
| **Cyfanswm** | **247** |

Mae ymrwymiad parhaus y Gofrestrfa Tir i amrywiaeth a chyfle cyfartal yn cael ei adlewyrchu yn ei gweithdrefnau recriwtio, sy'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n barhaus. Mae'r ystadegau canlynol yn ymwneud â'r staff a ddangosir yn y tabl uchod.

| **Graddfa** | **Gwryw** | **Benyw** | **Lleiafrifoedd ethnig** | **Anabl** |
|---|---|---|---|---|
| Uwch Gofrestru Gweinyddydd (SRA) | 5 | 7 | 0 | 0 |
| Uwch Gofrestru Gweithredol (SRE) | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Gweithredol Cofrestru 1 (RE1) | 5 | 1 | 1 | 0 |
| Gweithredol Cofrestru 2 (RE2) | 101 | 121 | 12 | 5 |
| Swyddog Cofrestru (RO) | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Cynorthwy-ydd Cofrestru (RA) | 2 | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **115** | **132** | **14**[1] | **5** |

[1] Mae'r ffigur hwn yn rhagori ar darged y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2006/7.

Sylwer: Nid oedd pob gweithiwr wedi datgan ei dras ethnig neu ei statws anabledd

Ni wnaethpwyd unrhyw benodiadau dan yr eithriadau i'r egwyddorion recriwtio a ganiateir gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

# Atodiad 7
# Manylion cyswllt swyddfeydd y Gofrestrfa Tir

**Prif Swyddfa**
Lincoln's Inn Fields
Llundain
WC2A 3PH
Ffôn: 020 7917 8888

**Swyddfa Abertawe**
Tŷ Bryn Glas
Y Stryd Fawr
Abertawe
SA1 1PW
Ffôn: 01792 458877

**Swyddfa Caerefrog**
James House
James Street
Caerefrog
YO10 3YZ
Ffôn: 01904 450000

**Swyddfa Caerhirfryn**
Wrea Brook Court
Lytham Road
Warton
Swydd Gaerhirfryn
PR4 1TE
Ffôn: 01772 836700

**Swyddfa Caerloyw**
Twyver House
Bruton Way
Caerloyw
GL1 1DQ
Ffôn: 01452 511111

**Swyddfa Caerlŷr**
Westbridge Place
Caerlŷr
LE3 5DR
Ffôn: 0116 265 4000

**Swyddfa Coventry**
Leigh Court
Torrington Avenue
Tile Hill
Coventry
CV4 9XZ
Ffôn: 024 7686 0860

**Swyddfa Croydon**
Trafalgar House
1 Bedford Park
Croydon
CR0 2AQ
Ffôn: 020 8781 9103

**Swyddfa Cymru**
Tŷ Cwm Tawe
Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe
SA7 9QF
Ffôn: 01792 355000

**Swyddfa Durham (Boldon)**
Boldon House
Wheatlands Way
Pity Me
Durham
DH1 5GJ
Ffôn: 0191 301 2345

**Swyddfa Durham (Southfield)**
Southfield House
Southfield Way
Durham
DH1 5TR
Ffôn: 0191 301 3500

**Swyddfa Harrow**
Lyon House
Lyon Road
Harrow
Middlesex
HA1 2EU
Ffôn: 020 8235 1181

**Swyddfa Kingston upon Hull**
Earle House
Colonial Street
Hull
HU2 8JN
Ffôn: 01482 223244

**Swyddfa Lytham**
Birkenhead House
East Beach
Lytham St Annes
Swydd Gaerhirfryn
FY8 5AB
Ffôn: 01253 849849

**Swyddfa Nottingham (Dwyrain)**
Robins Wood Road
Nottingham
NG8 3RQ
Ffôn: 0115 906 5353

**Swyddfa Nottingham (Gorllewin)**
Chalfont Drive
Nottingham
NG8 3RN
Ffôn: 0115 935 1166

**Swyddfa Penbedw (Old Market)**
Old Market House
Hamilton Street
Penbedw
Glannau Mersey
CH41 5FL
Ffôn: 0151 473 1110

**Swyddfa Penbedw (Rosebrae)**
Rosebrae Court
Woodside Ferry Approach
Penbedw
Glannau Mersey
CH41 6DU
Ffôn: 0151 472 6666

**Swyddfa Peterborough**
Touthill Close
City Road
Peterborough
PE1 1XN
Ffôn: 01733 288288

**Swyddfa Plymouth**
Plumer House
Tailyour Road
Crownhill
Plymouth
PL6 5HY
Ffôn: 01752 636000

**Swyddfa Portsmouth**
St Andrew's Court
St Michael's Road
Portsmouth
Hampshire
PO1 2JH
Ffôn: 023 9276 8888

**Swyddfa Stevenage**
Brickdale House
Swingate
Stevenage
Hertfordshire
SG1 1XG
Ffôn: 01438 788889

**Swyddfa Telford**
Parkside Court
Hall Park Way
Telford
TF3 4LR
Ffôn: 01952 290355

**Swyddfa Tunbridge Wells**
Forest Court
Forest Road
Hawkenbury
Tunbridge Wells
Caint
TN2 5AQ
Ffôn: 01892 510015

**Swyddfa Weymouth**
Melcombe Court
1 Cumberland Drive
Weymouth
Dorset
DT4 9TT
Ffôn: 01305 363636

**Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol**
Plumer House
Tailyour Road
Crownhill
Plymouth
PL6 5HY
Ffôn: 01752 636666

**Cofrestrfa Tir Systemau Gwybodaeth**
Seaton Court
2 William Prance Road
Plymouth
PL6 5WS
Ffôn: 01752 640000

**Cofrestrfa Tir Gwasanaethau Ffôn**
Mae Gwasanaethau Ffôn y Gofrestrfa Tir yn ddewis arall cyflym a chyfleus yn lle ceisiadau trwy'r post, ond mae ar gael i gwsmeriaid sydd â chyfrif credyd y Gofrestrfa Tir yn unig.

Trwy ffonio **0870 908 8063*** gall cwsmeriaid wneud cais am amrywiaeth o chwiliadau a chopïau swyddogol y Gofrestrfa Tir a Phridiannau Tir.

Mae gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael ar **0870 908 8069**.

Cewch wybodaeth bellach gan y rheolwr gwasanaeth cwsmeriaid yn unrhyw swyddfa'r Gofrestrfa Tir.

*Sylwer gall galwadau gael eu recordio.

# Atodiad 8
# Rhestr termau

**Arweinwyr y Dyfodol**
Rhaglen y Gofrestrfa Tir i adnabod a datblygu staff sydd â'r potensial a'r ymroddiad i godi i lefelau uwch reolwyr. Lansiwyd y cynllun yn Ebrill 2005 i gymryd lle'r cyn gynllun datblygu carlam FOCUS.

**Arwystlai (neu forgeisai)**
Y sawl sy'n benthyg arian a warentir trwy arwystl neu forgais.

**Arwystlwr (neu forgeiswr)**
Perchennog eiddo sy'n benthyg arian ar forgais ac sy'n arwystlo'r eiddo fel gwarant am y benthyciad.

**Blaenoriaeth amser real**
Mae blaenoriaeth amser real yn newid rheolau'r Gofrestrfa Tir ynghylch blaenoriaethau chwiliadau swyddogol a cheisiadau ôl-gwblhau. Mae'n estyn yr amser yn ystod y diwrnod gwaith sydd ar gael i ymarferyddion gyflwyno'r ceisiadau hyn trwy roi blaenoriaeth iddynt o'r adeg y cânt eu cofnodi ar y rhestr ddydd (gweler uchod).

**Cadwyn Matrics**
Hysbysfwrdd electronig, sydd ar gael ar-lein, a ddefnyddir gan drawsgludwyr, sy'n dangos y camau allweddol sydd wedi cael eu cyrraedd ym mhob achos o werthu neu brynu eiddo o fewn cadwyni'r trafodiad sydd i'w gweld yn gyffredin yng Nghymru a Lloegr. Hefyd, mae'n darparu elfen o reolaeth a chydlyniad mewn camau allweddol yn y broses ac yn rhoi cyfle i bob parti ddangos parodrwydd i symud ymlaen i gyfnewid.

**Cais**
Unrhyw gais i ddefnyddio gwasanaethau amrywiol y Gofrestrfa Tir. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cyn-gwblhau ac ôl-gwblhau (gweler isod).

**Cais cyn-gwblhau**
Cais sy'n ceisio gwybodaeth neu flaenoriaeth ar gyfer trafodiad cyn cwblhau'r gwerthiant neu'r morgais. Gall ceisiadau, sy'n cynnwys chwiliadau o'r map mynegai, chwiliadau swyddogol o ran a'r cyfan a chopïau swyddogol, gael eu cyflwyno yn bersonol, trwy'r post, ffacs, dros y ffôn a thrwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol.

**Cais ôl-gwblhau**
Cais i gofrestru a gyflwynwyd ar ôl cwblhau'r gwerthiant neu'r morgais.

**Cofrestr Tir Ar-lein**
Mynediad cyhoeddus trwy'r we i wybodaeth y Gofrestrfa Tir a thalu gyda cherdyn credyd.

**Cofrestrfa Tir Uniongyrchol**
Gwasanaeth ar-lein i ddeiliaid cyfrif credyd y Gofrestrfa Tir, gan gynnig mynediad electronig cyflym iddynt i amrywiaeth o wybodaeth y Gofrestrfa Tir.

**Cofrestriad cyntaf**
Cofrestru teitl i dir anghofrestredig.

**Copi swyddogol**
Copïau swyddogol o weithredoedd a dogfennau yn y Gofrestrfa Tir, gan gynnwys y gofrestr a chynllun teitl.

**Cyflenwr Categori 1**
Cyflenwr nwyddau neu wasanaethau i'r Gofrestrfa Tir lle y byddai colli neu fethu â darparu unrhyw un o'r meini prawf neu effaith gyfunedig sawl maen prawf yn atal y sefydliad rhag cwrdd â'i DPA neu fesurau perfformiad ehangach y llywodraeth.

**Cyfradd damweiniau**
Ystadegyn cydnabyddedig a ddefnyddir gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer cofnodi damweiniau.

**Cynllun teitl**
Cynllun sy'n cael ei baratoi ar gyfer teitlau unigol yn dangos stent y teitl cofrestredig.

**Chwiliad o'r map mynegai (ChMM)**
Chwiliad o fapiau mynegai cyhoeddus y Gofrestrfa Tir i bennu a yw eiddo wedi'i gofrestru neu beidio ac, os ydyw, ei rif teitl.

**Chwiliad swyddogol o ran**
Chwiliad o ran o deitl cofrestredig sydd hefyd yn sicrhau blaenoriaeth.

**Chwiliad swyddogol o'r cyfan**
Chwiliad o'r cyfan o deitl cofrestredig sydd hefyd yn sicrhau blaenoriaeth ar gyfer y trafodion sy'n aros.

**Deliad**
Cais sy'n effeithio ar deitl cofrestredig (heblaw gwasanaeth cyn-gwblhau), sydd fel arfer yn golygu deliad â'r teitl cyfan.

**Diweddaru'r gofrestr yn electronig**
System a fydd yn prosesu cais a gyflwynir yn electronig i newid y gofrestr yn awtomatig.

**E-arwystlon**
Yn yr un ffordd ag y mae modd dileu morgais yn awtomatig o'r gofrestr trwy gyfrwng e-ryddhau, gall morgais gael ei ychwanegu yn awtomatig i'r gofrestr pan fydd cyfrif newydd yn cael ei ychwanegu at gyfrifiadur rhoddwr benthyg.

**E-ryddhau**
Dull a ddefnyddir i ganslo cofnodion morgais gan forgeisai trwy gyfrwng trafodiad o beiriant i beiriant heb fod angen i staff y Gofrestrfa Tir ymyrryd.

**Glasbrint Sefydliadol**
Dogfen sy'n rhoi ein barn gyffredol am ddyfodol y Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys nifer o newidiadau i'r Gofrestrfa Tir a fydd yn effeithio ar y staff a gyflogir a ble y maent yn gweithio, yn ogystal â chwsmeriaid y Gofrestrfa Tir a sut y cânt eu gwasanaethu.

**Gwaith achos teitl newydd**
Ceisiadau sy'n gofyn am gyhoeddi rhif teitl newydd - cofrestriadau cyntaf, prydlesi gwaredol cyntaf a throsglwyddiadau o ran.

**Gweithiwr achos**
Aelod staff penodedig sy'n ystyried cais a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 a Rheolau Cofrestru Tir 2003, ac sy'n gweithredu yn unol â hynny.

**Gweithrediadau cyfunedig**
Staff aml-fedrus sy'n prosesu gwaith achos teitl newydd o'r adeg y caiff ei dderbyn hyd at ei ddosbarthu mewn un gweithrediad.

**Map mynegai fector**
Mae polygonau wedi cael eu creu ar gyfer pob cofrestriad sy'n bodoli ar fap mynegai papur Cymru a Lloegr (mwy nag 17 miliwn). Mae'r polygonau wedi'u cysylltu â'r Gronfa Ddata Disgrifiad Eiddo Gyfrifiadurol a Mynegai Daearyddol Eiddo'r Gofrestrfa Tir, gan felly creu map mynegai fector y gall pob defnyddiwr system fapio'r Gofrestrfa Tir a chwsmeriaid allanol ei ddefnyddio trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol. Cwblhawyd y prosiect o drosi'r map mynegai yn Chwefror 2004.

**Polygon**
Mae polygon yn ffigur amlochrog sy'n cael ei greu yn electronig ac mae'n cynrychioli stent cofrestredig teitl arbennig ar y map mynegai fector.

**Porth**
Isadeiledd gwefan sengl i alluogi darparu gwasanaethau ar-lein integredig i gwsmeriaid y Gofrestrfa Tir.

**Prydles waredol gyntaf**
Cofrestriad cyntaf o ystad les-ddaliad a grëwyd o deitl cofrestredig.

**Rhestr ddydd**
Mynegai o bob cais sy'n aros i'w brosesu yn y Gofrestrfa Tir.

Mae'n rheoleiddio'r blaenoriaethau rhwng ceisiadau sy'n effeithio ar yr un rhif teitl.

**Teitl**
Tystiolaeth o hawl unigolyn i eiddo.

**Tir digofrestredig**
Tir lle nad yw'r tir wedi'i gofrestru eto yn y Gofrestrfa Tir. Gellir dosbarthu buddion yn y tir digofrestredig fel buddion cyfreithiol, buddion teulu, buddion masnachol a buddion gweddilliol.

**Tranche**
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi mabwysiadu ymagwedd tranche ar gyfer cyflwyno e-drawsgludo. Mae tranche yn gorff o waith o fewn y rhaglen e-drawsgludo sy'n darparu budd busnes diffiniedig clir (cyfres o wasanaethau busnes) i'r Gofrestrfa Tir a'n cwsmeriaid.

**Trosglwyddiad o ran**
Trosglwyddiad neu arwystl o ran o deitl cofrestredig.

**Tystysgrif electronig**
Dogfen swyddogol a ddelir mewn fformat electronig. Mae Deddf Cyfathrebu Electronig 2000 yn darparu isadeiledd cyfreithiol ar gyfer e-fusnes. Nid yw'r Ddeddf yn mynd mor bell â diwygio neu ddisodli deddfwriaeth bresennol sy'n gofyn am lofnodion â llaw, ond mae Adran 8 yn rhoi'r grym i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor newid deddfwriaeth trwy Offeryn Statudol, i awdurdodi neu hwyluso

cyfathrebu electronig a storio dogfennau, yn lle ffurfiau eraill o gyfathrebu neu storio.

**Uned**
Mesuriad cymharol o gost berthynol yr ymdrech sy'n ofynnol i brosesu unrhyw gategori o waith sy'n cael ei drin gan y Gofrestrfa Tir.

**Uned busnes**
Mae pob un o'r 24 swyddfa leol, y Grŵp Systemau Gwybodaeth a'r Adran Pridiannau Tir (y ddau wedi'u lleoli yn Plymouth) a Phrif Swyddfa'r Gofrestrfa Tir yn Llundain yn gweithredu fel unedau busnes annibynnol ar wahân.  Mae gan bob un gyfrifoldeb dros aros o fewn cyllidebau staff a chyllidebau heb fod yn gyllidebau staff a ddyrennir yn ganolog.

**Ymdriniaeth sengl**
Staff aml-fedrus yn prosesu ceisiadau ar-lein, mewn un gweithrediad.

# Atodiad 9
# Strwythur llywodraethu corfforaethol y Gofrestrfa Tir 2006/7

**Pwyllgorau Tâl 1 a 2**
Yn cael eu cadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol

## Bwrdd y Gofrestrfa Tir
Yn cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol

**Pwyllgor Archwilio**
Yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol

**Bwrdd Risg Busnes**

**Bwrdd Rheoli Rhaglenni**

## Bwrdd Gweithredol
Yr un aelodaeth â Bwrdd y Gofrestrfa Tir ond heb gynnwys cyfarwyddwyr anweithredol

**Bwrdd Rhaglen Newid Busnes**

- **Bwrdd Datblygu Busnes**
- **Bwrdd Rhaglen E-drawsgludo**
- **Bwrdd Cyllideb a Chynllunio**
- **Bwrdd Materion Technegol**
- **Bwrdd Indemniad**
- **Bwrdd Newid Cofrestru**
- **Bwrdd Rheoli Asedau Eiddo**

**Diben cyffredinol pob prif fwrdd**
Mae **Bwrdd y Gofrestrfa Tir** yn cynorthwyo'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn ei brif gyfrifoldeb a'i atebolrwydd dros lywodraethu a pherfformiad da y Gofrestrfa Tir.

Mae'r **Bwrdd Gweithredol** yn cyflwyno'r cynllun busnes blynyddol ac yn gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd.

**Diben cyffredinol pob is-fwrdd**
Mae'r **Pwyllgorau Tâl** yn gweinyddu adolygiadau tâl blynyddol yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd bod gweithgareddau'r Gofrestrfa Tir yn cael eu cyflawni yn unol â safonau atebolrwydd cyhoeddus priodol.

Mae'r **Bwrdd Risg Busnes** yn sicrhau bod prif risgiau busnes yn cael eu nodi a'u rheoli.

Mae'r **Bwrdd Rhaglen Newid Busnes** yn datblygu'r Glasbrint ar gyfer dyfodol y Gofrestrfa Tir ac yn ei adolygu'n gyson.  Mae'n sicrhau bod gweithgareddau sy'n ofynnol er mwyn gwireddu'r Glasbrint yn cael eu cyflawni.

Mae'r **Bwrdd Rhaglen E-drawsgludo** yn datblygu'r systemau gwybodaeth a systemau eraill i ddarparu e-drawsgludo, gan sicrhau ei fod yn ateb anghenion cwsmeriaid allanol.  Mae'n darparu disgrifiad clir o allbynnau o'r system a fydd yn golygu bod modd rheoli gweithredu e-drawsgludo o fewn y Gofrestrfa Tir y tu allan i'r rhaglen.

Mae'r **Bwrdd Datblygu Busnes** yn datblygu gwasanaethau anstatudol (ac eithrio e-fusnes a'r Uned Ryngwladol), gan arolygu datblygiad y gwasanaethau newydd hyn a, phan fyddant yn gweithredu, yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i reolwyr gweithredol.

Mae'r **Bwrdd Newid Cofrestru** yn rheoli'r rhaglen o brosiectau ac adolygiadau sy'n ceisio gwella cyflwyno gwasanaethau statudol ac anstatudol a drosglwyddir i reolwyr gweithredol.  Mae'n darparu gwelliant parhaus.

Mae'r **Bwrdd Cyllid a Chynllunio** yn pennu'r gyllideb flynyddol, yn cytuno ar y broses ar gyfer amrywiadau canol-blwyddyn yn y gyllideb ac yn sicrhau bod prosesau cyllidebu a chynllunio yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae'r **Bwrdd Materion Technegol** yn ystyried materion manwl/cymhleth sy'n gofyn am egluro cyfarwyddyd ymarfer presennol.

Mae'r **Bwrdd Rheoli Rhaglenni** yn pennu methodoleg prosiect a rhaglen ac yn monitro er mwyn sicrhau bod y Gofrestrfa Tir yn gweithredu o fewn y canllawiau hyn.  Mae'n cael gwybodaeth am amserlenni er mwyn sicrhau bod yr adnodd yn cael ei gynllunio i ateb anghenion y prosiect/rhaglen.

Mae'r **Bwrdd Indemniad** yn adolygu tueddiadau mewn gwallau a cheisiadau indemniad.

Mae'r **Bwrdd Rheoli Asedau Eiddo** yn darparu sicrwydd bod caffael eiddo, gwaredu, buddsoddi a phenderfyniadau defnydd yn cyfateb â strategaeth ac amcanion busnes y Gofrestrfa Tir.

# Atodiad 10
# Polisi rheoli risg y Gofrestrfa Tir

**Dibenion**
Rheoli risg mewn modd effeithiol a thryloyw trwy ddatblygu arferion a gweithdrefnau cadarn gan gynnig modd gwneud dewisiadau gwybodus a rheoli risgiau o safon fyd-eang gan felly gwarchod budd budd-ddeiliaid yn y busnes.

**Cwmpas**
Mae'r polisi hwn yn gymwys i holl staff y Gofrestrfa Tir ym mhob lleoliad oherwydd mae rheoli risg yn gyfrifoldeb pawb. Mae'n rhaid i unigolion edrych ar y risg o bethau yn mynd o'i le ond hefyd ar effaith colli cyfleoedd.

**Polisi**
Bydd y Gofrestrfa Tir yn:
— dilyn arferion gorau Swyddfa Masnach y Llywodraeth
— gwneud gweithgarwch rheoli risg yn gydnaws â strategaethau swyddogaethol corfforaethol
— annog cymryd risgiau wedi'i werthuso'n llawn, manteisio ar gyfleoedd newydd a defnyddio dulliau arloesol i wella prosesau a chyflawni amcanion corfforaethol
— adnabod, ystyried a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithredoedd a'r penderfyniadau arfaethedig er mwyn sicrhau bod y risgiau a wynebir yn aros o fewn paramedrau derbyniol
— defnyddio dadansoddi risg fel rhan o gynllunio strategol, busnes a buddsoddi, gan ystyried y risgiau ar eu pennau eu hunain ac mewn clystyrau
— trin, goddef, trosglwyddo, terfynu neu fanteisio ar risg mewn modd cost-effeithiol, fel y bo'n briodol i faint y risg
— cofrestru pob risg, gan ddangos perchenogaeth a'r gweithredoedd sydd mewn lle i reoli'r risgiau
— cael proses ddiffiniedig ar gyfer gosod goddefgarwch ac ar gyfer adrodd bod risgiau wedi cynyddu
— darparu hyfforddiant ar reoli risg i aelodau staff wedi'i ategu gan ddeunydd cyfarwyddyd
— hybu diwylliant o beidio â bwrw bai sy'n hyrwyddo lledaenu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd
— darparu gwybodaeth ar ddibynadwyedd systemau rheolaeth fewnol y Gofrestrfa Tir a fydd yn hanfodol i ddarparu'r sicrwydd gofynnol am brofiad a chymhwysedd y Gofrestrfa Tir
— cynnig mod asesu'r uchod yn annibynnol
— cyflwyno'r polisi hwn trwy'r broses a'r gweithdrefnau a gyhoeddwyd ar y fewnrwyd.

**Gorfodi**
Mae gan y Bwrdd Risg Busnes gyfrifoldeb uniongyrchol am gynnal y polisi a darparu sicrwydd ei fod yn cael ei ddilyn. Rhaid i unrhyw wyriadau o'r polisi gael eu hadrodd gan y Bwrdd Risg Busnes.

**Adolygu**
Bydd y Bwrdd Risg Busnes yn adolygu'r polisi yn flynyddol.



Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa Gyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID5616386 07/07